22 Chwefror 2018

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

# Addasiadau Tai

WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU



Rwyf wedi paratoi a chyhoeddi'r adroddiad hwn yn unol â Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.

Nick Selwyn oedd rheolwr tîm astudiaeth Swyddfa Archwilio Cymru. Roedd y tîm hwnnw'n cynnwys Steve Frank, Gareth Jones, Euros Lake, Duncan Mackenzie, Sara Leahy a Sara Woollatt o dan gyfarwyddyd Jane Holownia.

**Huw Vaughan Thomas**
**Archwilydd Cyffredinol Cymru**
**Swyddfa Archwilio Cymru**
**24 Heol y Gadeirlan**
**Caerdydd**
**CF11 9LJ**

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn annibynnol o'r Cynulliad Cenedlaethol ac o lywodraeth. Mae'n archwilio ac yn ardystio cyfrifon Llywodraeth Cymru a'r cyrff cyhoeddus sy'n gysylltiedig â hi ac a noddir ganddi, gan gynnwys cyrff y GIG. Mae ganddo'r pŵer i gyflwyno adroddiadau i'r Cynulliad Cenedlaethol ar ddarbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y defnydd a wna'r sefydliadau hynny o'u hadnoddau wrth gyflawni eu swyddogaethau, a sut y gallent wella'r defnydd hwnnw.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol hefyd yn archwilio cyrff llywodraeth leol yng Nghymru, mae'n cynnal astudiaethau gwerth am arian mewn llywodraeth leol ac yn arolygu cydymffurfiaeth gydag anghenion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn ymgymryd â'i waith gan ddefnyddio staff ac adnoddau eraill a ddarperir gan Swyddfa Archwilio Cymru, sydd yn fwrdd statudol wedi'i sefydlu ar gyfer y nod hwnnw ac i fonitro a chynghori'r Archwilydd Cyffredinol.

© Archwilydd Cyffredinol Cymru 2017

Cewch ailddefnyddio'r cyhoeddiad hwn (heb gynnwys y logos) yn rhad ac am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng. Os byddwch yn ei ailddefnyddio, rhaid i chi ei ailddefnyddio'n gywir ac nid mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint Archwilydd Cyffredinol Cymru a rhaid rhoi teitl y cyhoeddiad hwn. Lle nodwyd deunydd hawlfraint unrhyw drydydd parti bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw cyn ei ailddefnyddio.

Am fwy o wybodaeth, neu os ydych angen unrhyw un o'n cyhoeddiadau mewn ffurf ac/neu iaith wahanol, cysylltwch â ni drwy ffonio 029 2032 0500 neu drwy e-bostio post@archwilio.cymru. Rydym yn croesawu galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Gallwch ysgrifennu atom hefyd, yn Gymraeg neu'n Saesneg, a byddwn yn ymateb yn yr iaith rydych chi wedi ei defnyddio. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

**This document is also available in English.**

# Cynnwys


| | | |
|---|---|---|
| | Mae bodlonrwydd defnyddwyr ag addasiadau tai yn cuddio system hynod gymhleth, adweithiol ac annheg nad yw'n darparu gwasanaeth i bawb y gallai fod arnynt ei angen, ac nid yw cyrff cyhoeddus yn achub ar gyfleoedd i wella gwerth am arian | 7 |
| | Crynodeb o'n canfyddiadau | 8 |
| | Argymhellion | 12 |
| 1 | Mae'r system gyfredol ar gyfer cyflenwi addasiadau yn creu mwy o anghydraddoldeb i rai pobl anabl a phobl hŷn, ac mae'r gwahanol ffynonellau cyllid yn cymhlethu'r broses o ymateb i anghenion | 18 |
| | Mae dewisiadau polisi lleol a chenedlaethol wedi creu system orgymhleth sy'n atgyfnerthu annhegwch wrth ddarparu addasiadau, yn hytrach nag ymdrin â'r annhegwch hwnnw | 19 |
| | Cyflenwir addasiadau gan nifer fawr o sefydliadau sydd yn cynorthwyo tua 32,000 o bobl bob blwyddyn, ond mae'r gwariant ar addasiadau mewn termau real yn sefydlog, ac mae'r gwahanol ffynonellau cyllid yn cymhlethu'r ddarpariaeth | 24 |
| 2 | Mae'r addasiadau a ddarperir i bobl ag anghenion tebyg yn anghyfartal oherwydd anghysondebau yn y modd y bydd sefydliadau cyflenwi yn darparu gwasanaethau | 28 |
| | Ni chaiff addasiadau eu hyrwyddo'n effeithiol bob tro i bawb a fyddai'n elwa arnynt | 30 |
| | Mae'r prosesau ymgeisio, asesu a chymeradwyo yn amrywio'n sylweddol, a gall hynny achosi oedi cyn i bobl anabl a phobl hŷn dderbyn gwaith addasu | 37 |
| | Bydd sefydliadau cyflenwi yn mabwysiadu amrywiaeth eang o ymagweddau er mwyn trefnu a rheoli gwaith adeiladu, ac nid yw'r rhain bob amser yn effeithlon neu'n effeithiol | 46 |

3 At ei gilydd, mae cyrff cyhoeddus yn cyfleu'r budd a ddaw yn sgil addasiadau yn glir, ond mae gwaith partneriaeth yn aneffeithiol er mwyn bodloni anghenion 54

Yn ôl data'r cyfrifiad ac amcanestyniadau poblogaeth, bydd y galw am addasiadau'n parhau i gynyddu 55

At ei gilydd, mae gan gyrff cyhoeddus ddealltwriaeth glir o bwysigrwydd addasiadau er mwyn cefnogi annibyniaeth. Fodd bynnag, mae sefydliadau'n parhau i gynllunio mewn seilo heb ganolbwyntio ryw lawer ar gydweithio nac integreiddio 58

4 Mae dealltwriaeth cyrff cyhoeddus o fudd llesiannol addasiadau tai yn y tymor hir yn brin, ac mae lle sylweddol o hyd i ddiwygio'r system er mwyn mesur a gwella cydraddoldeb a llesiant 69

Roedd y rhai a dderbyniodd waith addasu ac a ymatebodd i'n harolwg yn fodlon iawn â'r gwaith hwnnw 70

Mae gwendidau wrth oruchwylio perfformiad yn atgyfnerthu'r anghydraddoldeb o fewn y system a achosir gan wahanol ffynonellau cyllid 71

Wrth reoli perfformiad, canolbwyntir yn ormodol ar fewnbwn ac allbwn sefydliadau unigol yn hytrach na gwella'r canlyniadau a'r budd ataliol a ddaw yn sgil addasiadau 76

Atodiadau


Atodiad 1: Methodoleg Astudio 81

Atodiad 2: Diffiniad o gymdeithasau tai ac asiantaethau Gofal a Thrwsio 84

Atodiad 3: Y pum llwybr ariannu cyhoeddus ar gyfer addasiadau yng Nghymru 85

Atodiad 4: Cyfanswm y boblogaeth 65 oed a throsodd y rhagwelir na fyddant yn gallu ymdopi ag un dasg yn y cartref ar eu pen eu hunain 87

Atodiad 5: Amcanestyniad o'r boblogaeth 65 a throsodd â phroblemau symudedd 89

Atodiad 6: Barn rheolwyr awdurdod lleol ynghylch effeithiolrwydd trefniadau partneriaeth rhwng eu hawdurdod lleol a sefydliadau eraill sy'n cyflenwi addasiadau tai 91

Atodiad 7: Barn rheolwyr cymdeithasau tai ynghylch effeithiolrwydd trefniadau partneriaeth rhwng eu cymdeithas dai a sefydliadau eraill sy'n cyflenwi addasiadau tai 92

Atodiad 8: Barn rheolwyr Gofal a Thrwsio ynghylch effeithiolrwydd trefniadau partneriaeth rhwng eu sefydliad hwy a sefydliadau eraill sy'n cyflenwi addasiadau tai 93

# Adroddiad cryno

## Mae bodlonrwydd defnyddwyr ag addasiadau tai yn cuddio system hynod gymhleth, adweithiol ac annheg nad yw'n darparu gwasanaeth i bawb y gallai fod arnynt ei angen, ac nid yw cyrff cyhoeddus yn achub ar gyfleoedd i wella gwerth am arian

1 Wrth i'r boblogaeth o bobl hŷn ehangu, mae angen i gyrff cyhoeddus - Llywodraeth Leol, awdurdodau lleol a chymdeithasau tai - sicrhau eu bod yn darparu tai i bobl hŷn a phobl anabl er mwyn galluogi'r naill a'r llall i fyw bywyd iach ac egnïol, ond parhau i gyfrannu at gymdeithas a'r economi hefyd. Rhan o gyflawni hyn yw sicrhau bod tai newydd arbenigol yn cael eu datblygu, fe cartrefi clyfar[1], a gwneud defnydd gwell hefyd o'r stoc tai presennol drwy ei haddasu.

2 Pwrpas addasiadau yw newid amgylcheddau sy'n anablu er mwyn galluogi pobl i fyw'n annibynnol, gyda phreifatrwydd, hyder ac urddas, neu ddychwelyd i sefyllfa felly, er eu budd eu hunain a'u teuluoedd. Nid darparu cyfarpar neu addasu annedd yw ystyr addasu yn unig, ond darparu ffordd unigoledig o ddatrys problemau pobl sy'n profi amgylchedd sy'n anablu[2]. Gall addasiadau amrywio rhwng eitemau cymharol rad fel esgynfeydd a chanllawiau ac estyniadau graddfa fawr ac ynddynt gyfarpar arbenigol. Gall cartref addas sydd wedi'i addasu'n dda greu'r gwahaniaeth sy'n galluogi rhywun i fyw'n dda ac yn annibynnol. Mae addasiadau'n cynnig ffordd effeithlon ac effeithiol o wneud y defnydd gorau o adnoddau yn yr hinsawdd presennol o gyfyngiadau ariannol.

3 Cydnabyddir yn gynyddol fod addasiadau'n allweddol er mwyn sicrhau canlyniadau gwell i'r gwasanaethau iechyd, yn hytrach nag ystyried hynny'n rhan o'r gwasanaethau tai a gofal cymdeithasol yn unig. Wrth wynebu heriau'r dyfodol yn gysylltiedig â chymdeithas sy'n heneiddio'n gyflym, ac wrth ymdrin ag unrhyw fwlch posibl a allai godi o ran gofal, bydd addasiadau'n gwneud cyfraniad cynyddol bwysig i ategu gofal personol. Er mwyn cyflawni'r gwelliannau angenrheidiol, bydd angen i gyrff cyhoeddus weithio'n ddi-dor a darparu gwasanaethau cydgysylltiedig sy'n ymateb i anghenion, a darparu datrysiadau amserol a chost-effeithiol.

1 Mae Cartrefi Clyfar yn defnyddio technoleg rhwydweithio electronig i integreiddio gwahanol ddyfeisiau ac offer a ganfyddir yn y rhan fwyaf o gartrefi, yn ogystal â systemau amgylchedd adeiladu sydd yn fwy cyffredin mewn swyddfeydd, fel bo modd rheoli'r holl gartref o fan canolog neu o bell. Drwy'r dechnoleg hon, ceir addewid am welliannau sylweddol yn safonau byw pobl hŷn a phobl anabl a fyddai, heb gefnogaeth awtomataidd, yn ddibynnol ar ofal cartref.
2 Cyfeirir yn aml at yr ymagwedd hon fel ymagwedd sy'n adlewyrchu'r model cymdeithasol o anabledd.

4 Yn yr adolygiad hwn, canolbwyntiwyd ar asesu a oes gan gyrff cyhoeddus sy'n gyfrifol am ddarparu addasiadau tai yng Nghymru ymagwedd strategol effeithiol at addasiadau tai sy'n sicrhau gwerth am arian a llesiant parhaus pobl hŷn a phobl anabl. Disgrifir ein dulliau astudio yn Atodiad 1. Mae'r rhain yn cynnwys gwaith maes archwilio mewn pum awdurdod lleol a phedair cymdeithas dai; arolwg wedi'i gomisiynu o ddinasyddion sydd wedi derbyn addasiadau; dadansoddiad o ddata a gwariant ar wasanaethau cyfredol; adolygu gwefannau a dogfennau; a chyfweliadau ag ystod o sefydliadau cenedlaethol. Ar sail canfyddiadau'r adolygiad hwn, mae'r Archwilydd Cyffredinol wedi casglu bod bodlonrwydd defnyddwyr ag addasiadau tai yn cuddio system hynod gymhleth, adweithiol ac annheg nad yw'n darparu gwasanaeth i bawb y gallai fod arnynt ei angen, ac nad yw cyrff cyhoeddus yn achub ar gyfleoedd i wella gwerth am arian.

## Crynodeb o'n canfyddiadau

5 Mae tua 70 o sefydliadau'n darparu addasiadau yng Nghymru, a bob blwyddyn byddant gyda'i gilydd yn gwario oddeutu £60 miliwn ac yn cynorthwyo 32,000 o bobl. Mae'r trefniadau ar gyfer ariannu addasiadau yn gymhleth ac wedi helpu i greu system gyflenwi aneffeithlon. Un o ganlyniadau'r cymhlethdod hwn yw bod safon y gwasanaeth a ddarperir i bobl ag anghenion tebyg yn amrywio'n helaeth, a hynny'n syml oherwydd ble maent yn byw a pha gorff cyhoeddus sy'n darparu'r gwaith addasu.

6 Mae mwyafrif y cyrff cyhoeddus sy'n gyfrifol am addasiadau - awdurdodau lleol, cymdeithasau tai ac asiantaethau Gofal a Thrwsio ('sefydliadau cyflenwi') - wedi gweld cynnydd yn y galw am addasiadau yn y blynyddoedd diwethaf, ac yn disgwyl i'r duedd honno barhau. Yn ôl data'r cyfrifiad[3], mae cyfran uwch o boblogaeth Cymru yn ystyried bod ganddynt afiechyd nag yn Lloegr. Yn ôl amcanestyniadau Llywodraeth Cymru[4], rhagwelir y bydd nifer y bobl yng Nghymru sy'n profi problemau symudedd ac anawsterau wrth gyflawni tasgau beunyddiol yn y cartref yn cynyddu'n sylweddol dros yr 20 mlynedd nesaf.

3 Swyddfa Ystadegau Gwladol, **Iechyd Cyffredinol yng Nghymru a Lloegr: 2011 a chymhariaeth â 2001**, Ionawr 2013

4 TFe'i cymerwyd o Daffodil. System wedi'i seilio ar y we yw Daffodil. Fe'i datblygwyd gan y Sefydliad Gofal Cyhoeddus i Lywodraeth Cymru, ac mae'n cyfuno'r wybodaeth sydd ei hangen i gynllunio'r gofal, y gefnogaeth a'r gwasanaethau tai fydd eu hangen dros yr 20 mlynedd nesaf i blant, oedolion a phobl hŷn.

7 Gall cyflymder ac effeithlonrwydd darparu addasiadau olygu'r gwahaniaeth rhwng sefyllfa lle bydd pobl anabl neu bobl hŷn yn aros yng nghyfforddusrwydd a diogelwch eu cartrefi eu hunain a gorfod symud i dderbyn gofal arbenigol neu breswyl. Fodd bynnag, mae prosesau asesu'n ddyrys ac yn aneffeithlon ac yn aml yn cyfrannu at oedi. Yr hyn sy'n nodweddu profiadau nifer fach o ddefnyddwyr gwasanaeth yw diffyg cydgysylltu rhwng sefydliadau cyflenwi, bod problemau oherwydd diffyg staff neu gyllid yn tarfu ar y gwasanaeth, a chyfathrebu gwael.

8 Mae'r rhan fwyaf o gyrff cyhoeddus yn cydnabod bod addasiadau'n gallu lleihau'r risg o godymau a damweiniau eraill yn y cartref, atal derbyniadau i'r ysbyty a chyflymu'r broses o ryddhau cleifion. Fodd bynnag, bydd gweithwyr proffesiynol iechyd yn aml yn canfod ei bod hi'n anodd ymdrin â systemau'r gwahanol awdurdodau lleol a chymdeithasau tai ar gyfer gweinyddu, cymeradwyo a darparu addasiadau tai. Mae trefniadau cyflenwi cymhleth yn lleihau'r cyfleoedd i gyrff iechyd wneud defnydd gwell o addasiadau.

9 Gan fod nifer helaeth o lwybrau ar gael er mwyn cyrchu addasiadau, mae angen i sefydliadau cyflenwi sicrhau bod ganddynt systemau cadarn i ymdrin â cheisiadau yn gyflym ac effeithiol. Fodd bynnag, nid oes gan lawer o awdurdodau a chymdeithasau tai broesau ymgeisio sydd yn bodloni anghenion pobl mewn modd cyson ac effeithiol. Yn aml, ni fydd gwybodaeth hygyrch ar gael mewn amrywiaeth o ffurfweddau priodol, fel ffontiau mawr i ddefnyddwyr â nam ar y golwg, fersiynau sain i bobl ag anawsterau clyw.

10 Mae'n rhaid i sefydliadau cyflenwi daro cydbwysedd rhwng cwblhau gwaith adeiladu'n gyflym i fodloni anghenion a dymuniadau pobl anabl neu bobl hŷn, a sicrhau gwerth am arian o ran cost ac ansawdd. Mae'r rhan fwyaf o awdurdodau lleol, cymdeithasau tai ac asiantaethau Gofal a Thrwsio wedi sefydlu prosesau priodol i oruchwylio a rheoli perfformiad y rhai sy'n cyflawni gwaith adeiladu, a hynny'n bennaf drwy gynnal cyfarfodydd a deialog rheolaidd ynghylch grantiau unigol. Fodd bynnag, ychydig o sefydliadau cyflenwi sydd yn gweithio mewn modd strategol â chyflenwyr i symleiddio a gwella perfformiad, ac fe geir rhai diffygion yn gysylltiedig â'r trefniadau cyfredol ar gyfer rhoi gwaith i adeiladwyr ar gontract. Ar ben hynny, nid oes gan sefydliadau cyflenwi bob amser drefniadau effeithiol i fonitro, adolygu a gwerthuso perfformiad adeiladwyr a chontractwyr wrth gyflawni grantiau unigol.

11 Er bod cyrff cyhoeddus yn glir ynghylch rôl eu gwasanaethau addasu tai o ran newid amgylchedd y cartref er mwyn galluogi pobl i fyw'n annibynnol neu ddychwelyd i fyw'n annibynnol, ceir cyfleoedd i ymdrin yn well ag anghenion ac osgoi a lleihau costau a'r galw am y gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol. Ychydig o sefydliadau cyflenwi sydd yn meddu ar Bolisïau Adnewyddu Tai integredig a chynhwysfawr sydd yn cysylltu penderfyniadau ar fuddsoddi â defnydd gwell o dai sydd eisoes wedi'u haddasu. Bydd polisïau'n aml yn canolbwyntio ar eiddo yn hytrach na'r cleient, ac anaml y bydd hynny'n cael ei gysylltu'n strategol â sefydliadau eraill ac anghenion ehangach pobl anabl a phobl hŷn.

12 Nid yw sefydliadau cyflenwi bob amser yn edrych ar eu gwaith addasu o safbwynt 'yr holl adnoddau'[5], nac yn ystyried yr arian sydd ar gael gan holl sefydliadau cyflenwi'r ardal, a'r defnydd o'r arian hwnnw. Dim ond saith awdurdod lleol sydd yn cyfuno eu cronfeydd â Gofal a Thrwsio, ac ni cheir unrhyw sefyllfa lle cyfunir cronfeydd awdurdodau lleol a chymdeithasau tai. Mae nifer fach o awdurdodau lleol wedi datblygu ymagweddau integredig at addasiadau tai sydd yn cyfuno swyddogion grantiau, arolygwyr adeiladu a Therapyddion Galwedigaethol mewn un tîm. Fodd bynnag, mae gormod o sefydliadau'n gweithio mewn modd ynysig gan ganolbwyntio ar eu cyfrifoldebau unigol yn hytrach na chydweithio i ymdrin yn well ag anghenion tai ac iechyd pobl.

13 Serch hynny, cafodd oddeutu tri chwarter y rhai a ymatebodd i'n harolwg, ac a dderbyniodd addasiadau tai yn ddiweddar, brofiad cadarnhaol wrth dderbyn yr addasiadau hynny. Mae ychydig dros 90% yn fodlon â'r amser a gymerwyd i gyflawni eu haddasiadau, ac roedd y mwyafrif yn teimlo bod y gwaith a gwblhawyd ar eu cartref yn eu galluogi i gyflawni tasgau beunyddiol, gan gynyddu eu hyder a'u hannibyniaeth. At ei gilydd, roedd perchnogion preswyl yn fwy bodlon na'r rhai sy'n rhentu gan gymdeithasau tai, ond ychydig o ddewis neu ddylanwad a gâi'r rhan fwyaf o bobl anabl a phobl hŷn ar yr addasiadau ar eu cartref.

5 Wrth sôn am adnoddau cyfan, yr hyn a olygir yw'r adnoddau sydd ar gael i'r holl gyrff cyhoeddus sy'n darparu addasiadau mewn ardal awdurdod lleol benodol.

14 Bu atebolrwydd a thryloywder wrth gyflenwi addasiadau yn wael ers tro[6]. Er gwaethaf y gwahanol ffynonellau arian ar gyfer addasiadau tai, dim ond perfformiad yn gysylltiedig â Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl a adroddir yn gyhoeddus. Fodd bynnag, drwy adrodd ar berfformiad Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl yn unig, nid yw Llywodraeth Cymru ond ar hyn o bryd yn cyhoeddi data ar 55% o'r holl warant ar addasiadau ac 14% o'r bobl anabl a'r bobl hŷn hynny sy'n derbyn addasiadau. Mae Llywodraeth Cymru'n casglu data ar berfformiad gan gymdeithasau tai ac asiantaethau Gofal a Thrwsio, ond nid yw'n darparu'r wybodaeth honno i'r cyhoedd. Oherwydd gwendidau yn y trefniadau goruchwylio cyfredol, nid oes modd craffu'n effeithiol er mwyn deall effeithlonrwydd ac effaith y system addasu yn ei chyfanrwydd Mae hyn yn ei gwneud hi'n anodd barnu pa mor dda y mae sefydliadau'n perfformio a barnu ynghylch effaith gadarnhaol addasiadau ar fywydau pobl anabl a phobl hŷn.

15 Mae Llywodraeth Cymru'n ceisio llenwi rhai o'r bylchau hyn drwy gyflwyno systemau newydd i fonitro ac adrodd ar berfformiad wrth gyflenwi addasiadau tai (yr adolygiad 'Galluogi'). Er bod hyn yn datrys rhai o'r gwendidau sy'n bodoli ers tro yn y trefniadau cyfredol, mae bylchau eraill yn parhau o hyd. Ceir canolbwyntio gormodol o hyd ar fecanwaith cyflenwi addasiadau wrth fonitro, heb ganolbwyntio digon ar effaith, llesiant a'r budd ehangach yn gysylltiedig â buddsoddiad pob corff cyhoeddus. Er eu bod yn amlygu cydraddoldeb fel amcan polisi allweddol, gwelsom mai ychydig o sefydliadau cyflenwi sy'n casglu ac yn gwerthuso ystod ddigonol o ddata i ddangos a sicrhau mynediad teg at wasanaethau.

6 Er enghraifft, Llywodraeth Cymru, **Adolygiad o Addasiadau Tai gan gynnwys Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl - Cymru: Adroddiad gan Chris Jones i'r Gyfarwyddiaeth Tai**, Mawrth 2005; ac Ymchwil Gymdeithasol Llywodraeth Cymru (ar wefan Shelter Cymru), **Adolygiad o Addasiadau ar gyfer Byw'n Annibynnol**, Ionawr 2015.

## Argymhellion

16 Drwy ein gwaith nodwyd cyfres o argymhellion ar gyfer gwelliant, a ddangosir isod.

### Argymhellion ar gyfer gwella

| Argymhellion | |
|---|---|
| A1 | Ceir llawer o ffynonellau cyllid a pholisïau ar gyfer addasiadau, ac mae hynny'n golygu bod safon y gwasanaeth a dderbynnir gan bobl anabl a phobl hŷn yn amrywio'n helaeth (paragraffau 1.5 i 1.9). I fynd i'r afael â'r anghysondebau hyn, **rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru osod safonau ar gyfer pob addasiad er mwyn sicrhau bod pobl anabl a phobl hŷn yn derbyn gwasanaeth o'r un safon waeth pa le y maent yn byw, pwy yw eu landlord, a ph'un a ydynt yn berchen ar eu cartref eu hunain ai peidio.** |
| A2 | Mae'r rhan fwyaf o gyrff cyhoeddus yn glir ynghylch sut y gall eu gwaith ar addasiadau gael effaith gadarnhaol ar bobl anabl a phobl hŷn, ac maent wedi gosod nodau addas sy'n creu ffocws wrth weithredu. Mae sefydlu'r nodau strategol cywir ar gyfer addasiadau hefyd yn creu sail glir ar gyfer penderfynu pwy ddylai gael blaenoriaeth gan wasanaethau, a sut ac ymhle y dylid defnyddio adnoddau. Fodd bynnag, gwelsom fod amryw o ddiffygion yn y trefniadau polisi cyfredol, ac nad yw cyrff cyhoeddus yn sicrhau'r budd mwyaf wrth fuddsoddi (paragraffau 3.8 i 3.15).**Argymhellwn y dylai awdurdodau lleol weithio gydag asiantaethau partner (cyrff iechyd, cymdeithasau tai a Gofal a Thrwsio) i atgyfnerthu eu ffocws strategol wrth ddarparu addasiadau drwy:**<br>• **osod amcanion strategol priodol ar gyfer addasiadau sy'n canolbwyntio ar lesiant ac annibyniaeth;**<br>• **gwella ansawdd yr wybodaeth am y galw am addasiadau drwy defnyddio ystod eang o ddata i asesu angen, gan gynnwys ceisio a defnyddio gwybodaeth gan bartneriaid sy'n gweithio yn ardal yr awdurdod lleol; a**<br>• **chysylltu'r system ar gyfer rheoli a chyflenwi addasiadau â pholisïau a chofrestrau tai addasedig er mwyn gwneud y defnydd gorau o gartrefi a addaswyd eisoes.** |

| Argymhellion | |
|---|---|
| A3 | Mae'n bwysig sicrhau bod gan bawb y gallai fod angen gwaith addasu arnynt r holl wybodaeth angenrheidiol er mwyn gwneud cais am waith addasu a threfnu bod y gwaith hwnnw'n cael ei gwblhau. Gan hynny, mae'n hanfodol cael gwybodaeth hygyrch o ansawdd da er mwyn i sefydliadau cyflenwi arddangos mynediad teg a thryloywder. Fodd bynnag, cawsom hyd i wendidau yn ansawdd a darpariaeth gwybodaeth i'r cyhoedd ynghylch addasiadau tai (paragraffau 2.6 i 2.15). **Argymhellwn y dylai sefydliadau cyflenwi ddarparu gwybodaeth am addasiadau tai yn Gymraeg ac yn Saesneg, mewn ffurfweddau hygyrch gan gynnwys Braille, ffontiau mawr, fersiynau sain ac ieithoedd eraill. Dylid hyrwyddo gwybodaeth yn eang drwy ystod o gyfryngau, gan gynnwys y cyfryngau cymdeithasol, gwefannau a gwybodaeth gyhoeddedig, a hefyd drwy bartneriaid allweddol. Yn ddelfrydol, dylid cynhyrchu gwybodaeth ar y cyd ac alinio polisïau rhwng cyrff cyflenwi er mwyn ehangu eu cwmpas a chynyddu’r defnydd ohonynt.** |
| A4 | Gan fod nifer helaeth o lwybrau er mwyn cyrchu gwasanaethau, mae angen i sefydliadau cyflenwi sicrhau bod ganddynt systemau cadarn i ymdrin â cheisiadau yn gyflym ac effeithiol. Fodd bynnag, gwelsom fod y prosesau a ddefnyddir gan sefydliadau cyflenwi yn amrywio'n helaeth, a'u bod yn aml yn creu anawsterau i bobl anabl a phobl hŷn sydd yn ceisio cymorth (paragraffau 2.16 i 2.19). **Argymhellwn y dylai sefydliadau cyflenwi symleiddio'r broses ymgeisio drwy greu un ffurflen gais gynhwysfawr ar gyfer pob sefydliad o fewn ardal awdurdod lleol. Dylai'r ffurflen fod ar gael drwy bartneriaid ac ar-lein.** |

## Argymhellion

A5 Gall amrywiaeth o ffactorau achosi oedi wrth addasu (paragraffau 2.20 i 2.33). Er mwyn gwella prydlondeb wrth gyflenwi, argymhellwn y canlynol:

- **bod Llywodraeth Cymru'n cynnal adolygiad i weld a ddylai awdurdodau lleol barhau i ddefnyddio'r prawf modd ar gyfer Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl (DFGs);**
- **bod awdurdodau lleol yn darparu neu'n defnyddio gwasanaethau asiantaeth gwella cartrefi i gynorthwyo pobl anabl a phobl hŷn i fynd ar drywydd eu ceisiadau DFG yn effeithlon;**
- **bod sefydladau cyflenwi yn gweithio gydag awdurdodau cynllunio i gyflymu a symleiddio'r broses ar gyfer addasiadau y mae angen cymeradwyaeth ar eu cyfer;**
- **bod sefydliadau cyflenwi yn defnyddio Aseswyr yr Ymddiriedir Ynddynt i gynnal asesiadau ar gyfer gwaith addasu o natur symlach; a**
- **bod Llywodraeth Cymru'n symleiddio ei phrosesau cymeradwyo ar gyfer Grantiau Addasiadau Ffisegol (PAGs).**

## Argymhellion

A6 Mae'r rhan fwyaf o awdurdodau lleol, cymdeithasau tai ac asiantaethau Gofal a Thrwsio wedi sefydlu prosesau i benodi, goruchwylio a rheoli perfformiad adeiladwyr ac/neu gontractwyr. Fodd bynnag, gwelsom amrywiaeth eang yn y modd y mae sefydliadau cyflenwi'n trefnu gwaith adeiladu, yn ei roi ar gontract ac yn ei gwblhau (paragraffau 2.37 i 2.44). **Argymhellwn fod sefydliadau cyflenwi:**

- **yn cyflwyno systemau ffurfiol er mwyn achredu contractwyr i gyflawni gwaith addasu. Dylai'r rhain gynnwys:**
  - **safonau gofal cwsmeriaid fel cadw apwyntiadau, cadw'r safle'n daclus, rheoli sŵn ac ati;**
  - **archwilio sefyllfa ariannol, statws treth a TAW;**
  - **hyrwyddo arferion iechyd a diogelwch da;**
  - **gofyniad i ddefnyddio cynlluniau gwarant;**
  - **sicrhau y delir yswiriant digonol; a**
  - **gofyn am eirdaon.**
- **defnyddio cytundebau fframwaith a chontractau drwy bartneriaeth i gyflenwi addasiadau.**
- **mynd i'r afael â gwendidau wrth roi addasiadau ar gontract, diweddaru'r Rhestr Cyfraddau a ddefnyddir i roi gwaith allan ar dendr a chynnal ymarferion tendro cystadleuol er mwyn cefnogi gwerth am arian wrth roi gwaith allan ar gontract.**
- **datblygu systemau effeithiol i reoli a gwerthuso perfformiad contractau drwy:**
  - **bennu ystod briodol o wybodaeth er mwyn barnu ynghylch perfformiad a chyflawniad y gwaith, gan gynnwys prydlondeb y gwaith; ansawdd y gwaith; adborth ymgeiswyr/tenantiaid; cost y gwaith (gan gynnwys amrywiadau); record o ran iechyd a diogelwch; ac adborth cwsmeriaid;**
  - **gwerthuso ac adrodd ar berfformiad yn rheolaidd er mwyn canfod cyfleoedd i wella gwasanaethau; a**
  - **rhoi adborth ffurfiol i gontractwyr am eu perfformiad, gan drafod materion allweddol fel bodlonrwydd cleientiaid, lefel unrhyw amrywio a pha mor dderbyniol yw hynny, gwaith sy'n gywir y tro cyntaf, asesiad ôl-arolygol a chwblhau ar amser ac yn unol â'r gyllideb.**

| Argymhellion | |
|---|---|
| A7 | Er mwyn sicrhau cymaint â phosib o effaith a gwerth am arian wrth ddarparu addasiadau, mae angen i sefydliadau tai a gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol gydweithio'n effeithiol i sicrhau bod modd bodloni anghenion pobl sydd yn aml yn fregus iawn, a gwella eu hansawdd byw. Fodd bynnag, yn ôl ein canfyddiadau mae'r diffyg ffocws strategol ar addasiadau mewn sefydliadau cyflenwi yn parhau, gyda'r sefydliadau hynny'n canolbwyntio ar ymatebion penodol o fewn y sefydliad, yn hytrach nag ystyried sut i gydweithio ag eraill i fodloni anghenion pobl anabl neu bobl hŷn orau (paragraffau 3.16 i 3.21). **Argymhellwn y dylai awdurdod lleol gydweithio ag asiantaethau partner (cyrff iechyd, cymdeithasau tai a Gofal a Thrwsio) i ddatblygu a gwella'r trefniadau ar gyfer cydweithio. Y nod fydd cynyddu hyd yr eithaf y defnydd a'r budd yn gysylltiedig ag addasiadau o ran cefnogi annibyniaeth drwy gyfuno adnoddau, cydleoli staff a chreu timau cyflenwi integredig.** |
| A8 | Mae'r rhan fwyaf o gyrff cyhoeddus yn cydnabod gwerth addasiadau o ran lleihau'r risg o godymau, atal derbyniadau i'r ysbyty a chyflymu'r broses o ryddhau cleifion o'r ysbyty. Fodd bynnag, ni fydd trefniadau partneriaeth lleol bob amser yn adlewyrchu pwysigrwydd addasiadau, ac ar wahân i Therapyddion Galwedigaethol, nododd gweithwyr iechyd proffesiynol ei bod hi'n anodd ymdrin â'r gwahanol systemau'r awdurdod lleol a'r cymdeithasau tai ar gyfer gweinyddu, cymeradwyo a chwblhau addasiadau (paragraffau 3.22 i 3.24). **Er mwyn gwella'r defnydd a'r nifer sy'n manteisio ar addasiadau gyda chyrff iechyd, argymhellwn y dylai sefydliadau cyflenwi gytuno ar y cyd ar gyd-safonau gwasanaeth ar gyfer cyflenwi addasiadau ym mhob ardal awdurdod lleol, a chyhoeddi'r cyd-safonau hynny. Dylid nodi'n glir yn y safonau gwasanaeth sut y bydd pob asiantaeth yn mynd ati i gyflenwi addasiadau, ac yn darparu gwasanaethau i sicrhau bod pobl yn gwybod yr hyn y mae ganddynt hawl i'w dderbyn. Dylai Safonau Gwasanaeth:**<br>• **fod mewn iaith hygyrch sy'n hawdd ei deall;**<br>• **bod yn fanwl gywir ynghylch yr hyn y gall pobl/na all pobl ddisgwyl ei dderbyn;**<br>• **cael eu llunio ar y cyd i gynnwys yr holl wasanaethau addasu o fewn ardal;**<br>• **nodi cymhwysedd ar gyfer y gwahanol ffrydiau ariannu, y prosesau ymgeisio ac asesu, graddfeydd amser a phrosesau adolygu; a**<br>• **chynnig yr opsiynau posib a'r dewisiadau eraill yn lle addasu, gan gynnwys cysylltu â chofrestrau tai addasedig i wneud y defnydd gorau posib o gartrefi sydd eisoes wedi'u haddasu.** |

## Argymhellion

A9 Mae'n bwysig cael y dangosyddion perfformiad cywir ac adrodd yn rheolaidd ar berfformiad yn erbyn y dangosyddion hynny er mwyn i gyrff cyhoeddus reoli perfformiad gweithredol, canfod meysydd i'w gwella a gwerthuso effaith gadarnhaol gwasanaethau Gwelsom fod ystod gyfredol y data o ddangosyddion perfformiad yn gyfyngedig iawn, ac nad ydynt yn ddigonol i'w gwneud hi'n bosib i gynnal gwerthusiad llawn o berfformiad (paragraffau 4.5 i 4.20). **Er mwyn rheoli perfformiad yn effeithiol a barnu ynghylch effaith addasiadau, argymhellwn y dylai Llywodraeth Cymru a sefydliadau cyflenwi:**

- **sefydlu mesuriadau priodol er mwyn barnu ynghylch effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd y gwahanol systemau ar gyfer cyflenwi addasiadau a'r effaith ar lesiant ac annibyniaeth y rhai sy'n derbyn addasiadau;**
- **sicrhau bod sefydliadau cyflenwi yn adrodd yn erbyn eu cyfrifoldebau o ran Deddf Cydraddoldeb 2010;**
- **sicrhau bod gwybodaeth am berfformiad yn cynnwys gwaith yr holl sefydliadau cyflenwi - awdurdodau lleol, cymdeithasau tai ac asiantaethau Gofal a Thrwsio; a**
- **chyhoeddi perfformiad yr holl sefydliadau cyflenwi yn flynyddol fel bo modd cael golwg systemau cyfan ar ddarpariaeth ac effaith er mwyn cefnogi gwelliannau sydd i'w cyflawni.**

# Rhan 1

Mae'r system gyfredol ar gyfer cyflenwi addasiadau yn creu mwy o anghydraddoldeb i rai pobl anabl a phobl hŷn, ac mae'r gwahanol ffynonellau cyllid yn cymhlethu'r broses o ymateb i anghenion



1.1 Gall pobl y mae angen addasu eu tŷ gyrchu'r cyllid ar gyfer y gwaith addasu hwnnw ar sail eu deiliadaeth. Dyma'r prif sefydliadau sy'n cyflenwi addasiadau tai yng Nghymru:

- 22 o awdurdodau lleol;
- 22 o gymdeithasau tai traddodiadol;
- 11 o gymdeithasau tai Trosglwyddo Gwirfoddol ar Raddfa Fawr (LSVT); ac
- 13 o Asiantaethau Gofal a Thrwsio.

(Mae Atodiad 2 yn cynnwys diffiniadau o gymdeithasau tai, cymdeithasau LSVT ac asiantaethau Gofal a Thrwsio a'u cwmpas yng Nghymru).

1.2 Mae gwahanol sefydliadau cyflawni yn gyfrifol am ddarparu addasiadau, ac mae'r rhaglenni ariannu a ddefnyddir hefyd yn amrywio'n helaeth. Yn y rhan hon o'r adroddiad, ystyrir cymhlethdod y trefniadau ariannu cyfredol, lefelau'r gwariant a nifer y bobl sydd wedi derbyn cymorth, gan amlygu annhegwch sylweddol yn y modd y darperir addasiadau, ac y telir amdanynt.

## Mae dewisiadau polisi lleol a chenedlaethol wedi creu system orgymhleth sy'n atgyfnerthu annhegwch wrth ddarparu addasiadau, yn hytrach nag ymdrin â'r annhegwch hwnnw

1.3 Bydd sefydliadau cyflenwi yn defnyddio cyfanswm o bum ffrwd ariannu wahanol, yn ogystal ag arian a fuddsoddir gan unigolion y mae angen gwaith addasu arnynt. Dyma'r gwahanol ffrydiau ariannu (Ceir crynodeb o brif elfennau polisi pob un o'r ffrydiau ariannu hyn yn Atodiad 3):

- Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl (DFG) ar gyfer perchnogion preswyl, tenantiaid/landlordiaid rhent preifat a rhai tenantiaid tai cymdeithasol
- Grantiau Addasiadau Ffisegol (PAGs) i denantiaid cymdeithasau tai traddodiadol a chymunedol
- Rhaglen Addasiadau Brys i berchnogion preswyl a thenantiaid/landlordiaid rhent preifat
- Addasiadau ar gyfer tenantiaid awdurdod lleol a chymdeithasau tai LSVT a ariennir o'u rhaglenni cynnal a chadw
- Addasiadau ar gyfer rhai tenantiaid cymdeithasau tai a ariennir gan eu landlord o'u rhaglen cynnal a chadw i ategu PAGs

1.4 Yn Nangosyn 1 isod, rydym wedi dangos pwy sy'n gymwys i dderbyn cyllid o dan bob un o'r gwahanol gynlluniau ariannu a chwmpas cyfredol y cynlluniau hynny ledled Cymru.

## Dangosyn 1: darpariaeth gyfredol addasiadau yn ôl y math o gyllid, daliadaeth a landlord yng Nghymru yn 2015-16 a 2016-17

| Daliadaeth | Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl | Y Cyfrif Refeniw Tai yn ariannu addasiadau i dai awdurdod lleol | Grantiau Addasiadau Ffisegol | Rhaglen Addasiadau Brys | Y landlord yn defnyddio ei adnoddau ei hun |
|---|---|---|---|---|---|
| Perchennog preswyl | 🟢 (darperir gan bob un o'r 22 o awdurdodau) | 🔴 | 🔴 | 🟢 (darperir ym mhob un o'r 22 o awdurdodau) | 🔴 |
| Tenant awdurdod lleol | 🟢 (darperir mewn 2 o 11 ardal awdurdod lleol) | 🟢 (darperir gan bob un o'r 11 awdurdod lleol) | 🔴 | 🔴 | 🔴 |
| Tenant cymdeithas dai LSVT | 🟢 darperir yn 6 o'r 11 awdurdod lleol | 🔴 | 🔴 | 🔴 | 🟢 (darperir gan bob un o'r 11 o gymdeithasau LSVT) |
| Tenant cymdeithas dai draddodiadol | 🔴 | 🔴 | 🟢 (darperir gan bob un o'r 22 o gymdeithasau tai) | 🔴 | 🟢 (darperir yn 10 o'r 22 o gymdeithasau tai) |
| Tenant landlord rhent preifat | 🟢 darperir yn 20 o'r 22 o ardaloedd awdurdod lleol | 🔴 | 🔴 | 🟢 (darperir ym mhob un o'r 22 o awdurdodau) | — Heb gasglu |

Ffynhonnell: Arolwg Swyddfa Archwilio Cymru o awdurdodau lleol, cymdeithasau tai ac asiantaethau Gofal a Thrwsio.

7 Mae'n ofynnol i awdurdodau lleol gofnodi'r holl incwm a'r gwariant yn gysylltiedig â darpariaeth tai yr awdurdod lleol ei hun yn y Cyfrif Refeniw Tai.

1.5 Mae natur gymhleth y gyfundrefn ariannu gyfredol, lle mae'r grantiau, y ffynonellau ariannu a'r rhai sy'n derbyn yr addasiadau yn amrywio, yn adlewyrchiad rhannol o'r penderfyniadau a wneir ynghylch sut y bydd cyrff cyhoeddus yn bodloni ac yn ymdrin ag anghenion pobl anabl neu bobl hŷn, a'r farn ynghylch sut y dylai hynny ddigwydd. Penderfyniadau polisi yw'r rhain a nodir mewn deddfwriaeth, o ran pwy sy'n gymwys i dderbyn cyllid ar gyfer DFGs, polisi Llywodraeth Cymru ynghylch PAGs a'r Rhaglen Addasiadau Brys, a hefyd y sefydliadau cyflenwi sy'n gyfrifol am gyflenwi addasiadau lle ceir elfen o ddisgresiwn lleol. Mewn adolygiadau blaenorol o addasiadau tai,[8] gwelwyd mai anabl y mae Llywodraeth Cymru wedi rhoi arweiniad i awdurdodau lleol ar hynny, ers Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio 2002. Mae'r diffyg arweiniad hwnnw wedi achosi amrywio amlwg yn y penderfyniadau a wneir a'r gwasanaethau a ddarperir yn lleol. Canlyniad hyn yw amrywiaeth eang o systemau, polisïau ac ymagweddau yng Nghymru sy'n golygu bod pobl anabl a phobl hŷn yn deryn gwasanaethau gwahanol iawn i'w gilydd yn dibynnu ar leoliad eu cartref, pwy sy'n cyflawni'r gwaith addasu, ac a ydynt yn rhentu neu'n berchen ar eu cartref.

1.6 Gwelsom fod 18 o'r 22 o awdurdodau wedi diwygio eu systemau cyflenwi a'u polisïau DFG i adlewyrchu'r hyblygrwydd a gafwyd yn sgil Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio 2002. Er enghraifft, gwelsom drwy ein gwaith maes fod awdurdodau lleol wedi defnyddio Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio 2002 i osod prosesau ar gyfer addasiadau ac iddynt werth llai na £5,000 ar lwybr cyflym, lle na chynhelir prawf modd. Er enghraifft, mae Cyngor Sir Powys yn gweithredu cynlluniau addasu gwerth is a llai cymhleth mewn partneriaeth ag asiantaethau Gofal a Thrwsio er mwyn cyflymu a symleiddio'r broses o gyflawni mân waith addasu. Yn ogystal â hyn, mae chwech o'r 11 o awdurdodau lleol sydd wedi trosglwyddo eu stoc tai cymdeithasol i gymdeithas dai, a dau o'r 11 o awdurdodau lleol sydd wedi cadw eu stoc tai cymdeithasol, yn caniatáu ceisiadau am gyllid DFG gan y landlordiaid tai cymdeithasol hyn. Yn rhan o'r ceisiadau hynny, bydd yn ofynnol i'r landlord LSVT ac awdurdod lleol gydymffurfio â safonau Polisi Adnewyddu Tai yr awdurdod lleol. Mae ugain o'r 22 o awdurdodau lleol hefyd yn ariannu addasiadau DFG ar eiddo rhent preifat.

8 Er enghraifft, Llywodraeth Cymru, **Adolygiad o Addasiadau Tai gan gynnwys Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl - Cymru: Adroddiad gan Chris Jones i'r Gyfarwyddiaeth Tai**, Mawrth 2005; ac Ymchwil Gymdeithasol Llywodraeth Cymru (ar wefan Shelter Cymru), **Adolygiad o Addasiadau ar gyfer Byw'n Annibynnol,** Ionawr 2015.

1.7 Ar ben hynny, mae ymdriniaeth nifer o awdurdodau lleol â gwaith addasu yn amrywio'n helaeth yn dibynnu a yw'r sawl sy'n derbyn y gwaith yn denant awdurdod lleol neu'n berchennog preswyl. Er enghraifft, gwelsom fod y systemau ar gyfer ymgysylltu ag adeiladwyr, manylion gwaith, goruchwylio perfformiad contractwyr a chyflymder cyflawni'r gwaith yn wahanol wrth gymharu tenantiaid tai awdurdod lleol a pherchnogion preswyl sy'n derbyn DFGs, er bod swyddogion yn gweithio o fewn yr un timau (gweler Rhan 3 isod am fwy o fanylion). Gan nad oes gan sefydliadau safonau gwasanaeth mesuradwy ar gyfer addasiadau, bydd ansawdd y gwasanaeth a dderbynnir gan bobl anabl a phobl hŷn ag anghenion tebyg yn amrywio'n helaeth.

1.8 Nododd Therapyddion Galwedigaethol a ymatebodd i'n harolwg fod addasiadau a gyflawnir gan gymdeithasau tai lle trosglwyddwyd stoc yn cynnwys gwendidau neilltuol. Nodwyd anghysondebau a bylchau yn ystod, manylder ac ansawdd yr wybodaeth a'r cyngor, yn enwedig o ran hawl a newidiadau i'r meini prawf cymhwystra. Yn benodol, mae nifer fach o gymdeithasau trosglwyddo stoc yn annog pobl anabl neu bobl hŷn y mae angen addasu eu tŷ i symud i eiddo addasedig (mae'n bosib na fydd y rhain ar gael ar unwaith ym mhob achos), neu aros yn eu cartref presennol ac aros ne bo eiddo sydd wedi'i addasu'n briodol ar gael.

1.9 Oherwydd cyfluniad cyfredol y ddarpariaeth a'r cymhwystra i dderbyn addasiadau tai, bydd mynediad pobl at addasiadau'n ddibynnol ar eu statws fel tenant ac ar yr ardal awdurdod lleol y maent yn byw ynddi, yn hytrach nag ar angen. Mae gwaith awdurdodau lleol o ran cyflenwi DFGs yn seiliedig ar ddeddfwriaeth a bod darpariaeth PAGs yn seiliedig ar ganllawiau Llywodraeth Cymru i gymdeithasau tai ynghylch cyflenwi PAGs. Fodd bynnag, gellir cyflawni gwaith addasu ar stoc tai'r awdurdod lleol ei hun y tu allan i'r ddeddfwriaeth honno, ac nid yw'r canllawiau ar PAGs yn berthnasol i'r 11 o gymdeithasau tai LSVT. Mae hynny'n creu mwy o ddryswch eto. Bydd pob un o'r landlordiaid awdurdod lleol ac LSVT yn penderfynu ar y gwaith addasu a gyflawnir ar eu tai rhent, a'r modd y byddant yn cyflenwi addasiadau i'w tenantiaid, ond gallant hefyd wneud cais am DFGs. Prif ganlyniad y penderfyniadau hyn o ran polisi yw bod pobl ag anghenion tebyg yn derbyn ymateb gwahanol.

## Cyflenwir addasiadau gan nifer fawr o sefydliadau sydd yn cynorthwyo tua 32,000 o bobl bob blwyddyn, ond mae'r gwariant ar addasiadau mewn termau real yn sefydlog, ac mae'r gwahanol ffynonellau cyllid yn cymhlethu'r ddarpariaeth

1.10 Daw cyllid ar gyfer addasiadau tai o sawl ffynhonnell wahanol, gan gynnwys Llywodraeth Cymru, adnoddau landlordiaid eu hunan a rhaglenni cyfalaf awdurdod lleol. Yn Nangosyn 2 ar y dudalen nesaf, gwelid bod swm y cyllid a fuddsoddir mewn addasiadau wedi codi ryw fymryn mewn termau real, o £58.7 miliwn yn 2013-14 i £60.3 miliwn yn 2015-16, mae'r gwariant wedi aros yn ei unfan. Yn ogystal â hynny, mae rhai cyrff iechyd yn ariannu gwaith addasu. Yn 2016-17, darparodd Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro £1,255,196 tuag at gost gwaith addasu a gyflawnwyd gan awdurdodau lleol yn ei ardal. Yn ogystal â hynny, darparodd Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg a Bwrdd Iechyd Cwm Taf arian i asiantaethau Gofal a Thrwsio; £249,679 yn y naill achos a £36,571 yn yr achos arall. Ar wahân i'r cyllid hwn, nid yw yr un corff iechyd arall yn darparu adnoddau i gefnogi gwaith addasu yn ei gymuned.

1.11 O fewn yr holl sefydliadau cyflenwi sy'n darparu cyllid ar gyfer gwaith addasu gwelwyd cynnydd yn nifer y bobl sy'n derbyn addasiadau dros y tair blynedd diwethaf, gyda chynnydd o 11.7% yn nifer y bobl sy'n derbyn cymorth, o 28,594 yn 2013-14 i 31,941 yn 2015-16. Mae'r rhan fwyaf o bobl a gynorthwyir yn derbyn mân addasiadau a ddarperir gan asiantaethau Gofal a Thrwsio yn hytrach na gwaith adnewyddu graddfa fwy ar eu cartref. Y rhaglen Addasiadau Brys a gyflenwir gan asiantaethau Gofal a Thrwsio sydd i gyfrif am tua 50% o'r holl waith a gyflawnir mewn unrhyw flwyddyn. Dengys ein hymchwil fod nifer fawr o sefydliadau cyflenwi yn gyfrifol am ariannu addasiadau tai, a bod 68 o wahanol gyrff yn darparu addasiadau drwy ddefnyddio pump o wahanol ffynonellau cyllid. Ceir amrywio sylweddol rhwng y gwahanol ffynonellau cyllid. Mae cyllid awdurdodau lleol ar gyfer DFGs wedi aros yn ei unfan; mae cyllid cymdeithasau tai traddodiadol a gwariant awdurdodau lleol ar eu stoc ta eu hunain wedi cynyddu; Mae cyllid cymdeithasau LSVT ac asiantaethau Gofal a Thrwsio wedi gostwng.

9 Gwybodaeth a gesglir yn rhan o adolygiad Swyddfa Archwilio Cymru o'r trefniadau ar gyfer cynllunio i ryddhau cleifion.

## Dangosyn 2: gwariant arian parod a gwariant termau real ar addasiadau, y sail ar gyfer cyllid sefydliadau cyflenwi a nifer yr aelwydydd a gafodd gymorth gan sefydliadau cyflenwi rhwng 2013-14 a 2015-16

Gwelir o'r dangosyn fod ariannu addasiadau'n gymhleth, a bod llawer iawn o sefydliadau, sydd i raddau helaeth yn gweithredu'n gwbl annibynnol y naill ar y llall, yn gyfrifol am gyflawni gwaith. Mae'r swm sy'n cael ei wario mewn termau real wedi aros yn ei unfan, ac mae cyrff cyflenwi'n cynorthwyo mwy o bobl.

| Ffynhonnell y cyllid | | 2013-14 | 2014-15 | 2015-16 | Newid canrannol dros dair blynedd |
|---|---|---|---|---|---|
| **Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl a gymerwyd o gyllideb cyfalaf yr awdurdod lleol** | Y swm a wariwyd mewn arian parod | £32,700,271 | £32,726,068 | £33,502,054 | 2.4% |
| | Y swm a wariwyd mewn termau real | £33,408,191 | £32,950,461 | £33,502,054 | 0.3% |
| | Niferoedd a gynorthwywyd | 4,393 | 4,306 | 4,454 | 1.4% |
| **Cyllid Cyfrif Refeniw Tai yr awdurdod lleol ar gyfer addasiadau i dai awdurdod lleol** | Y swm a wariwyd mewn arian parod | £9,728,758 | £9,357,702 | £10,224,936 | 5.1% |
| | Y swm a wariwyd mewn termau real | £10,137,819 | £9,609,963 | £10,224,936 | 0.8% |
| | Niferoedd a gynorthwywyd | 3,847 | 3,702 | 4,138 | 7.5% |
| **Grantiau Addasiadau Ffisegol i Gymdeithasau Tai Traddodiadol, wedi'u darparu gan Lywodraeth Cymru** | Y swm a wariwyd mewn arian parod | £6,259,088 | £7,176,503 | £7,900,051 | 26.2% |
| | Y swm a wariwyd mewn termau real | £6,394,589 | £7,225,710 | £7,900,051 | 23.5% |
| | Niferoedd a gynorthwywyd | 1,422 | 1,407 | 1,686 | 18.5% |

| Ffynhonnell y cyllid | | 2013-14 | 2014-15 | 2015-16 | Newid canrannol dros dair blynedd |
|---|---|---|---|---|---|
| **Ariannu gwaith addasu drwy ddefnyddio adnoddau'r cymdeithasau tai traddodiadol eu hunain** | Y swm a wariwyd mewn arian parod | £129,726 | £179,735 | £224,482 | 73% |
| | Y swm a wariwyd mewn termau real | £130,616 | £180,968 | £224,482 | 71.8% |
| | Niferoedd a gynorthwywyd | 541 | 608 | 586 | 8.4% |
| **Cymdeithasau tai Trosglwyddo Gwirfoddol ar Raddfa Fawr - defnyddio eu hadnoddau eu hunain i ariannu addasiadau** | Y swm a wariwyd mewn arian parod | £7,809,577 | £6,890,873 | £6,460,578 | -17.2% |
| | Y swm a wariwyd mewn termau real | £7,978,644 | £6,938,121 | £6,460,578 | -19% |
| | Niferoedd a gynorthwywyd | 4,386 | 4,396 | 4,656 | 6.1% |
| **Y Rhaglen Addasiadau Brys a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru** | Y swm a wariwyd mewn arian parod | £2,074,312 | £2,023,800 | £2,036,727 | -1.8% |
| | Y swm a wariwyd mewn termau real | £2,119,218 | £2,037,676 | £2,036,727 | -3.9% |
| | Niferoedd a gynorthwywyd | 14,005 | 17,739 | 16,421 | 17.2% |
| **Cyfanswm** | Y swm a wariwyd mewn arian parod | **£58,701,732** | **£58,354,681** | **£60,348,828** | **2.8%** |
| | Y swm a wariwyd mewn termau real | **£60,169,077** | **£58,942,899** | **£60,348,828** | **0.3%** |
| | Niferoedd a gynorthwywyd | **28,594** | **32,158** | **31,941** | **11.7%** |

Ffynhonnell: Dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru o ddata Alldro Refeniw'r Cynghorau; data a gyflwynwyd gan gymdeithasau tai i Lywodraeth Cymru; Data ar wariant asiantaethau Gofal a Thrwsio oddi wrth Lywodraeth Cymru; ac atebion sefydliadau unigol yn rhan o arolwg gan Swyddfa Archwilio Cymru. Mae'r data ar gymdeithasau tai yn cynnwys ffurflenni gan 10 o'r 11 o gymdeithasau tai Trosglwyddo Gwirfoddol ar Raddfa Fawr. Dim ond 10 o'r 22 o gymdeithasau tai traddodiadol sy'n derbyn Grantiau Addasiadau Ffisegol a ddarparodd ddata ar y swm yr oeddent hwy yn ei fuddsoddi o'u harian eu hunain mewn gwaith addasu.

1.12 Deddfwriaeth ac/neu bolisïau Llywodraeth Cymru sy'n rheoli rhai o'r ffrydiau ariannu, ond y landlordiaid eu hunain sy'n cael penderfynu sut i wario arian a fuddsoddi gan rai sefydliadau cyflenwi - cymdeithasau tai LSVT a gwasanaethau landlord tai cymdeithasol awdurdod lleol. Yn 2015-16, buddsoddodd cymdeithasau LSVT a landlordiaid ta awdurdod lleol tua £16 miliwn o'u hadnoddau eu hunain, sef 27% o'r holl gyllid a wariwyd ar addasiadau yng Nghymru y flwyddyn honno. Nid yw Llywodraeth Cymru'n goruchwylio nac yn cymeradwyo'r adnoddau hyn, ac nid oes rhaid iddynt ychwaith gydymffurfio â gofynion PAGs na'r fframwaith statudol sy'n rheoli DFGs.

1.13 Canlyniad y system ariannu ddyrys hon yw bod pobl anabl a phobl hŷn yn derbyn gwasanaethau gwahanol oherwydd ble maent yn byw, a phwy yw eu landlord/pa awdurdod lleol sy'n rheoli eu hachos, yn hytrach na beth yw eu hanghenion. Rydym yn cydnabod bod dewis lleol yn bwysig, a dylai polisïau sefydliadau cyflenwi adlewyrchu anghenion ehangach y gymuned y maent yn gweithredu ynddi, a'r bobl sy'n derbyn eu gwasanaethau. Fodd bynnag, gan fod y cyllid yn amrywio'n helaeth nid yw'n anghyffredin i bobl ag anghenion tebyg dderbyn gwasanaeth o safon cwbl wahanol a hynny'n syml oherwydd y polisi a ddewiswyd gan yr asiantaeth y maent yn gorfod ymdrin â hi.


## Rhan 2

Mae'r addasiadau a ddarperir i bobl ag anghenion tebyg yn anghyfartal oherwydd anghysondebau yn y modd y bydd sefydliadau cyflenwi yn darparu gwasanaethau



2.1 Er mwyn cyflawni addasiadau daw partneriaeth eang o gyrff cyhoeddus ynghyd, gan gynnwys adrannau tai a gwasanaethau cymdeithasol awdurdod lleol; cyrff iechyd; Gofal a Thrwsio; Llywodraeth Cymru; a chymdeithasau tai. Dylai polisïau a gweithdrefnau ar gyfer ymdrin â cheisiadau addasu fod yn ddigon hyblyg i annog pobl i ddefnyddio gwasanaethau ac i sicrhau bod mwy o bobl sydd angen cymorth yn gallu cyrchu/ymgeisio am wasanaethau. Pan fydd pobl yn gwneud cais i addasu tŷ, ceir sawl cam i'r broses ymgeisio. Mae Dangosyn 3 yn pennu'r prif gamau ar gyfer addasiadau a nodwyd yn ein hadolygiad.

Dangosyn 3: prif gamau'r broses addasiadau




Ffynhonnell: Cyfweliadau Swyddfa Archwilio Cymru ac adolygiad o ddogfennau a pholisïau sefydliadau cyflenwi.

2.2 Fodd bynnag, gall trefniadau cyflenwi amrywio'n helaeth yn dibynnu a yw'r bobl anabl neu'r bobl hŷn yn byw yng Nghymru; ac a ydynt yn berchen ar eu cartref eu hunain neu'n ei rentu oddi wrth landlord preifat, cymdeithas dai neu awdurdod lleol. Yn ogystal â'r amryw o wahanol ffynonellau cyllid, gall y system asesu a chymeradwyo gymhleth hefyd olygu ei bod hi'n cymryd mwy o amser i gyflawni gwaith addasu. O gofio natur gymhleth y system addasu, mae'n bwysig i gyrff cyhoeddus geisio symleiddio'r ddarpariaeth lle bo modd er mwyn:

- osgoi sefyllfa lle bydd cyflwr yr unigolyn anabl neu hŷn yn dirywio;
- lleihau'r risg o ddamwain neu godwm;
- lleihau'r straen ar ofalwyr;
- lleihau'r risg o aildderbyn i'r ysbyty yn dilyn trefniadau rhyddhau anfoddhaol; ac/neu
- leihau'r achosion oedi cyn rhyddhau cleifion hyd yr eithaf.

2.3 Yn yr adran hon o'r adroddiad, ystyriwn sut mae sefydliadau cyflenwi'n darparu'r prif gamau addasu - hyrwyddo, gwybodaeth, ymgeisio, asesu. cymeradwyo a gwaith adeiladu - gan ddangos pa mor gymhleth yw'r trefniadau cyfredol. Amlygir y modd y mae dewisiadau o ran polisi, y bwriadwyd iddynt greu Cymru sy'n fwy cyfartal, wedi creu system a all atgyfnerthu'r anghydraddoldeb a brofir gan bobl anabl a phobl hŷn.

## Ni chaiff addasiadau eu hyrwyddo'n effeithiol bob tro i bawb a fyddai'n elwa arnynt

2.4 Gan fod y gwasanaeth yn rhoi cymorth i rai o'r bobl fwyaf bregus mewn cymdeithas, mae'n hanfodol ei hyrwyddo'n effeithiol i sicrhau bod pawb a allai elwa arno yn gwybod am ei fodolaeth, y cyfleoedd y mae'n eu cynnig, sut y gallant ei ddefnyddio a pharhau i fyw'n annibynnol yn y pen draw. Mae angen i'r wybodaeth ynghylch sut i gyrchu'r gwasanaeth fod ar gael yn rhwydd ac yn y mannau cywir. Mae angen i'r wybodaeth honno hefyd fod yn hawdd ei ddeall. Mae barn y bobl a dderbyniodd addasiadau tai yn ystod 2015-16 yn amlygu'r angen i sefydliadau cyflenwi ystyried anghenion pobl a allai elwa ar y gwasanaeth er mwyn sicrhau bod gwybodaeth mewn deunyddiau hyrwyddo a phrosesau ymgeisio wedi'u dylunio i fodloni'r anghenion hynny.

## Nid yw'r wybodaeth a ddarperir gan sefydliadau cyflenwi bob amser yn hygyrch nac yn hawdd ei deall, ac fe'i cyflwynir ar amrywiaeth o ffurfiau

2.5 Bydd pobl anabl a phobl hŷn yn aml yn ei chael hi'n anodd cyrchu addasiadau, a hynny'n bennaf oherwydd natur gymhleth y system yn ei chyfanrwydd a'r llwybrau amrywiol ar gyfer cyrchu gwasanaethau. Er bod rhai enghreifftiau o ymagweddau ataliol a chynlluniedig yn bodoli, mae'r rheiny'n brin. Ychydig iawn o awdurdodau a chymdeithasau tai sydd wedi achub ar y cyfle i leihau'r pwysau ar amser swyddogion drwy gyhoeddi gwybodaeth effeithiol a hygyrch ar-lein. Nid ydynt felly'n' gwneud y defnydd mwyaf effeithlon o'u hadnoddau.

2.6 Dylai awdurdodau lleol, cyrff iechyd, cymdeithasau tai, asiantaethau Gofal a Thrwsio a phartneriaid eraill perthnasol ddarparu gwybodaeth ategol am addasiadau i hysbysu defnyddwyr gwasanaeth, eu heiriolwyr, y cyhoedd yn ehangach, proffesiynau eraill ac asiantaethau ynghylch y gwasanaethau sydd ar gael. Dylai'r wybodaeth fod mewn Cymraeg a Saesneg clir, mewn fformatau sy'n hygyrch i rai â namau ar y synhwyrau, ac mewn ieithoedd ychwanegol sy'n gweddu i'r holl gymunedau yn yr ardal leol. Mewn ymateb i fregusrwydd ac/neu anghenion mynediad ymgeiswyr, dylai sefydliadau cyflenwi sicrhau bod yr wybodaeth yn cael ei chyflwyno fel ei bod mor hawdd ag sy'n bosib i'w defnyddiwr ei deall. Mae hyn yn golygu y dylai sefydliadau cyflenwi ddarparu:


- gwybodaeth allweddol am addasiadau a sut i gael yr wybodaeth honno mewn amrywiaeth o fformatau, gan gynnwys ar-lein, ar bapur ac mewn fersiynau hygyrch (ffont mawr, sain ac amrywiaeth o ieithoedd perthnasol);
- gwybodaeth i sefydliadau eraill a allai ddod i gysylltiad â phobl y mae angen addasu eu tŷ;
- gwybodaeth i weithwyr proffesiynol sy'n gweithio gyda phobl y gallai fod angen addasu eu tŷ;
- cymorth gyda phrosesau ymgeisio;
- asesu angen ac addasrwydd adeiladau ar yr un pryd, lle bo modd, er mwyn lleihau achosion o oedi i'r broses; ac
- amseroedd allweddol y gwahanol gamau er mwyn rhoi syniad i'r ymgeiswyr ynghylch pa mor hir y bydd hi'n cymryd i gyflawni'r addasiad.

2.7 O'n hadolygiad, rydym wedi canfod bod gwybodaeth i'r cyhoedd yn ddiffygiol mewn sawl maes, a bod cyfle i sefydliadau cyflenwi wella'r modd y maent yn hysbysu pobl anabl neu bobl hŷn am y gwasanaethau sydd ar gael a sut i geisio'r gwasanaethau hynny.

2.8 Nododd y mwyafrif yn yr arolwg a oedd wedi derbyn addasiad yn ddiweddar mai gan weithwyr proffesiynol yn bennaf y cawsant wybod am addasiadau. Therapyddion Galwedigaethol (22%) a gweithwyr cymdeithasol (15%) oedd y rhain fel arfer. Llai na 5% o bobl sy'n cael gwybod am addasiadau gan sefydliadau cyflenwi - awdurdodau a chymdeithasau tai - neu o wybodaeth gyhoeddedig. Mae'r boblogaeth yn heneiddio, a rhagwelir y ceir cynnydd o fwy na 50% yn y galw am addasiadau tai rhwng 2015-2035. Mae hi felly'n destun pryder bod llawer o sefydliadau'n dal i ddibynnu ar weithwyr proffesiynol i hyrwyddo'r gwasanaeth yn uniongyrchol.

2.9 Mae canfyddiadau ein harolwg hefyd yn amlygu gwendidau yn ansawdd a chwmpas yr wybodaeth sydd ar gael i'r cyhoedd am addasiadau tai - Dangosyn 4 isod. Er bod sefydliadau cyflenwi'n darparu gwybodaeth am addasiadau tai yn Gymraeg ac yn Saesneg, gwelsom nad yw nifer sylweddol o sefydliadau cyflenwi yn darparu gwybodaeth yn y prif fformatau eraill hygyrch. Er enghraifft, mewn ffontiau mawr ar gyfer defnyddwyr â nam ar y golwg, fersiynau sain i bobl ag anawsterau clyw, ac mewn ieithoedd eraill. Yn ôl y canfyddiadau yn Nangosyn 4 nid yw'r wybodaeth am addasiadau tai a gyhoeddir gan sefydliadau cyflenwi bob amser wedi'i chynllunio'n arbennig i sicrhau bod gwasanaethau yn hygyrch i ddarpar ddefnyddwyr gwasanaeth.

Dangosyn 4: ystod a fformat yr wybodaeth am addasiadau tai




Ffynhonnell: Arolwg Swyddfa Archwilio Cymru o awdurdodau lleol, cymdeithasau tai ac asiantaethau Gofal a Thrwsio.

2.10 Adlewyrchir canfyddiadau'r arolwg yn ein gwaith maes gyda sefydliadau cyflenwi. Nid oedd rhai sefydliadau cyflenwi yn darparu ystod gynhwysfawr o wybodaeth am bob agwedd ar eu gwasanaethau addasu mewn ystod briodol ac addas o fformatau a chyfryngau - fformatau sain, Braille a phrint mawr. Gwelsom hefyd fod peth o'r wybodaeth gyhoeddedig wedi dyddio ac nad oedd yn adlewyrchu'r modd y mae sefydliadau cyflenwi yn darparu gwasanaethau. Oherwydd y gwendidau yn ansawdd a hygyrchedd gwybodaeth gyfredol am addasiadau tai, mae Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda sefydliadau cyflenwi, drwy ei hadolygiad 'Hwyluso', i ymdrin â diffygion wrth reoli perfformiad a gwybodaeth.


2.11 Mae cyrff iechyd yn ymwybodol iawn o fanteision addasiadau er mwyn osgoi gorfod derbyn pobl i'r ysbyty, ac er mwyn cefnogi'r broses o ryddhau cleifion o'r ysbyty. Serch hynny, nododd ymatebwyr i'n harolygon fod cyfathrebu gwael, diffyg gwybodaeth a dealltwriaeth meddygon teulu, staff ysbyty a chomisiynwyr yn ffactorau o bwys a oedd yn rhwystro defnydd gwell o addasiadau Yn benodol, mae ansawdd ac ystod yr wybodaeth a'r data a rennir rhwng yr awdurdod lleol, cymdeithasau tai, asiantaethau Gofal a Thrwsio a chyrff iechyd er mwyn cynyddu defnydd hyd yr eithaf, cyflymu penderfyniadau a chynllunio gwasanaethau mewn modd strategol yn arbennig o wael. Nododd Therapyddion Galwedigaethol a ymatebodd i'n harolwg amrywio helaeth yn ansawdd a chwmpas deunydd hyrwyddo sefydliadau cyflenwi. Er enghraifft, er bod mwyafrif helaeth y Therapyddion Galwedigaethol (92%) yn teimlo bod awdurdodau lleol a chyrff Gofal a Thrwsio wedi cyfleu'n glir wrth ddefnyddwyr gwasanaeth yr hyn y gallant ddisgwyl ei dderbyn, dim ond 65% a deimlai fod gan y cymdeithasau tai y maent yn gweithio gyda hwy wybodaeth o ansawdd da a phriodol am safonau gwasanaeth. Mae sicrhau bod cyrff iechyd yn cael cymaint o fudd ag sy'n bosibl o waith addasu yn parhau i fod yn her i weithwyr iechyd proffesiynol.

## Oherwydd diffyg hyrwyddo effeithiol, ceir risg nad yw pawb a fyddai'n elwa ar waith addasu yn ymwybodol o'r addasiadau sydd ar gael

2.12 Gellir cael mynediad at addasiadau drwy amrywiaeth eang o asiantaethau - er enghraifft, atgyfeiriadau gan weithwyr cymdeithasol, swyddogion tai, partneriaid o'r trydydd sector, cefnogi pobl, staff neu weithwyr cynnal a chadw adeiladau. O ganlyniad i hynny, mae angen i'r rhai sy'n ymdrin yn uniongyrchol ag unigolion a allai elwa ar addasiadau i'w tŷ wybod sut i atgyfeirio unigolion i wasanaethau. Er inni gael hyd i rai enghreifftiau lle'r oedd cydweithio ac integreiddio yn arwain at drefniadau gwell ar gyfer cyflenwi addasiadau (er enghraifft, cefnogi trefniadau effeithiol i ryddhau cleifion o'r ysbyty), eithriadau yn hytrach na norm oedd yr enghreifftiau hynny. Ychydig o dystiolaeth a welsom fod sefydliadau cyflenwi'n canolbwyntio ar gamau rhagweithiol neu ataliol er mwyn bodloni anghenion pobl anabl a phobl hŷn yn well, cyn i'w hamgylchiadau unigol ddirywio i sefyllfa argyfyngus lle'r oedd angen ymyrraeth.

2.13 Drwy ein harolwg o gynghorau, cymdeithasau tai ac asiantaethau Gofal a Thrwsio, gallwn ddadansoddi'r modd y mae gwahanol sefydliadau'n dweud wrth bobl am addasiadau tai a'r opsiynau sydd ar gael iddynt. Yn Nangosyn 5, gwelir bod mwyafrif yr awdurdodau lleol, y cymdeithasau tai a'r asiantaethau Gofal a Thrwsio yn dibynnu ar staff swyddfa i ddosbarthu gwybodaeth am addasiadau tai, tra bo'r wybodaeth a gyhoeddir drwy'r cyfryngau cymdeithasol, drwy gylchlythyrau ac yn llawlyfrau tenantiaid fel arfer yn llai datblygedig. Nid yw yr un gymdeithas dai yn darparu gwybodaeth i bartneriaid fel cyrff iechyd, gweithwyr cymdeithasol neu gyrff y trydydd sector. Mae hyn yn destun pryder neilltuol, yn enwedig gan fod y rhan fwyaf o bobl sy'n derbyn addasiadau fel arfer yn cyrchu gwasanaethau drwy atgyfeiriadau trydydd parti. O ystyried y bylchau hyn yn yr wybodaeth a ddarperir, ceir cyfle i sefydliadau cyflenwi wella'r modd y maent yn hyrwyddo mynediad at waith addasu.

Dangosyn 5: y gwahanol ddulliau a ddefnyddir gan sefydliadau sy'n cyflenwi addasiadau tai i hysbysu pobl am yr opsiynau sydd ar gael iddynt




Ffynhonnell: Arolwg Swyddfa Archwilio Cymru o awdurdodau lleol, cymdeithasau tai ac asiantaethau Gofal a Thrwsio

2.14 Drwy reoli a chyfyngu ar drefniadau i hyrwyddo addasiadau, mae rhai sefydliadau i bob pwrpas yn gallu rheoli'r galw a chadw rheolaeth dros wariant. Rydym yn cydnabod bod terfyn ar gyllidebau gwasanaethau, a'u bod yn annhebygol o allu bodloni'r galw am waith addasu gan bob darpar ymgeisydd. Serch hynny, mae'n glir nad yw'n dderbyniol cyfyngu ar fynediad pobl anabl a phobl hŷn at wasanaethau, ac nad yw'r sefydliadau cyflenwi yn cyflawni eu cyfrifoldebau tuag at eu cymuned wrth wneud hynny.

## Mae'r prosesau ymgeisio, asesu a chymeradwyo yn amrywio'n sylweddol, a gall hynny achosi oedi cyn i bobl anabl a phobl hŷn dderbyn gwaith addasu

### Yn aml, ni fydd prosesau ymgeisio yn effeithiol nac yn ddigon syml

2.15 Gall llawer o sefydliadau a gwasanaethau ymwneud â'r gwaith o gyflenwi addasiadau. Gall y cyswllt neu atgyfeiriad cyntaf yr unigolyn anabl neu hŷn ddod drwy'r gwasanaethau cymdeithasol, drwy staff rheoli neu gynnal a chadw tai yr awdurdod lleol, swyddogion Cefnogi Pobl, tai'r sector preifat neu staff iechyd yr amgylchedd, yn ogystal â'r rhai sy'n gweinyddu DFGs. Gan fod nifer helaeth o lwybrau er mwyn cyrchu gwasanaethau, mae angen i sefydliadau cyflenwi sicrhau bod ganddynt systemau cadarn i ymdrin â cheisiadau yn gyflym ac effeithiol. Dylai'r system ymgeisio hefyd fod yn ddigon eang ac amrywiol i annog pobl i'w defnyddio a manteisio arni, a dylai sefydliadau cyflenwi gynnig amrywiaeth o gyfryngau i annog defnyddwyr gwasanaeth i ymgeisio.

2.16 Mae pob sefydliad cyflenwi wedi dylunio ei broses ymgeisio ei hun ar gyfer pobl sy'n gwneud cais i addasu eu tŷ. Mae'r systemau a'r prosesau a ddefnyddir gan sefydliadau cyflenwi yn amrywio rhwng y naill gorff a'r llall, er eu bod yn bodlon gofynion polisi cenedlaethol, ac maent yn aml yn creu anawsterau i bobl anabl a phobl hŷn sy'n ceisio cymorth. O'n harolygon a'n gwaith maes, gwelsom fod awdurdodau lleol a chymdeithasau tai yn cynnig ystod o brosesau ymgeisio, ond nad oedd gan bob un ohonynt y prosesau sy'n bodloni anghenion pobl y mae angen addasu eu tŷ mewn modd cyson ac effeithiol.

2.17 Dim ond chwe awdurdod lleol sy'n cynnig prosesau ymgeisio ar-lein ar gyfer DFGs. Mae un awdurdod lleol ar bymtheg yn gweithio gydag asiantaethau Gofal a Thrwsio i gwblhau ceisiadau, ond dim ond wyth ohonynt sy'n gweithio gyda sefydliadau eraill o'r trydydd sector. Mae un awdurdod lleol ar bymtheg yn caniatáu ceisiadau dros y ffôn, ac mae 19 o awdurdodau lleol yn darparu gwasanaethau allgymorth lle bydd swyddogion yn mynd i gartrefi pobl i gwblhau ceisiadau. Mae nifer fach o awdurdodau lleol hefyd yn mynd ati'n frwd i symleiddio'r broses ymgeisio drwy bennu 'swyddogion achos' sy'n gweithio'n agos gyda phobl anabl a phobl hŷn i'w tywys drwy'r broses ym mhob cam. Mae pobl anabl a phobl hŷn yn gwerthfawrogi cefnogaeth y swyddogion achos, ond yn aml bydd yn rhaid i ymgeiswyr dalu am y gwasanaeth hwnnw.

2.18 Mewn cymhariaeth, dim ond tri o'r 33 o gymdeithasau tai yn ein harolwg sy'n cynnig prosesau ymgeisio ar-lein ar gyfer addasiadau tai, er bod 13 yn dweud eu bod yn gweithio gyda sefydliadau'r trydydd sector i gwblhau ceisiadau, a 12 yn dweud yn benodol eu bod yn gweithio gyda Gofal a Thrwsio. Llai na hanner y 33 o gymdeithasau tai sy'n caniatáu ceisiadau dros y ffôn neu sy'n cyflogi swyddogion i ymweld â phobl anabl neu bobl hŷn yn eu cartref i'w cynorthwyo i gwblhau ceisiadau addasu. Yn gyffredinol, roedd 79% o'r bobl a dderbyniodd DFG o'r farn fod y broses ymgeisio yn dda neu'n ardderchog, o gymharu â 66% o'r rhai a dderbyniodd PAG.

## Mae Therapyddion Galwedigaethol yn hollbwysig er mwyn cyflenwi addasiadau o ansawdd da, ond mae asesiadau ac arferion gwaith yn aneffeithlon, a heb fod yn brydlon bob amser

2.19 Mae addasiadau ar gael i unrhyw un os oes asesiad yn cadarnhau bod angen hynny. Bydd awdurdodau lleol a landlordiaid yn dibynnu ar farn broffesiynol Therapyddion Galwedigaethol i ganfod pa waith sydd yn 'angenrheidiol a phriodol' er mwyn bodloni anghenion yr unigolyn. Gall Therapyddion Galwedigaethol asesu pobl yn yr ysbyty neu mewn lleoliadau gofal eraill i weld a oes angen addasu eu tŷ. Mewn rhai sefydliadau cyflenwi bydd yn rhaid cynnal amryw o asesiadau cyn rhyddhau pobl i'w cartref neu i wasanaethau yn y gymuned. Gall ailadrodd asesiadau olygu bod gwaith yn cael ei ail-wneud o fewn y system, a chreu dryswch i bobl y gallai fod angen addasu eu tŷ. Mae ein harolwg o Therapyddion Galwedigaethol yn amlygu rhai o'r diffygion sylweddol yn y prosesau a ddefnyddir gan sefydliadau cyflenwi i asesu, rheoli a chyflenwi addasiadau ledled Cymru.

2.20 Nodir y rhain yn fanwl yn Nangosyn 6, ac maent yn tynnu sylw at fylchau sylweddol mewn arferion gwaith cyfredol. Yn benodol:

- defnydd cyfyngedig o dechnoleg symudol a dibyniaeth ar brosesau sy'n golygu llawer o lafur a gormod o fiwrocratiaeth;
- diffyg defnydd o raglenni ar y cyd, a dibyniaeth ar ymagweddau gan asiantaethau unigol, yn enwedig mewn cymdeithasau tai, sy'n golygu bod mwy o waith yn cael ei ail-wneud, ac sy'n ychwanegu at yr amser a gymerir i ymgeisio, asesu a chymeradwyo addasiadau;
- bod yn rhaid i ymgeiswyr gyflwyno amryw o geisiadau i wahanol sefydliadau am yr un gwasanaeth i bob pwrpas, gan ddarparu'r un wybodaeth heb integreiddio rhyw lawer ar ddata na phrosesau asesu;
- mae gormod o ymweliadau safle'n cael eu cynnal, ac nid yw systemau cymeradwyo'n cael eu symleiddio er mwyn cyflymu'r ddarpariaeth; ac
- nid yw addasiadau wedi'u hintegreiddio â chofrestrau tai sydd wedi'u haddasu.

2.21 Nododd Therapyddion Galwedigaethol hefyd achosion o oedi wedi'u hachosi'n benodol gan rai cymdeithasau tai a oedd yn cwestiynu'r angen i addasu, gan ddal caniatâd yn ôl neu wrthod caniatâd yn llwyr. Nododd Therapyddion Galwedigaethol hefyd bryder cynyddol ei bod hi'n cymryd mwy a mwy o amser i'r gwahanol sefydliadau cyflenwi brosesu ceisiadau, a hynny'n aml oherwydd pwysau ariannol a gostyngiad yn niferoedd y staff. Mae prosesau asesu awdurdod lleol yn cynnwys gwendidau mewn meysydd allweddol. Fodd bynnag, yn ôl profiad Therapyddion Galwedigaethol, mae awdurdodau wedi sefydlu systemau a phrosesau mwy effeithiol i gyflenwi addasiadau na'r rhai a ddefnyddir gan gymdeithasau tai.

### Dangosyn 6: canran y Therapyddion Galwedigaethol sy'n cytuno y dylai sefydliadau cyflenwi gymryd y camau canlynol er mwyn gwella darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd er mwyn cyflenwi addasiadau tai

Mae'r ganran yn cyfeirio at y gyfran o Therapyddion Galwedigaethol sy'n cytuno y dylai'r sefydliadau cyflenwi a enwir gydymffurfio â'r meini prawf effeithlonrwydd. Mae'n dangos diffygion sylweddol mewn prosesau ymgeisio ac asesu.

| **Meini Prawf** | **Y ganran sy'n cydymffurfio â'r safon ymgeisio ac asesu, fesul sefydliad cyflenwi, yn ôl asesiad Therapyddion Galwedigaethol** | | |
|---|---|---|---|
| | Awdurdodau Lleol (%) | Cymdeithasau Tai (%) | Gofal a Thrwsio (%) |
| Mae cofrestrau tai addasedig wedi'u hintegreiddio â systemau addasu | 43 | 40 | 35 |
| Ni fydd ymgeiswyr ond yn ymholi/ ymgeisio unwaith er mwyn cyrchu addasiadau | 50 | 39 | 41 |
| Mae mentrau lleol yn cefnogi proses gynt i gyflenwi addasiadau tai | 55 | 33 | 64 |
| Defnyddir technoleg symudol ac ar-lein yn ystod y broses addasu | 56 | 54 | 50 |
| Ffurflen gais a gytunwyd ar y cyd | 59 | 38 | 53 |
| Mae'r systemau ar gyfer cymeradwyo addasiad wedi'u symleiddio | 65 | 30 | 63 |
| Caiff pob cais ei brosesu drwy un man derbyn | 67 | 47 | 64 |
| Mae'r prosesau wedi'u dylunio mewn modd sy'n galluogi penderfyniad cyflym ynghylch ceisiadau | 69 | 43 | 81 |
| Ceir cyn lleied â phosib o bwyntiau penderfynu yn y broses asesu | 71 | 50 | 75 |

| Meini Prawf | Y ganran sy'n cydymffurfio â'r safon ymgeisio ac asesu, fesul sefydliad cyflenwi, yn ôl asesiad Therapyddion Galwedigaethol | | |
|---|---|---|---|
| Mae'r broses asesu yn canolbwyntio ar y cleient ac yn caniatáu cynnydd cyflym | 73 | 39 | 76 |
| Mae swyddogaethau'r holl staff sy'n ymwneud ag asesiadau wedi'u diffinio'n eglur | 73 | 57 | 68 |
| Cynhelir cyn lleied â phosib o ymweliadau safle, a hynny ar y cyd. | 74 | 65 | 70 |
| Ceir cyn lleied â phosib o bwyntiau cymeradwyo yn y broses asesu | 77 | 48 | 75 |
| Ymchwiliadau wedi'u sgrinio mewn un pwynt derbyn | 84 | 56 | 82 |
| Proses ymholi wedi'i chytuno ar y cyd | 86 | 74 | 89 |

Ffynhonnell: Arolwg Swyddfa Archwilio Cymru o awdurdodau lleol, cymdeithasau tai ac asiantaethau Gofal a Thrwsio.

2.22 Pan fydd Therapyddion Galwedigaethol yn gweithio mewn ardaloedd bwrdd iechyd sy'n cynnwys sawl awdurdod lleol, gall yr heriau o'u blaen waethygu, oherwydd bydd prosesau ymgeisio ac asesu, a systemau cymeradwyo gwahanol sefydliadau cyflenwi yn aml yn amrywio'n helaeth. Yn yr un modd, bydd gweithwyr iechyd proffesiynol sy'n gweithio ar draws ffiniau awdurdod lleol ac sy'n ymgysylltu ag ystod eang o sefydliadau cyflenwi yn wynebu'r her o reoli amryw o systemau wrth gynllunio i ryddhau cleifion o'r ysbyty neu wrth ystyried opsiynau i fodloni anghenion cleifion. Yn aml, bydd y systemau hynny hefyd yn wahanol iawn i'w gilydd.

2.23 Er enghraifft, er bod hanner y 12 o sefydliadau'r GIG a gafodd eu cynnwys yn ein harolwg (cymysgedd o Fyrddau Iechyd ac ysbytai unigol) yn teimlo eu bod yn gwybod beth yr oedd cyrff cyflenwi yn disgwyl ganddynt a'r modd yr oedd prosesau gweithredu'n gweithio, dim ond dau a deimlai eu bod ganddynt ddealltwriaeth lawn o'r gwasanaethau addasu a oedd ar gael iddynt a pha mor hir yr oedd hi'n cymryd i asesu a chymeradwyo addasiadau. Yn yr un modd, dim ond pedwar o sefydliadau oedd yn cydnabod eu bod yn gwybod am yr ystod lawn o wasanaethau sydd ar gael a'r meini prawf cymhwystra ar gyfer darparu gwasanaethau. Ein casgliad cyffredinol yw bod natur gymhleth y systemau yn ychwanegu at yr amser a gymerir i asesu pobl a darparu datrysiadau'n brydlon. Roedd Therapyddion Galwedigaethol a gweithwyr iechyd proffesiynol y buom yn siarad â hwy o'r farn y byddai eu gwaith yn elwa ar ddulliau a ffurflenni asesu safonedig ar draws y sefydliadau cyflenwi.

2.24 Y baich ar Therapyddion Galwedigaethol yw'r hyn y bydd sefydliadau cyflenwi yn cyfeirio ato amlaf fel y prif reswm dros oedi cyn prosesu a chyflenwi addasiadau'n brydlon. O'n harolygon, gwelsom fod 95% o awdurdodau lleol ac 86% o gymdeithasau tai yn profi oedi cyn cynnal asesiadau therapi galwedigaethol ar gyfer DFGs a PAGs. Er mwyn mynd i'r afael â'r achosion hyn o oedi, gwelsom fod rhai sefydliadau cyflenwi'n cynyddu'r defnydd o Aseswyr y gellir Ymddiried Ynddynt[10] i leihau'r baich ar Therapyddion Galwedigaethol. Gan mai atgyfeiriadau ar gyfer mân eitemau yw cyfran sylweddol o'r atgyfeiriadau ar gyfer addasiadau, gall defnyddio aseswyr y gellir ymddiried ynddynt gyflymu asesiadau a phenderfyniadau gan roi cyfle i Therapyddion Galwedigaethol roi'r flaenoriaeth i asesu a llunio manylebau ar gyfer addasiadau mwy cymhleth. Er bod gwaith yr Aseswyr yn arwain at benderfyniadau cynt, nid yw'r farn ynglŷn â'u gwaith yn gadarnhaol bob amser. Mynegodd Therapyddion Galwedigaethol bryderon ynghylch effaith ac ansawdd atgyfeiriadau, a nodwyd bod rhai Aseswyr yn ei chael hi'n anodd gwneud penderfyniadau oherwydd y gallent fod yn atebol am wneud penderfyniadau gwael pe bai problemau'n codi. Mae Therapyddion Galwedigaethol hefyd wedi gorfod adolygu a chymeradwyo rhai asesiadau cyn iddynt gael eu cymeradwyo, a gall hynny achosi oedi sy'n atal penderfyniadau prydlon.

10 Mae Coleg Brenhinol y Therapyddion Galwedigaethol, mewn ymateb i'r pwysau ar therapyddion galwedigaethol, yn cydnabod y gall ystod ehangach o weithwyr proffesiynol asesu addasiadau llai cymhleth. Mae ei ganllaw ysgrifenedig **Minor Adaptations Without Delay** (2006) yn rhoi amlinelliad o'r math o addasiadau y gall Aseswyr yr Ymddiriedir Ynddynt eu hasesu. Mae nifer fawr o awdurdodau lleol a chymdeithasau tai bellach yn defnyddio'r canllawiau hyn i gyflymu asesiadau ar gyfer addasiadau llai cymhleth, gan ryddhau Therapyddion Galwedigaethol i ymdrin ag addasiadau mwy cymhleth.

### Dangos cyfarpar

Ar ddechrau 2015, agorodd Cyngor Caerdydd Ganolfan Byw'n Annibynnol (CBA). Mae Therapydd Galwedigaethol yn gweithio yn y ganolfan ac yn gallu asesu a darparu gwybodaeth i bobl sy'n ymweld â'r Ganolfan. Mae'r Ganolfan yn cynnwys amrywiaeth o addasiadau tai fel bod pobl yn gallu gweld sut maent yn gweithio, a sut y gallant eu helpu yn eu bywyd beunyddiol. Mae rhai timau therapi galwedigaethol wedi ehangu eu sylfaen o adnoddau drwy brynu nifer o esgynfeydd cit ac ystafelloedd cawod ar ffurf podiau i bobl sydd angen addasiadau ar frys ac am gyfnod byr.

2.25 Bydd rhai awdurdodau lleol yn defnyddio pwyntiau mynediad unigol ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol, gan gynnwys addasiadau tai. Ar ôl i bobl y gallai fod angen addasiadau tŷ arnynt gysylltu â'r pwynt mynediad unigol, bydd eu cais yn cael ei drosglwyddo i staff gweinyddol a'i gydgysylltu'n ganolog gan olygu bod asesiad prydlon yn cael ei gynnal o anghenion personol yr ymgeisydd ac addasrwydd yr eiddo.

### Defnydd o dechnoleg

Mae Therapyddion Galwedigaethol hefyd yn defnyddio technoleg i weithio'n fwy effeithlon. Bydd rhai Therapyddion Galwedigaethol yn anfon eu hargymhellion yn uniongyrchol drwy e-bost i'r cymdeithasau tai a'r awdurdodau lleol, sy'n lleihau'r defnydd o ffurflenni a phrosesau papur, a'r ddibyniaeth ar hynny. Bydd rhai Therapyddion Galwedigaethol yn defnyddio camera eu ffôn symudol i dynnu lluniau mewn eiddo yr ystyrir ei addasu, er mwyn casglu gwybodaeth fanwl y gellir ei darparu'n electronig i syrfëwyr adeiladu a swyddogion grantiau. Gall hyn fod o gymorth i gyflymu penderfyniadau ynghylch addasiadau. Mae Therapyddion Galwedigaethol hefyd yn defnyddio technoleg i ymgysylltu â'r rhai a allai dderbyn addasiadau, drwy ddangos lluniau o'r ystod o opsiynau sydd ar gael, a'r effaith debygol y gallant ei chael ar y sawl sy'n eu derbyn.

## Bydd prosesau ar gyfer cymeradwyo addasiadau'n achosi oedi mynych

2.26 Yn ogystal â natur gymhleth prosesau asesu'r Therapyddion Galwedigaethol, gall ystod o ffactorau eraill achosi oedi wrth gyflenwi DFGs a PAGs. Mae nifer o'r rhain yn rhyng-gysylltiedig ac yn aml yn ddilyniant o ffactorau sy'n deillio o amseriad cymeradwyo a phenderfynu, tra bo eraill yn tarddu o ddewisiadau a phenderfyniadau'r ymgeisydd. O'n harolwg o awdurdodau lleol a chymdeithasau tai sy'n cyflenwi DFGs a PAGs, canfuom nifer o faterion craidd sydd yn tarfu ar ddarpariaeth addasiadau ar hyn o bryd.

2.27 Nododd ychydig llai na hanner yr awdurdodau lleol y gallai gymryd amser sylweddol i[11] gwblhau'r prawf modd. Bydd yr oedi'n aml yn cael ei achosi oherwydd manylder yr wybodaeth y mae'n ofynnol i ymgeiswyr DFG ei darparu, fel gweithredoedd a gwybodaeth ariannol gynhwysfawr. Roedd sefydliadau cyflenwi yn cydnabod bod y prawf modd hefyd yn annheg mewn perthynas â'r opsiynau ariannu eraill. Roeddent hefyd yn teimlo bod lle i ddadlau nad oedd y prawf modd yn cynrychioli gwerth am arian gan ei bod hi'n cymryd cymaint o amser i gwblhau'r prawf hwnnw o gymharu â lefel y grant oedd i'w ddarparu. Yn gadarnhaol, mae rhai awdurdodau lleol yn cyflymu'r prawf modd drwy gysylltu ceisiadau â systemau TGCh eraill yr awdurdod er mwyn canfod beth yw sefyllfa ariannol yr ymgeisydd - er enghraifft, budd-dal y dreth gyngor.

2.28 Bydd prosesau cymeradwyo Llywodraeth Cymru yn aml yn achosi oedi cyn i gymdeithasau tai allu cyflenwi PAGs, yn enwedig yn achos gwaith graddfa fwy, y mae angen cymeradwyaeth ar ei gyfer cyn cychwyn y gwaith. Yn rhan o'r broses gymeradwyo, bydd swyddogion Llywodraeth Cymru yn adolygu asesiad y Therapydd Galwedigaethol o'r angen am addasiad ac addasrwydd yr adeilad, a gall hynny ychwanegu llawer o wythnosau os nad misoedd at y broses. Dywedodd 82% o landlordiaid eu bod wedi profi oedi gan fod Llywodraeth Cymru'n mynnu bod cymdeithasau'n darparu tri dyfynbris, a 64% ohonynt eu bod wedi profi oedi o ganlyniad i brosesau cymeradwyo Llywodraeth Cymru. Fodd bynnag, gall achosion o oedi hefyd godi pan fydd gwybodaeth anghyflawn neu o safon wael yn cael ei chyflwyno i'w chymeradwyo gan Lywodraeth Cymru. Serch hynny, o ystyried na chaiff rhan helaeth y PAGs dros £5,000 eu herio na'u newid rhyw lawer, mae cymdeithasau tai o'r farn fod y prosesau hyn yn faich diangen, yn enwedig gan fod y system yn cael ei gweinyddu'n gyfan gwbl ar bapur ac heb ei digideiddio na'i hawtomeiddio.

2.29 Er mwyn hwyluso cwblhau PAGs yn brydlon, mae Llywodraeth Cymru wedi sefydlu system garlam ar gyfer gwaith cymharol fach a gwaith safonol i osod cadeiriau esgyn (£3,500), ystafelloedd ymolchi (£6,500) a chymhorthion mynediad eraill (£3,500). Gall cais gynnwys pob un o'r tair elfen, gan greu cyfanswm o £13,500. Drwy'r dull carlam hwn, bydd Llywodraeth Cymru'n ôl-gymeradwyo gwariant PAG ar ôl i'r gymdeithas dai drefnu a chwblhau'r gwaith addasu. Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn adolygu ei chanllawiau ar PAGs mewn partneriaeth â grŵp o gynrychiolwyr cymdeithasau tai, ac yn ystyried opsiynau i wella amseroldeb, gan gynnwys canllawiau ffurfiol ar ddarparu estyniadau a chodi'r uchafsymiau ar gyfer ceisiadau carlam.

11 Er bod DFGs yn orfodol, maent yn amodol ar brawf modd, ac wedi'u cyfyngu i uchafswm. Mae prawf adnoddau ar gyfer ymgeiswyr grant wedi'i nodi yn Rheoliadau Grantiau Adnewyddu Tai 1996 (SI 1996/2890, fel y'i diwygiwyd). I raddau helaeth, mae'r prawf yn adlewyrchu'r system ar gyfer cyfrifo'r hawl i dderbyn Budd-dal Tai. Gall ymgeiswyr grant dderbyn grant llawn neu gallai fod yn ofynnol iddynt gyfrannu at gost y gwaith.

2.30 Gwnaeth yr awdurdodau lleol a'r cymdeithasau tai hefyd sylwadau ar yr oedi a oedd yn cael ei achosi oherwydd yr amser a gymerir i gael caniatâd perthnasol oddi wrth gwmnïau cyfleustodau (dŵr yn enwedig) ac awdurdodau cynllunio os oes angen caniatâd cynllunio. Yn aml gall y rhain achosi oedi hir, ond ychydig o reolaeth os o gwbl sydd gan sefydliadau cyflenwi dros hynny, yn enwedig os yw ymgeisydd yn gyfrifol am reoli'r broses o gyflenwi DFG. Er mai'r ymgeisydd sy'n gyfrifol am fodloni gofynion cynllunio fel arfer (er enghraifft, drwy lenwi ffurflenni a chyflwyno dogfennau perthnasol), dylai sefydliadau cyflenwi ddarparu cymaint o gymorth ymarferol ag sydd ei angen er mwyn osgoi oedi wrth brosesu a chymeradwyo ceisiadau. Mae'n bwysig sicrhau nad yw gweithdrefnau cymeradwyo cynllunio yn ychwanegu oedi dianghenraid yn ystod y broses, a bod sefydliadau cyflenwi yn cysylltu â'r awdurdod cynllunio lleol neu awdurdod cynllunio'r Parc Cenedlaethol i bennu cwmpas y materion y byddai angen caniatâd cynllunio ar eu cyfer fel arfer, neu gwmpas amgylchiadau eithriadol (er enghraifft, pan fydd eiddo mewn ardal gadwraeth).

2.31 Yn olaf, gall penderfyniadau ymgeiswyr neu denantiaid hefyd achosi oedi sylweddol. O'n harolygon, gwelsom fod 95% o awdurdodau lleol wedi dweud bod ymgeiswyr yn aml yn gofyn am gael gohirio gwaith addasu yn ôl, a dywedodd 86% ohonynt fod ymgeiswyr yn newid eu meddyliau ac yn aml yn tynnu eu cais yn ôl. Er bod cymdeithasau tai yn nodi bod tenantiaid yn aml yn dewis gohirio addasiad neu dynnu cais am addasiad yn ôl, dim ond 40% o landlordiaid a ddeuai ar draws y materion hyn. O ystyried pa mor gymhleth yw'r system ar gyfer asesu, cymeradwyo a chyflenwi addasiadau, nid yw'n syndod bod ymgeiswyr yn aml yn dewis peidio parhau â'u cais, yn enwedig perchnogion preswyl os yw prosesau'r DFG yn arbennig o feichus.

2.32 Mewn ymateb i hyd yr amser a gymerir i asesu, cymeradwyo a chyflenwi addasiadau, mae rhai sefydliadau cyflenwi wedi ceisio symleiddio eu prosesau er mwyn gwella effeithlonrwydd a sicrhau'r gwerth mwyaf posib am arian. Yn rhan o hyn, mae nifer o awdurdodau lleol, fel Cyngor Sir Ceredigion a Chyngor Sir Casnewydd, yn cynnal asesiad cychwynnol o'r cyfraniad ariannol y gallai fod angen i ymgeiswyr ei wneud tuag at DFG. Er nad yw'r asesiad yn rhwymol, mae'n rhoi dealltwriaeth i ymgeiswyr ynghylch y gost bosib y gallai fod angen iddynt ei thalu. Yn ôl awdurdodau lleol sy'n defnyddio'r ymagwedd hon, mae nodi'r gost bosibl i ymgeiswyr cyn gynted ag sy'n bosibl yn y broses asesu a chymeradwyo yn galluogi'r awdurdod i ganfod ynghynt pwy sydd yn bwriadu tynnu eu cais yn ôl oherwydd costau ariannol.

2.33 Mae rhai awdurdodau lleol - Cyngor Sir Powys, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili a Chyngor Dinas a Sir Abertawe - hefyd yn defnyddio 'swyddogion achos' sy'n gweithio gyda'r gwahanol asiantaethau ac adrannau sy'n ymwneud ag addasiadau. Y nod yw sicrhau bod ceisiadau'n cael eu 'tynnu' drwy'r system a bod penderfyniadau'n cael eu hwyluso. Mae defnyddio swyddogion achos rhoi un man cyswllt i ymgeiswyr ac yn fodd i sicrhau goruchwyliaeth dros geisiadau ac asesiadau pobl anabl neu bobl hŷn. Mae swyddogion achos mewn sefyllfa dda i ymdrin â rhwystrau o fewn y system ac i gyflymu'r broses benderfynu a chymeradwyo, yn enwedig lle na cheir rhyw lawer o oruchwyliaeth dros y system addasu yn ei chyfanrwydd.

## Bydd sefydliadau cyflenwi yn mabwysiadu amrywiaeth eang o ymagweddau er mwyn trefnu a rheoli gwaith adeiladu, ac nid yw'r rhain bob amser yn effeithlon neu'n effeithiol

2.34 Yr hyn sy'n allweddol er mwyn cwblhau gwaith adeiladu yw sicrhau bod y prosesau a ddefnyddir i sicrhau contractwyr a chyflawni'r gwaith yn addas i'r diben. Mae hyn yn golygu taro cydbwysedd ofalus rhwng ei gwneud hi'n ofynnol i sefydliadau cyflenwi sicrhau eu bod yn cyflawni'r gwaith yn gyflym er mwyn bodloni anghenion a dymuniadau'r unigolyn anabl neu hŷn, a sicrhau cywirdeb wrth ddewis contractwyr a gwerth am arian o ran cost ac ansawdd y gwaith adeiladu. O ganlyniad i hyn, mae angen i awdurdodau lleol a chymdeithasau tai sicrhau eu bod wedi sefydlu dulliau effeithiol ac effeithlon o gyflenwi gwasanaethau.

2.35 Mae rheoli contractwyr a rhwyddineb prosesau caffael yn agweddau pwysig ar sicrhau ansawdd addasiadau tai. Gall gwneud hynny'n wael gael effaith aruthrol ar amseroldeb, cost a darpariaeth addasiadau. Mae canfyddiadau ein harolwg yn dangos bod hanner y cymdeithasau tai sy'n cyflenwi PAGs, a thraean o awdurdodau lleol, yn ei chael hi'n anodd sicrhau contractwyr, a bod tua 20% o'r naill a'r llall yn ei chael hi'n anodd canfod adeiladwyr â chymwysterau addas i gyflawni gwaith adeiladu.

2.36 Mae'r rhan fwyaf o awdurdodau lleol, cymdeithasau tai ac asiantaethau Gofal a Thrwsio wedi sefydlu prosesau priodol i oruchwylio a rheoli perfformiad y adeiladwyr, a hynny fel arfer drwy gynnal cyfarfodydd a deialog rheolaidd ynghylch grantiau unigol. Fodd bynnag, ychydig o sefydliadau cyflenwi sy'n gweithio'n strategol â chontractwyr i symleiddio a gwella perfformiad. Dim ond dau sefydliad sy'n ymgysylltu â chontractwyr ac adeiladwyr fel aelodau o grwpiau traws-sector strategol, ac mae hyn yn golygu colli cyfle i ddysgu. Dim ond dau sefydliad hefyd sydd wedi cyfuno adnoddau â chontractwyr - er enghraifft, swyddi ar y cyd i oruchwylio a chydgysylltu a symleiddio'r ddarpariaeth - a dim ond un sydd wedi cydleoli staff â chontractwyr ac adeiladwyr.

2.37 Mae hanner yr awdurdodau lleol yn defnyddio rhestrau o gontractwyr cymeradwy i gaffael gwaith adeiladu, ac nid ydynt ond yn gweithio gydag adeiladwyr y maent wedi'u cymeradwyo i gyflawni gwaith addasu. I raddau cymesur, mae hyn yn llawer llai na chymdeithasau tai lle mae 27 o'r 33 yn gweithredu rhestrau contractwr cymeradwy ar gyfer addasiadau. Mae awdurdodau lleol a chymdeithasau tai eraill yn tueddu i ddefnyddio contractau tendro untro, gan wahodd contractwyr i gynnig prisiau yn erbyn manyleb gan ddefnyddio'r un meini prawf â'r meini prawf y mae'n rhaid i rai ar restrau contractwyr cymeradwy eu bodloni. Yn ogystal â hyn, mae nifer fach o awdurdodau hefyd yn gweithredu cytundebau fframwaith.[12]

2.38 Pan fo awdurdodau lleol yn cynllunio i sefydlu neu adolygu eu rhestr o adeiladwyr cymeradwy, dylent agor y broses i'r holl ddarpar gontractwyr sy'n bodloni'r meini prawf cyhoeddedig i gael eu cynnwys. Dylai'r broses o ddethol contractwyr i'w cynnwys ar restrau cymeradwy fod yn gynhwysfawr o ran cwmpas. Dylai hefyd gynnwys contractwyr cyffredinol ac arbenigol, er mwyn rhoi digon o sicrwydd i awdurdodau lleol fod yr adeiladwyr a gymeradwyir ganddynt i wneud gwaith addasu yn briodol a chymwys i gyflawni'r gwaith. Dylai hynny gynnwys ystyriaeth o'u sefyllfa ariannol, atebolrwydd ac indemniad, a pherfformiad yn y gorffennol er mwyn barnu ynghylch ansawdd a phrydlondeb y gwaith.


12 Ar y cyfan, bydd cytundeb fframwaith yn rhoi mwy o hyblygrwydd i brynwyr ynghylch nwyddau neu wasanaethau a gaiff eu rhoi ar gontract o dan y fframwaith, yn nhermau maint a hefyd y manylion yn gysylltiedig â'r nwyddau a'r gwasanaethau perthnasol. Mae fframwaith aml-gyflenwr yn galluogi'r sefydliad sy'n contractio i ddewis o blith nifer o gyflenwyr er mwyn bodloni ei ofynion, gan helpu i sicrhau bod pob pryniant yn cynrychioli gwerth gorau.

2.39 Fodd bynnag, gwelsom nad yw'r prosesau ar gyfer achredu yn gynhwysfawr, ac nad ydynt yn rhoi sicrwydd bod awdurdodau'n gweithredu mewn modd effeithiol. Yn aml, ni fydd y broses o achredu wedi'i seilio ar asesiad ffurfiol. Er enghraifft, dim ond pedwar awdurdod lleol sy'n cynnal prosesau blynyddol lle gall contractwyr ymgeisio i fod yn aelodau o restrau cymeradwy, tra bo'r gweddill yn gweithredu systemau ad hoc lle gall contractwyr gyflwyno tendr neu ymgeisio i gael eu cynnwys ar unrhyw bryd. Mae rhai awdurdodau lleol yn defnyddio gwasanaethau ar-lein fel Construction Line[13] i ddilysu data allweddol fel atebolrwydd ac indemniad. Fodd bynnag, yn aml ni fydd hyn yn digwydd yn flynyddol nac yn ddeuflynyddol, ac mae'r wybodaeth yn am wedi dyddio. O ganlyniad i hynny, yn aml ni fydd gan sefydliadau cyflenwi ryw lawer o sicrwydd ynghylch sefyllfa ariannol cyfredol y contractwr a'i addasrwydd i gyflawni gwaith addasu.

2.40 Hyd yn oed heb ddefnyddio gwasanaethau ar-lein fel Construction Line, gall sefydliadau cyflenwi fod yn brin o safonau cyhoeddedig i gontractwyr cymeradwy, fel yr angen i gyflwyno a fetio yswiriant priodol a thystiolaeth o'r sefyllfa ariannol yn rheolaidd. Drwy sicrhau y cydymffurfir â'r safonau hyn, gall sefydliadau cyflenwi fod yn sicr bod y contractwyr sy'n cyflawni gwaith addasu yn briodol. Mae'r cyfyngiadau hyn yn cael eu hadlewyrchu yn ein harolwg o awdurdodau lleol a chymdeithasau tai a nodir yn Nangosyn 7 sy'n dangos nad yw'r ystod o feini prawf a ddefnyddir gan sefydliadau darparu i gontractwyr dethol yn gynhwysfawr. Er enghraifft, llai na hanner yr awdurdodau lleol a'r cymdeithasau tai sy'n ei gwneud hi'n ofynnol i gontractwyr ddarparu hyfforddiant ymwybyddiaeth o anabledd i'w staff.

13 Construction Line: y gronfa ddata cyn-gymhwyso genedlaethol ar gyfer asesu contractwyr sy'n cyflawni gwaith yn y diwydiant adeiladu.

Dangosyn 7: y meini prawf a ddefnyddir gan awdurdodau lleol a chymdeithasau tai i asesu a ddylid cynnwys cwmni ar y rhestr o gontractwyr cymeradwy, neu gymeradwyo adeiladwr sy'n cyflwyno tendr am waith




Ffynhonnell: Arolwg Swyddfa Archwilio Cymru o awdurdodau lleol a chymdeithasau tai. Mae'r siart yn asesu meini prawf y 22 o awdurdodau lleol a'r 33 o gymdeithasau tai ar gyfer gweithio gyda chontractwyr ac adeiladwyr.

2.41 O'n harolwg, gwelsom fod nifer fach o awdurdodau lleol a chymdeithasau tai yn defnyddio cytundebau fframwaith yn lle rhoi gwaith ar dendr. Mae'r cytundebau hyn yn galluogi contractwyr i sicrhau arbedion maint, ac mae rhai ohonynt yn rhoi sicrwydd ynghylch ansawdd y gwaith y gallent ei dderbyn. Mae'r berthynas hirdymor hefyd yn caniatáu i'r contractwr fuddsoddi adnoddau priodol a datblygu safonau uwch o ran crefft, a gall greu manteision eraill fel llai o gostau'n gysylltiedig â thrafodion; gwelliant parhaus gyda pherthnasoedd hirdymor sydd wedi'u hamlinellu'n glir a'u seilio a'r gontract; gwerth gwell a mwy o gyfoeth yn y gymuned; ac atebion sy'n canolbwyntio ar gwsmeriaid. Er enghraifft, mae dau awdurdod lleol wedi sefydlu cytundebau fframwaith pedair blynedd tra bo awdurdodau lleol a chymdeithasau tai eraill yn defnyddio GwerthwchiGymru.[14]

2.42 Mewn rhai awdurdodau lleol, ni fydd digon o gontractwyr ar gael, ac mae hynny'n achosi oedi cyn cyflawni addasiadau. Yn benodol, nodai awdurdodau gwledig yn bennaf, lle nad oedd ond ambell gontractwr adeiladu graddfa fawr, os o gwbl, or-ddibyniaeth ar gwmnïau adeiladu lleol llai y mae eu capasiti'n aml yn brin i ymdrin â threfniadau caffael newydd gan asiantaethau. Er gwaethaf yr anawsterau hyn wrth sicrhau adeiladwyr, gwelsom nad oedd awdurdodau'n mynd ati'n rhagweithiol i ehangu eu cronfa o gontractwyr, er mwyn gwella'r dewis, cyflymu'r ddarpariaeth ac ysgogi mwy o effeithlonrwydd. Yn aml, bydd syrfëwyr yn profi cyfraddau contractwyr ar y farchnad bob blwyddyn ac yn meincnodi'r rheiny yn erbyn rhestrau prisio safonol ar gyfer gwaith adeiladu, fel Spons.[15] Fodd bynnag, gwelsom fod swyddogion grantiau'n ansicr a oedd hynny'n sicrhau'r gwerth gorau am arian, gan fod cyfraddau'n gallu codi os bydd contractwyr yn brin.

14 Porth caffael ar ffurf gwefan yw GwerthwchiGymru a sefydlwyd gan Lywodraeth Cymru i helpu busnesau i ennill contractau yn y sector cyhoeddus ledled Cymru, a helpu'r sector cyhoeddus i hysbysebu a rheoli cyfleoedd tendro.

15 Mae Spons yn darparu gwybodaeth fanwl gywir am brisiau adeiladu sy'n berthnasol i broffesiynau neilltuol ar gyfer y DU. Mae ei Fynegai Tendro, a gaiff ei diweddaru drwy'r flwyddyn, yn rhoi darlun parhaus o realiti amgylchiadau newidiol y farchnad, ac yn cael ei haddasu i gyd-fynd â'r amgylchiadau hynny.

2.43 Mewn ambell ardal, nid yw'r awdurdod lleol yn rheoli contractwyr yn uniongyrchol. Yn lle hynny, mae'n dangos rhestr o gontractwyr cymeradwy i'r rhai sy'n ymgeisio am grant, ac yn gofyn i'r ymgeiswyr hynny ddewis a rheoli adeiladwyr eu hunain. Os yw'r ymgeisydd yn dewis rheoli adeiladwr yn uniongyrchol, neu os yw'n ofynnol iddo wneud hynny, mae'n bwysig i'r awdurdod lleol ystyried a yw'n dymuno darparu gwybodaeth i ymgeiswyr am gontractwyr ac adeiladwyr lleol i'w helpu i benderfynu ynghylch pwy i'w ddewis i wneud y gwaith. Mewn rhai awdurdodau, canfuom nad yw'r rhestr o gontractwyr a ddarperir i ymgeiswyr grant bob amser yn seiliedig ar ddadansoddiad cadarn o berfformiad, enw da, ansawdd a sgiliau. Mae'r rhain yn wendidau o bwys ac mae angen cryfhau'r trefniadau i ddiogelu ymgeiswyr. Dylai awdurdodau hefyd roi arweiniad ar sut i fetio adeiladwyr, er mwyn helpu ymgeiswyr i ddewis y contractwr cywir.


2.44 Bydd asiantaethau gwella cartrefi (AGC) yn cynnig cymorth ymarferol gyda gwaith adeiladu i berchnogion preswyl sy'n agored i niwed. Mae'r gwasanaeth a gynigir yn amrywio, ond fel arfer yn cynnwys cymorth i adnabod problemau adeiladu, canfod dulliau o'u datrys, dewis adeiladwr a sicrhau bod gwaith yn cael ei gwblhau'n effeithiol. Sefydliadau dielw annibynnol yw rhai o'r asiantaethau hyn, bydd eraill yn gweithredu'n fewnol yn yr awdurdod lleol gan ddefnyddio ffioedd a dynnir o'r DFG i dalu am y gost honno. Gwelsom fod 17 o'r 22 o awdurdodau lleol yn cynnig cefnogaeth AGC, a bod 15 o'r awdurdodau'n codi tâl gan yr ymgeisydd grant am y gwasanaethau hyn. Gan nad yw darpariaeth AGC ar gael ledled Cymru, rydym yn pryderu nad yw pobl anabl a phobl hŷn yn ymgeisio am DFGs gan nad ydynt yn gallu ymgysylltu'n uniongyrchol a rheol contractwyr ac adeiladwyr heb gefnogaeth eu hawdurdod lleol, neu eu bod yn amharod i wneud hynny.

2.45 Mae monitro a gwerthuso perfformiad wrth ddarparu addasiadau unigol yn elfen allweddol er mwyn sicrhau bod adeiladwyr yn darparu gwasanaethau cost-effeithiol o ansawdd da. Mae angen i sefydliadau cyflenwi sefydlu systemau priodol i gasglu digon o gudd-wybodaeth er mwyn gallu barnu ynghylch perfformiad, gweithredoedd ac ymddygiad contractwyr. Dylid sefydlu'r systemau hynny'n annibynnol ar y contractwr a'u defnyddio i farnu a ddylid parhau i ddefnyddio'r adeiladwr ar gyfer gwaith addasu pellach yn y dyfodol.

2.46 Gwelsom fod 19 o awdurdodau lleol a 21 o gymdeithasau tai yn adolygu perfformiad contractwyr ar bob addasiad yn barhaus; bydd un awdurdod a phum cymdeithas yn cynnal adolygiad chwarterol o berfformiad; a chwe chymdeithas yn gwneud hynny'n flynyddol. Fodd bynnag, nid yw dau awdurdod na phum cymdeithas dai yn gwerthuso perfformiad contractwyr o gwbl. Ar y cyfan, ystyriwn nad oes gan sefydliadau cyflenwi sydd yn gyfrifol am gyflenwi addasiadau drefniadau effeithiol bob amser i fonitro, adolygu a gwerthuso perfformiad adeiladwyr a chontractwyr.

2.47 Yn Nangosyn 8, isod ceir crynodeb o ganfyddiadau ein harolwg o awdurdodau lleol a chymdeithasau tai yn dadansoddi'r meini prawf a ddefnyddir ganddynt i adolygu perfformiad contractwyr. Mae'r rhan fwyaf o sefydliadau cyflenwi yn canolbwyntio ar adborth cwsmeriaid, ansawdd gwaith adeiladu a chyflymder y ddarpariaeth. Fodd bynnag, dim ond 11 o awdurdodau lleol sy'n ystyried cost y gwaith ac 13 sy'n ystyried cofnod iechyd a diogelwch a pherfformiad cyffredinol y contractwr. Yn ogystal â hynny, dywedodd dau awdurdod lleol a phum cymdeithas dai nad ydynt yn adolygu perfformiad contractwyr o gwbl. Mae hyn yn dangos nad yw pob asiantaeth yn rheoli ac yn adolygu perfformiad contractwyr yn erbyn ystod briodol o wybodaeth.


Dangosyn 8: y meini prawf a ddefnyddir gan awdurdodau lleol a chymdeithasau tai i asesu perfformiad a chontractwyr sy'n cyflawni gwaith addasu




Ffynhonnell: Arolwg Swyddfa Archwilio Cymru o awdurdodau lleol a chymdeithasau tai.

Rhan 3

## At ei gilydd, mae cyrff cyhoeddus yn cyfleu'r budd a ddaw yn sgil addasiadau yn glir, ond mae gwaith partneriaeth yn aneffeithiol er mwyn bodloni anghenion



3.1 Ers deng mlynedd ar hugain o leiaf, mae polisïau llywodraethau olynol Cymru a'r DU wedi cydnabod pwysigrwydd cynorthwyo pobl hŷn fregus a phobl anabl i fyw'n annibynnol yn eu cartrefi eu hunain y hytrach nag ysbytai neu sefydliadau preswyl. I'r rhan fwyaf o bobl hŷn ac anabl, nid darpariaeth newydd arbenigol sydd ei hangen i fodloni eu hanghenion tai, ond addasiadau i'w cartrefi presennol.

3.2 Yn y rhan hon o'n hadroddiad, byddwn yn archwilio data o'r cyfrifiad ac amcanestyniadau poblogaeth er mwyn mesur lefel gyffredinol y galw am addasiadau yng Nghymru. Byddwn hefyd yn adolygu polisïau cyrff cyhoeddus ynghylch addasiadau ac effeithiolrwydd trefniadau partneriaeth rhwng awdurdodau lleol, cymdeithasau tai, asiantaethau Gofal a Thrwsio a chyrff iechyd, er mwyn barnu i ba raddau y mae gwasanaethau'n llwyddo i fodloni'r anghenion cyfredol a chydweithio i ymdrin â'r cynnydd a ragwelir i'r galw. I gloi, byddwn yn adolygu'r trefniadau cyfredol ar gyfer cydweithio er mwyn barnu a yw pawb sydd angen cymorth yn elwa ar addasiadau.

## Yn ôl data'r cyfrifiad ac amcanestyniadau poblogaeth, bydd y galw am addasiadau'n parhau i gynyddu

3.3 Yn sgil hawliau pobl anabl a phobl hŷn i dderbyn cymorth ar gyfer addasiadau, caiff y gwasanaeth hwn ei lywio gan anghenion. Mae'n ddyletswydd statudol ar awdurdodau lleol i adolygu cyflwr y stoc tai a'r angen am dai yn eu hardal, ac mae ganddynt bwerau helaeth i ymyrryd os bydd cyflwr tai yn annerbyniol, neu os yw'r angen am dai heb ei fodloni. Yn ôl deddfwriaeth, mae'n rhaid i awdurdodau tai lleol hefyd[16] amcangyfrif yr angen tebygol am y gwasanaethau hyn a datblygu cynlluniau i'r cyflenwi ar lefel a fydd yn bodloni'r anghenion a nodwyd.


3.4 Yn ôl data'r cyfrifiad,[17] mae cyfran uwch o boblogaeth Cymru (7.8%) yn ystyried bod ganddynt afiechyd nag yn Lloegr (4.2%). Wrth gymharu, gwelir bod pobl Cymru yn salach nag yn holl ranbarthau Lloegr, ac eithrio Gogledd Ddwyrain Lloegr. Yng Nghymru, mae'r cyfyngiadau ar weithgarwch hefyd yn llawer uwch: dywedodd bron i 12% fod 'cyfyngu mawr' ar eu gweithgarwch a bron 11% fod 'rhywfaint o gyfyngu' ar eu gweithgarwch. Yng Nghymru, mae lefelau'r cyfyngiadau ar weithgarwch yn uwch nag yn unrhyw ranbarth yn Lloegr. Fel cyfran, mae gan Gymru hefyd fwy o bobl 55 oed a throsodd na Lloegr, ac mae cyfyngiadau ar weithgarwch yn fwy cyffredin ymhlith rhai sydd dros oed ymddeol.

16 Mae'r ddeddfwriaeth berthnasol yn cynnwys: Deddf Llywodraeth Leol a Thai 1989; Deddf Grantiau Tai, Adeiladu ac Adfywio 1996; Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio (Cymorth Tai) (Cymru a Lloegr) 2002 a'r canllawiau ategol, Cylchlythyr CCC 20/02; a Gorchymyn Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl (Uchafsymiau a Dibenion Ychwanegol) (Cymru) 2008 (Llywodraeth Cymru 2008a).

17 Iechyd Cyffredinol yng Nghymru a Lloegr: 2011 a chymhariaeth â 2001.

3.5 Mae cyfran y boblogaeth yng Nghymru sy'n ystyried bod eu hiechyd yn dda hefyd yn gostwng. Yn Nangosyn 9 gwelir bod nifer y bobl a ystyriai fod ganddynt afiechyd wedi cynyddu rhwng Cyfrifiadau 2001 a 2011 mewn 13 o awdurdodau lleol. Gwelwyd y cynnydd mwyaf ym Merthyr Tydfil, lle cafwyd dirywiad iechyd ar gyfradd o fwy na 10%.

Dangosyn 9: y newid canrannol yn nifer y bobl sydd yn ystyried bod ganddynt afiechyd yng Nghymru, fesul awdurdod lleol, rhwng 2001 a 2011




Ffynhonnell: Y Cyfrifiad, 2001 a 2011.

3.6 Dros yr ugain mlynedd nesaf, rydym yn disgwyl gweld cynnydd yn nifer y bobl yng Nghymru sy'n profi problemau ac anawsterau symudedd wrth gyflawni tasgau beunyddiol yn y tŷ. I grynhoi, dengys amcanestyniadau Llywodraeth Cymru ar raddfa Cymru gyfan y ceir cynnydd o tua 34% yn nifer y bobl dros 65 oed sy'n dal i'w chael hi'n anodd cyflawni tasgau yn y cartref, gan godi i 381,500, a chynnydd o 58% yn nifer y bobl sy'n cael anawsterau symud, gan gyrraedd 178,000 yn 2035. Mae Atodiad 4 a 5 yn darparu'r amcanestyniadau manwl o system Daffodil Llywodraeth Cymru[18] ar raddfa Cymru gyfan ac fesul ardal awdurdod lleol.

3.7 Gan adleisio'r cynnydd a ragwelir yn y galw am addasiadau yn amcanestyniadau Daffodil, mae mwyafrif y sefydliadau cyflenwi sy'n ymateb i'n harolygon yn nodi bod y galw am addasiadau tai yn cynyddu, a bod disgwyl i'r cynnydd hwnnw barhau yn y dyfodol. Mae un ar ddeg o'r 22 o awdurdodau lleol wedi gweld cynnydd yn y galw dros y tair blynedd diwethaf, ac mae un ar bymtheg ohonynt yn rhagweld twf yn y galw dro y tair blynedd nesaf. Yn yr un modd mae 22 o'r 33 o gymdeithasau tai wedi gweld cynnydd yn y galw, ac mae 27 ohonynt yn rhagweld y ceir cynnydd pellach yn y tair blynedd nesaf. Mae'r holl gyrff Gofal a Thrwsio wedi gweld cynnydd yn y galw, ac yn disgwyl i'r cynnydd hwnnw barhau.

## At ei gilydd, mae gan gyrff cyhoeddus ddealltwriaeth glir o bwysigrwydd addasiadau er mwyn cefnogi annibyniaeth. Fodd bynnag, mae sefydliadau'n parhau i gynllunio mewn seilo heb ganolbwyntio ryw lawer ar gydweithio nac integreiddio

3.8 Mae cyrff cyhoeddus yn cydnabod pwysigrwydd addasu tai er mwyn newid amgylchedd y cartref a galluogi pobl i fyw'n annibynnol, gyda phreifatrwydd, hyder ac urddas, neu ddychwelyd i sefyllfa felly, er eu budd eu hunain a'u teuluoedd. Gall addasiadau hefyd fod yn fuddiol iawn i sefydliadau lleol a chenedlaethol. Yn Nangosyn 10 isod ceir crynodeb o rai o'r buddiolwyr a'r buddion hyn.

18 System wedi'i seilio ar y we yw Daffodil. Fe'i datblygwyd gan y Sefydliad Gofal Cyhoeddus i Lywodraeth Cymru, ac mae'n cyfuno'r wybodaeth sydd ei hangen i gynllunio'r gofal, y gefnogaeth a'r gwasanaethau tai fydd eu hangen yn y dyfodol dros yr 20 mlynedd nesaf i blant, oedolion a phobl hŷn.

## Dangosyn 10: enghreifftiau o fuddiolwyr a buddion waith addasu

### Buddion a buddiolwyr addasiadau

**Adran Gwaith a Phensiynau**

Atal anafiadau sy'n arwain at fudd-daliadau salwch a diweithdra byrdymor neu hirdymor

Pobl anabl neu bobl hŷn yn fwy tebygol o gael swydd, a gofalwyr hefyd wrth i bobl anabl a phobl hŷn ddatblygu i fod yn fwy annibynnol

**Pobl anabl neu bobl hŷn**

Mwy o urddas, preifatrwydd ac annibyniaeth, gwella iechyd (corfforol a meddyliol), lefel uwch o gynhwysiant cymdeithasol

Cyfleoedd gwell am addysg a chyflogaeth

**Perthnasau sy'n gofalu**

Llai o straen corfforol a meddyliol

Mwy o ryddid a thawelwch meddwl

**Darparwyr gofal cymdeithasol**

Llai o alw ar ofalwyr - naill ai llai o oriau neu lai o risg y bydd gofalwyr yn cael eu hanafu

Atal mynediad i ofal preswyl

**Darparwyr iechyd**

Llai o ddamweiniau i'w trin

Llai o dderbyniadau i'r ysbyty

Llai o gostau'n gysylltiedig â chyffuriau ac amser meddygon teulu ar gyfer iselder a salwch corfforol

**Aelodau eraill o'r teulu**


Gwell cynhwysiant cymdeithasol

Gwell cyfleoedd addysgol

Ffynhonnell: Swyddfa Archwilio Cymru.

3.9 Ar gyfer gwaith addasu, bydd cael y golau strategol cywir yn creu sail glir ar gyfer penderfynu sut i roi gwasanaethau yn nhrefn blaenoriaeth, a sut ac ymhle i gyfeirio adnoddau. Mae'r rhan fwyaf o sefydliadau cyflenwi yn deall yn glir sut mae eu gwaith addasu yn rhoi cymorth cadarnhaol i bobl anabl a phobl hŷn. Er enghraifft, drwy ein harolygon, gwelsom fod gan yr holl awdurdodau lleol a'r mwyafrif helaeth o gymdeithasau tai bolisïau ac addasiadau, sy'n amlygu pwysigrwydd addasu er mwyn parhau i fyw'n annibynnol. Yn yr un modd, mae'r mwyafrif o gyrff hefyd ddealltwriaeth glir o'r modd y mae addasiadau'n cefnogi'r broses o ryddhau cleifion o'r ysbyty ac yn cyfrannu at wella llesiant. Fodd bynnag, dengys canfyddiadau ein harolwg fod rhai cyfleoedd i wella'r cwmpas a'r ffocws mewn rhai sefydliadau. Yn benodol, gwella polisïau er mwyn bodloni anghenion gofalwyr yn well ac osgoi neu leihau'r galw am wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol, a'r costau cysylltiedig - Dangosyn 11.

Dangosyn 11: barn awdurdodau lleol a chymdeithasau tai ynghylch pwrpas a chwmpas eu polisïau ar gyfer penderfynu ynghylch addasiadau a'u cyflenwi




Ffynhonnell: Swyddfa Archwilio Cymru, arolwg o awdurdodau lleol a chymdeithasau tai.

3.10 Ar gyfer awdurdodau lleol, y prif bolisi ar gyfer darparu addasiadau yw eu Polisi Adnewyddu Tai, a ddylai nodi'r sail a'r rhesymeg ar gyfer gweithgarwch tai ac adnewyddu. O'n hadolygiad o Bolisïau Adnewyddu Tai, gwelsom fod gan awdurdodau lleol ddealltwriaeth glir ar y cyfan o bwysigrwydd a budd addasu tai, a'u bod wedi gosod nodau ac amcanion priodol i gefnogi eu gweithgarwch buddsoddi tai. Er enghraifft, mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr wedi datgan y nod o 'alluogi pobl hŷn a phobl anabl, a phobl sy'n dioddef cam-drin domestig, lle bo'n briodol, i aros yn eu cartrefi eu hunain a byw'n annibynnol', ac mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn canolbwyntio ar alluogi 'pobl sy'n agored i niwed i aros gartref yn ddiogel a chyffyrddus'.

3.11 Fodd bynnag, dangosai ein hadolygiad hefyd rai diffygion yn y polisïau cyfredol ar gyfer addasiadau. Dylai polisïau adnewyddu tai wneud mwy na seilio blaenoriaethau ar berfformiad y gorffennol a phrofiadau'r blynyddoedd cynt wrth ymateb i'r galw a gyflwynir drwy geisiadau am wasanaethau. Yn aml, gwelsom fod achos strategol gwael wedi'i gyflwyno, a diffyg pwyslais ar yr angen am addasiadau a gwybodaeth am anghenion yn y dyfodol. Er bod awdurdodau a phartneriaid yn dal data gweithgarwch ar berfformiad yn y gorffennol wrth ddarparu addasiadau, nid ydynt yn gallu gweld a yw'r gweithgarwch hwn yn bodloni'r holl angen am addasiadau tai. Ar ben hynny, nid yw cyrff cyhoeddus mewn llawer o ardaloedd yn cyfuno gwybodaeth er mwyn cael dealltwriaeth well o'r galw yn y dyfodol.

3.12 Ceir rhai enghreifftiau da o gydweithio rhwng asiantaethau er mwyn ystyried y galw cyffredinol am addasiadau - er enghraifft, yng Nghaerdydd drwy'r Gofrestr Cartrefi Hygyrch, ac yn Abertawe a Wrecsam. Fodd bynnag, eithriad yw'r ymagweddau hyn yn aml. Hyd yn oed lle bo cyrff yn cydweithio er mwyn cael dealltwriaeth well o'r galw, nid yw'r data'n aml yn cael eu defnyddio i ddangos sut mae awdurdodau'n bwriadu bodloni anghenion pobl anabl a phobl hŷn yn y tymor canolig i'r tymor hir. O ran asesu anghenion, y data a nodir ac a ddefnyddir amlaf wrth gynllunio'n strategol a mapio anghenion ar gyfer gwasanaethau'r dyfodol yw gwybodaeth am dueddiadau a gwariant yn y gorffennol, ond dim ond yng nghyd-destun perfformiad y sefydliad ei hun. Anaml iawn y bydd asiantaethau'n casglu gwybodaeth a data digon manwl i roi trosolwg strategol o berfformiad a gweithgarwch cyfredol er mwyn goleuo angen yn y dyfodol.

| Arfer Da - Prosiect Cartrefi Hygyrch Caerdydd |
| --- |
| Mae'r prosiect wedi datblygu Cofrestr Tai yn benodol i bobl á nam corfforol sydd yn chwilio am lety newydd. Drwy gyllid grant cychwynnol gan Lywodraeth Cymru, bu modd sefydlu partneriaeth rhwng asiantaethau tai, gofal cymdeithasol, iechyd a gwirfoddol yng Nghaerdydd. Nododd y bartneriaeth anghenion a dewisiadau tai'r cleientiaid a datblygodd gronfa ddata o eiddo sydd eisoes wedi'i addasu a gynigir gan holl gymdeithasau tai Caerdydd, a phroses 'baru' i ddyrannu eiddo addasedig. Mae'r canlyniad i gleifion yn well o'i gymharu â'r opsiynau sydd ar gael i rai sydd  mewn llety anaddas. O safbwynt landlordiaid, mae'r amseroedd gosod wedi gwella ac mae'r eiddo sydd wedi'i addasu eisoes yn cael ei ddefnyddio mewn modd mwy effeithiol. Drwy ganfod anheddau sydd eisoes wedi'u haddasu'n briodol a'u paru â chleient ag angen, llwyddodd y prosiect i wneud y defnydd gorau o adnoddau presennol. Darparodd y prosiect gronfa ddata o anghenion pobl ag anableddau corfforol, a ddefnyddiwyd yn sail ar gyfer darpariaeth ar lefel strategol. Mae prosiect Cartrefi Hygyrch Caerdydd yn dangos ffocws cynyddol ar sicrhau gwerth am arian drwy ddatblygu systemau integredig yn y brifddinas sy'n cwmpasu gwaith yr holl gymdeithasau tai a'r awdurdod lleol. |

3.13 Cyfeiriodd ambell ymatebwr i'n harolygon at fathau eraill o ddata yr oeddent yn dibynnu arnynt i gynllunio gwasanaethau, sef yn bennaf: data o'r cyfrifiad; atgyfeiriadau o'r gwasanaethau cymdeithasol; arolwg o gyflwr stoc y sector preifat; gwybodaeth o asesu'r farchnad dai leol; a system Daffodil Llywodraeth Cymru. Fodd bynnag, ni chyfeiriodd yr un Cyngor nac RSL at ddata a ddelir gan gyrff iechyd - sy'n adlewyrchu'r ffaith nad yw sefydliadau tai nac iechyd yn teimlo eu bod yn cymryd rhan mewn trafodaethau strategol ar addasu. At ei gilydd, daethom i'r casgliad nad oes gan gyrff cyhoeddus ddulliau cadarn o ragfynegi'r galw yn y dyfodol.

## Nid yw trefniadau partneriaeth wedi'u hintegreiddio'n ddigonol er mwyn sicrhau bod addasiadau'n esgor ar y budd mwyaf

3.14 Er mwyn asesu ar gyfer addasiadau tai a darparu'r addasiadau hynny, mae angen i sefydliadau ta, gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol gydweithio i sicrhau bod modd bodloni anghenion pobl sydd yn aml yn agored iawn i niwed, a gwella'u hansawdd bywyd. Mae partneriaethau effeithiol yn galluogi sefydliadau cyflenwi i wneud y defnydd gorau o'u hadnoddau i sicrhau cymaint o effaith a gwerth am arian ag sy'n bosibl. Er mwyn bod yn wirioneddol effeithiol, dylai sefydliadau felly geisio alinio gweithgarwch a gweithio mewn partneriaeth. Fodd bynnag, o ystyried yr amrywio eang yn ymagweddau'r 68 o wahanol asiantaethau sy'n cyflawni gwaith addasu, a phenderfyniadau Llywodraeth Cymru a deddfwriaeth y DU ynghylch y cyllid a'r canllawiau sydd yn tanategu gweithgarwch, gall y system gyfredol atgyfnerthu anghydraddoldeb rhwng pobl anabl a phobl hŷn.

3.15 Cynhaliom arolwg gyda'r sefydliadau cyflenwi sy'n gyfrifol am gyflenwi addasiadau yng Nghymru - awdurdodau lleol, cymdeithasau tai a chyrff Gofal a Thrwsio - ynghylch graddfa ac ystod y trefniadau cydweithio a phartneriaeth cyfredol. Nodir y canfyddiadau manwl yn Atodiadau 6, 7 ac 8. I grynhoi, gwelsom mai ychydig o awdurdodau lleol sydd wedi sefydlu fforymau partneriaeth ffurfiol neu weithgorau traws-sector, ac mai cysylltiad anffurfiol yw'r sail ar gyfer trefniadau partneriaeth fel arfer. Mae'n fwy tebygol y ceir cydweithio rhwng awdurdodau lleol ac Asiantaethau Gofal a Thrwsio, na chydweithio â chymdeithasau tai, y trydydd sector, gwasanaethau eraill yr awdurdod lleol neu gyrff iechyd.

3.16 Ni fydd sefydliadau cyflenwi bob amser yn edrych ar eu gwaith addasu o safbwynt yr holl adnoddau, sydd yn ystyried yr holl arian sydd ar gael, ac a ddefnyddir o fewn ardal benodol. Drwy alinio a chyfuno cyllidebau, bydd modd i bartneriaid gydweithio i ystyried eu cyllidebau ac alinio eu gweithgareddau er mwyn cyflawni nodau a chanlyniadau cytunedig, gan barhau i fod yn gwbl atebol a chyfrifol am eu hadnoddau eu hunain. Gall cydweithio arwain at ganlyniadau gwell i bobl leol ac ysgogi gwell gwerth am arian. O ystyried y cyfyngiadau ar gyllid cyhoeddus, mae'n hanfodol i gyrff cyhoeddus alinio cyllidebau lle bo modd er mwyn cyflenwi gwasanaethau mwy effeithlon ac effeithiol sydd yn bodloni anghenion dinasyddion yn well.

3.17 Er enghraifft, gwelsom arferion cydweithio gwael rhwng staff dyrannu tai a swyddogion grant, er mwyn gwella'r defnydd o gartrefi sydd eisoes wedi'u haddasu. Bydd polisïau'n aml yn canolbwyntio ar eiddo yn hytrach na'r cleient, ac anaml y bydd hynny'n cael ei gysylltu'n strategol â sefydliadau eraill ac anghenion ehangach pobl anabl a phobl hŷn. Mae hyn yn wir er gwaethaf Fframwaith Gweithredu Llywodraeth Cymru ar gyfer Byw'n Annibynnol, sy'n ymrwymo i wella mynediad at dai addasedig a hygyrch i bobl anabl. Mae'r Fframwaith yn nodi Deddf Tai (Cymru) 2014 a'r defnydd o Gofrestrau Tai Hygyrch fel cyfleoedd allweddol i gyflwyno gwelliannau[19]. Yn rhy aml, ni fydd ymgeiswyr yn cael eu paru â chartrefi wedi'u haddasu drwy gofrestrau cartrefi hygyrch. Yn lle hynny, mae polisïau addasu yn parhau i ganolbwyntio ar waith sefydliadau unigol, ac fel arfer yn trafod prosesau ar gyfer rheoli a phenderfynu ynghylch ceisiadau, cymeradwyo a chyflenwi grantiau, neu waith ar eiddo landlord tai cymdeithasol.

19 Llywodraeth Cymru, **Fframwaith Gweithredu ar gyfer Byw'n Annibynnol, Mesurau Canlyniad 2014-15**, 2014

3.18 Ychydig o awdurdodau lleol sydd yn meddu ar Bolisïau Adnewyddu Tai integredig a chynhwysfawr sydd yn cysylltu penderfyniadau ar fuddsoddi â defnydd gwell o dai sydd eisoes wedi'u haddasu. Canfu adroddiad diweddar gan Shelter Cymru fod cymdeithasau tai a chanddynt ymagweddau cynhwysfawr at dai addasedig yn fwy tebygol o integreiddio cyllid a gwneud defnydd gwell o eiddo addasedig.[20] Ni welsom ryw lawer o enghreifftiau lle'r oedd sefydliadau cyflenwi yn mabwysiadu ymagwedd gyfannol at gyllid, gan gysylltu DFGs â chartrefi addasedig sy'n bodoli eisoes a gwariant lleol ar PAGs, y Rhaglen Addasiadau Brys ac adnoddau'r landlord ei hun.

3.19 Ni ellir ond creu perthnasoedd effeithiol drwy hyfforddiant priodol, drwy dreulio amser yn cydweithio ac yn integreiddio adnoddau, prosesau a systemau er mwyn darparu gwasanaeth di-dor i bobl anabl a phobl hŷn. Gan nad yw'r cyllid bob amser wedi'i gydgysylltu neu ei alinio, gwelsom fod adnoddau'n cael eu gwasgaru'n rhy eang, a bod hynny'n effeithio ar allu sefydliadau cyflenwi i dargedu cyllid i sicrhau'r effaith fwyaf bosib. Dim ond saith awdurdod lleol sy'n cyfuno cyllid â Gofal a Thrwsio, ac ni cheir unrhyw sefyllfa lle cyfunir cronfeydd awdurdodau lleol a chymdeithasau tai. Prin yw'r enghreifftiau hefyd o gydleoli staff i ddarparu gwasanaeth ar ffurf siop un stop. Dim ond saith awdurdod lleol sydd wedi cyfuno Therapi Galwedigaethol a thimau addasu tai er mwyn creu un man cyswllt i wneud gwasanaethau'n fwy hygyrch. Mae ein harolwg o Therapyddion Galwedigaethol yn adlewyrchu hyn, gyda 67% o ymatebwyr yn nodi nad ydynt yn gweithio mewn tîm integredig ar draws iechyd a gofal cymdeithasol.

3.20 Ceir mwy o gydweithio ar draws ffiniau proffesiynol mewn rhai meysydd. Er enghraifft, meddygfeydd teulu yn gweithio gyda Therapyddion Galwedigaethol, gan arwain at ganlyniadau gwell i bobl sydd angen addasiadau tai. Gwelsom hefyd enghreifftiau da o gydweithio'n agosach â gweithwyr iechyd proffesiynol, ee presgripsiynu cymdeithasol[21] â Gofal a Thrwsio, ac mae rhai awdurdodau lleol yn dechrau gwella'r trefniadau cydweithio drwy greu timau addasu tai integredig.

20 Ymchwil Gymdeithasol Llywodraeth Cymru 2013, **Tai cymdeithasol hygyrch yng Nghymru: adolygiad o'r systemau asesu, cofnodi a pharu**,[Saesneg yn unig] (gwefan Shelter Cymru)

21 Dull sy'n galluogi gwasanaethau gofal sylfaenol i atgyfeirio cleifion a chanddynt anghenion cymdeithasol, emosiynol neu ymarferol i amrywiaeth o wasanaethau lleol anghlinigol yw presgripsiynu cymdeithasol. Y sector gwirfoddol a chymunedol sydd yn aml yn darparu'r gwasanaethu hyn. Gan gydnabod bod iechyd pobl wedi'i seilio'n bennaf ar ystod o ffactorau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol, mae presgripysiynu cymdeithasol yn anelu i fodloni anghenion pobl mewn modd cyfannol. Y mae hefyd yn anelu i gynorthwyo unigolion i fod â rheolaeth well dros eu hiechyd eu hunain.


3.21 Gall cydleoli gwasanaethau wella'r trefniadau i greu un man cyswllt a gwneud gwasanaethau'n fwy hygyrch. Bydd hefyd yn galluogi sefydliadau i gynyddu argaeledd addasiadau a mynediad cwsmeriaid atynt hyd yr eithaf. Mae ambell awdurdod lleol, gan gynnwys Abertawe a Chaerdydd, wedi datblygu ymagweddau integredig at addasiadau tai sydd yn cyfuno grantiau, syrfëwyr adeiladu a Therapyddion Galwedigaethol mewn timau unigol. Fodd bynnag, anaml y bydd gwasanaethau'n cael eu cydleoli i wella darpariaeth addasiadau tai. Mae'r rhan fwyaf o sefydliadau sy'n ymwneud â darparu addasiadau tai yn parhau i weithio mewn modd ynysig gan ganolbwyntio ar eu cyfrifoldebau unigol yn hytrach na chydweithio mewn modd cyfannol i ymdrin ag anghenion tai ac iechyd pobl.

## Gall addasiadau helpu pobl i osgoi gorfod mynd i'r ysbyty a chyflymu'r broses o ryddhau cleifion, ond yn rhy aml nid yw'r manteision hyn yn cael eu gwireddu

3.22 Er bod cyfraniad addasiadau at leihau'r risg o godymau a damweiniau eraill yn y cartref, ac wrth atal derbyniadau i'r ysbyty a chyflymu'r broses o ryddhau cleifion yn tyfu, nid yw pwysigrwydd addasiadau bob amser yn cael ei adlewyrchu mewn trefniadau partneriaeth rhwng cyrff tai, iechyd a gofal cymdeithasol. Ar wahân i Therapyddion Galwedigaethol, nododd gweithwyr iechyd proffesiynol ei bod hi'n anodd ymdrin â systemau'r gwahanol awdurdodau lleol a chymdeithasau tai ar gyfer gweinyddu, cymeradwyo a darparu addasiadau tai. Gan mai ymatebol yw mwyafrif yr addasiadau (yn dilyn argyfwng) yn hytrach nag ataliol (cyn i'r argyfwng ddigwydd), yn aml ni fydd yr ymgysylltiad na'r berthynas rhwng sefydliadau sy'n cyflawni addasiadau a chyrff iechyd wedi'u datblygu'n dda iawn.

3.23 Er bod mwyafrif y cyrff iechyd yn teimlo eu bod yn deall sut y gallai addasiadau gyfrannu at y broses o ryddhau cleifion o'r ysbyty, ac atal derbyniadau y gellid eu hosgoi, nododd llawer bryderon ynghylch prydlondeb gwaith addasu. Yn benodol, nododd ymatebwyr iechyd bryderon yn gysylltiedig â'r graddfeydd amser a'r prosesau ar gyfer cyflenwi addasiadau; natur gymhleth ac anghyson yr ystod o wasanaethau a oedd ar gael o fewn ardal; y cyllid a oedd ar gael, a hygyrchedd y cyllid hwnnw; a'r angen i hyfforddi ac addysgu gweithwyr iechyd proffesiynol fel bod mwy o bobl yn defnyddio gwasanaethau a bod mwy o bobl sydd angen cymorth yn gallu cyrchu/ymgeisio am wasanaethau. Yng nghanfyddiadau ein harolwg cyrff iechyd ar gynllunio i ryddhau cleifion a nodir yn Nangosyn 12, gwelir bod bron hanner yr ymatebwyr o gyrff iechyd yn teimlo mai 'anaml' os o gwbl yr oeddent yn cymryd rhan mewn trafodaethau ynghylch sut i wneud defnydd gwell o addasiadau, a gwella mynediad atynt.

Dangosyn 12: dealltwriaeth ac ymwybyddiaeth cyrff iechyd o systemau a darpariaeth addasiadau tai




Ffynhonnell: Swyddfa Archwilio Cymru, Arolwg Cynllunio i Ryddhau Cleifion

3.24 Dim ond hanner y 22 o awdurdodau lleol a deimlai fod eu bwrdd iechyd yn gwneud y defnydd gorau o addasiadau tai. Yn debyg, ni wyddai dros hanner y cymdeithasau tai yn ein harolwg (17 o 33 o gymdeithasau) pa mor integredig neu effeithiol oedd y trefniadau cydweithio rhwng cyrff cyhoeddus wrth gyflenwi addasiadau. Ceir rhai enghreifftiau o gydweithio effeithiol rhwng cyrff iechyd ac awdurdodau lleol er mwyn gwneud y defnydd gorau o addasiadau. Drwy ei Gyd-dîm Rhyddhau Cleifion o'r Ysbyty, mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn helpu i gyflymu a gwella'r broses o ryddhau cleifion o'r ysbyty. Mae'r awdurdod lleol wedi cyhoeddi canllawiau ar-lein 'Gadael yr Ysbyty', ac mae ei waith gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan yn sicrhau gwelliannau o ran cynllunio a pherfformiad rhyddhau cleifion. Gwelsom ymagweddau tebyg yng Nghaerdydd a Bro Morgannwg, gyda'r gwasanaeth rhyddhau ar y cyd, a amlygir gennym fel arfer da.

| Gwasanaeth Rhyddhau Integredig - Bwrdd Iechyd Caerdydd a'r Fro |
| --- |
| Mae ymagwedd gydweithredol ac integredig at addasiadau tai gan Fwrdd Iechyd Caerdydd a'r Fro, partneriaid o'r awdurdod lleol a Gofal a Thrwsio yn gostwng nifer yr achosion o oedi cyn trosglwyddo gofal a briodolir i resymau tai.<br>Mae'r gwasanaeth rhyddhau cleifion integredig yn defnyddio stoc o gartrefi wedi'u haddasu fel llety cam i lawr dros dro er mwyn helpu i wella llif cleifion o'r ysbytai. Yr awdurdod lleol sy'n rheoli'r llety hwn, ond mae'r bwrdd iechyd yn gweithio gyda'r awdurdod lleol i ganfod achosion priodol i'w hatgyfeirio i'r cartrefi addasedig hyn. Fe'i cynigir fel dewis arall i bobl sydd yn aros i gael eu rhyddhau o'r ysbyty, ond nad yw eu cartrefi wedi'u haddasu eto i gyd-fynd â'u hanghenion.<br>Mae dau swyddog cymorth tai a gyflogir gan yr awdurdod lleol wedi'u lleoli yn y bwrdd iechyd ac yn gweithredu fel cyswllt rhwng y bwrdd iechyd a'r cynghorau bob dydd, gan ddarparu gwybodaeth fewnol arbenigol ac ymarferol am y system addasu tai. Arbenigwyr mewnol sy'n adnabod y system yr ydynt i bob pwrpas, ac fe gynhelir cyfarfodydd wythnosol rhwng y swyddogion cymorth tai hyn a staff y bwrdd iechyd, lle caiff rhestr o oddeutu 200 o gleifion ei dadansoddi er mwyn pennu beth fydd eu hanghenion o ran tai ar ôl eu rhyddhau o'r ysbyty.<br>Yn ogystal â hynny, mae'r Bwrdd Iechyd, Cyngor Dinas a Sir Caerdydd, Cyngor Bro Morgannwg a Gofal a Thrwsio yn gweithredu storfa gyfarpar ar y cyd. Mae hyn yn helpu i leihau'r galw am addasiadau drwy eu galluogi i ymdrin yn gyflym â mân waith addasu. Ystyrir bod hyn yn hanfodol i'r bwrdd iechyd gan ei fod yn canolbwyntio llawer mwy ar atal pobl rhag gorfod mynd i'r ysbyty yn y lle cyntaf. |

3.25 At ei gilydd, fodd bynnag, mae ein canfyddiadau'n atgyfnerthu'r casgliad a gawsom, sef bod y diffyg ffocws strategol ar addasiadau mewn cyrff cyhoeddus yn parhau, gyda'r cyrff hynny'n canolbwyntio ar ymatebion penodol o fewn y sefydliad, yn hytrach nag ystyried sut i gydweithio ag eraill i fodloni anghenion pobl anabl neu bobl hŷn orau.

## Rhan 4

# Mae dealltwriaeth cyrff cyhoeddus o fudd llesiannol addasiadau tai yn y tymor hir yn brin, ac mae lle sylweddol o hyd i ddiwygio'r system er mwyn mesur a gwella cydraddoldeb a llesiant



4.1 Mae ar gyrff cyhoeddus angen gwybodaeth amrywiol ac o ansawdd am berfformiad er mwyn pennu eu cynlluniau strategol i'r dyfodol. Bydd ystod dda o ddata perfformiad hefyd yn galluogi cyrff cyhoeddus i farnu ynghylch perfformiad gwasanaethau a chanfod lle mae angen gwelliannau. Dylai gwybodaeth am berfformiad gynnwys mesurau ariannol a mesurau eraill, a galluogi cyrff cyhoeddus i werthuso eu llwyddiant, fel arfer drwy wneud cynnydd tuag at eu nodau tymor hir.

4.2 Yn y rhan olaf o'r adroddiad hwn, byddwn yn adolygu'r trefniadau cyfredol sydd ar waith i oruchwylio perfformiad y 68 o sefydliadau cyflenwi wrth ymdrin ag oddeutu £60 miliwn o wariant blynyddol ar addasiadau. Byddwn yn ystyried cadernid y trefniadau hyn a'r newidiadau cynlluniedig i fframwaith rheoli perfformiad adolygiad Hwyluso gan Lywodraeth Cymru. Byddwn hefyd yn ystyried lefelau bodlonrwydd defnyddwyr gwasanaeth, ac a yw'r ymagweddau cyfredol at werthuso perfformiad yn canolbwyntio digon ar ddeall beth yw effaith dewisiadau buddsoddi ar lesiant unigolion.

## Roedd y rhai a dderbyniodd waith addasu ac a ymatebodd i'n harolwg yn fodlon iawn â'r gwaith hwnnw

4.3 Ar y cyfan, rhoddodd y bobl a gafodd eu cynnwys yn ein harolwg a oedd wedi derbyn addasiadau tai adborth cadarnhaol ynglŷn â'r profiad, gyda thri chwarter yr ymatebwyr yn barnu bod y prosesau ymgeisio naill ai'n ardderchog neu'n dda. Yn ogystal â hynny, mae 91% o ymatebwyr yr arolwg yn fodlon â'r amser a gymerwyd i gyflawni eu haddasiadau. Yn bwysig, roedd 89% o'r rhai a oedd wedi derbyn addasiadau yn yr arolwg yn teimlo bod y gwaith a gyflawnwyd yn eu galluogi i gyflawni tasgau beunyddiol yn rhwyddach, ac 85% fod y gwaith wedi cynyddu eu hyder a'u hannibyniaeth. Nododd 78% o ymatebwyr hefyd eu bod yn cael llai o ddamweiniau neu godymau yn eu cartref yn sgil yr addasiadau yr oeddent wedi'u derbyn, ac roedd 61% yn teimlo bod angen llai o gymorth a chefnogaeth arnynt i fyw'n annibynnol. Mae'r rhain i gyd yn ganlyniadau da sy'n amlygu'r effaith dda y gall addasiadau ei chael o ran gwella llesiant pobl sy'n agored i niwed, er gwaethaf rhai achosion o oedi a phroblemau'n gysylltiedig â systemau, a nodir uchod.

4.4 Canfuwyd rhai achosion pwysig o amrywio hefyd yn ein harolwg. Ar y cyfan, mae lefelau bodlonrwydd â phrosesau ymgeisio yn uwch ymhlith y rhai syn derbyn DFGs na'r rhai sy'n derbyn PAGs. Er bod sefydliadau cyflenwi yn dda ar y cyfan am roi'r manylion cyswllt cywir i bobl anabl a phobl hŷn sy'n gwneud cais am addasiadau, mae ansawdd y gefnogaeth a'r cymorth parhaus a ddarperir i ymgeiswyr ar hyd oes yr addasiad yn llai effeithiol. Bydd profiadau pobl dan 55 oed o addasiadau yn llai cadarnhaol na grwpiau eraill o ymgeiswyr, yn enwedig y rhai 75 oed a throsodd. Ar ben hynny, nododd 65% o bobl anabl a phobl hŷn yn ein harolwg nad oedd sefydliadau cyflenwi yn darparu cymorth na chefnogaeth pan oedd yn ofynnol iddynt gyfrannu'n ariannol at gost addasu. Nododd 76% hefyd mai ychydig o ddewis os o gwbl a gân ynghylch yr addasiadau yr oeddent yn eu derbyn yn y pen draw.

## Mae gwendidau wrth oruchwylio perfformiad yn atgyfnerthu'r anghydraddoldeb o fewn y system a achosir gan wahanol ffynonellau cyllid

### Dim ond data dangosyddion perfformiad ar gyfer Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl a ddarperir gan awdurdodau lleol ar hyn o bryd, felly nid oes modd cymharu perfformiad ar draws yr holl sefydliadau cyflenwi

4.5 Er gwaethaf yr amrywiaeth eang o wahanol ffynonellau cyllid ar gyfer addasiadau tai, dim ond ystod fechan o ddangosyddion perfformiad a adroddir yn gyhoeddus ar raddfa genedlaethol. Mae'r rhain yn cynnwys gwaith awdurdodau lleol wrth gyflenwi DFGs, ac yn cynnwys yr amser cyfartalog a gymerir, nifer y DFGs a gwblheir fesul daliadaeth, a'r swm a gaiff ei wario yn y flwyddyn ariannol. Mae'r wybodaeth a adroddir ar berfformiad awdurdodau lleol yn benodol yn trafod gweithgarwch DFGs ym mhob un o'r 22 o awdurdodau lleol. Fodd bynnag, nid yw'n cynnwys gwariant na gweithgarwch addasu mewn tai cyngor, yn achos yr 11 o awdurdodau sydd wedi cadw tai cymdeithasol. Nid yw'r dangosyddion perfformiad felly ond yn rhoi darlun rhannol o wariant a pherfformiad fesul llywodraeth leol.

4.6 Ni cheir unrhyw ddangosyddion perfformiad a adroddir yn genedlaethol ar gyfer cymdeithasau tai ynghylch cyflenwi PAGs, er bod Llywodraeth Cymru'n casglu peth ddata ar wariant a nifer y PAGs a gyflenwir ym mhob blwyddyn ariannol. Yn yr un modd, er bod Llywodraeth Cymru yn derbyn gwybodaeth am berfformiad Gofal a Thrwsio mewn perthynas â'r Rhaglen Addasiadau Brys, ni chaiff yr wybodaeth honno ei chyhoeddi.

4.7 Mae'r diffyg dangosyddion perfformiad a adroddir yn genedlaethol yn golygu nad yw'n bosibl cynnal gwerthusiad llawn, na chael dealltwriaeth lawn o berfformiad neu effeithiolrwydd asiantaethau unigol, nac effeithlonrwydd ac effaith y system addasu yn ei chyfanrwydd. Nid yw'r sefydliadau cyflenwi unigol na Llywodraeth Cymru yn gallu gweld perfformiad cymharol y system addasu yn ei chyfanrwydd. Dim ond ar gyfer 55% o wariant blynyddol ar addasiadau ac 14% o'r bobl anabl ar bobl hŷn sy'n derbyn addasiadau gan sefydliadau cyflenwi yr adroddir perfformiad cyfredol. Mae hyn yn ei gwneud hi'n anodd barnu pa mor dda y mae sefydliadau'n perfformio a barnu ynghylch effaith gadarnhaol addasiadau ar fywydau pobl.

## Yn y Dangosydd Perfformiad Cenedlaethol ar gyfer Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl, gwelir gostyngiad yn hyd cyfartalog yr amser a gymerir i gwblhau addasiadau, ond nid yw'r fethodoleg yn gadarn, ac mae angen diweddaru'r Dangosydd Perfformiad

4.8 Mae'r dangosydd perfformiad allweddol ar gyfer DFGs yn cyfrif nifer cyfartalog y diwrnodiau a gymerir gan awdurdodau lleol i gyflenwi grantiau unigol. Fodd bynnag, gall mesurau perfformiad sy'n asesu niferoedd cyfartalog guddio perfformiad awdurdodau lleol. Nid yw ychwaith yn mesur effaith buddsoddi, na'r budd a ddaw ohono. Yn 2016-17, cymerwyd 224 o ddiwrnodiau ar gyfartaledd i awdurdodau lleol ledled Cymru gyflenwi DFGs, sy'n welliant ar berfformiad o gymharu â'r flwyddyn gynt, lle cafwyd cyfartaledd o 241 o ddiwrnodiau.[22] O gymharu hyn â 2009-10, mae'r amser cyfartalog a gymerir i gyflenwi DFGs wedi gostwng o tua 350 o ddiwrnodiau.

22 Llywodraeth Cymru (gwefan StatsCymru), **HOUS1301: Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl**, Chwefror 2017


4.9 Yn 2016-17, roedd nifer cyfartalog y diwrnodiau a gymerwyd i gyflenwi DFG yn amrywio rhwng 126 o ddiwrnodiau ym Mhowys a 356 o ddiwrnodiau yn Sir Fynwy. Mae hyn yn golygu bod rhywun sy'n anabl neu'n hŷn yn Sir Fynwy yn disgwyl wyth mis yn hirach ar gyfartaledd nag ym Mhowys. At ei gilydd, gostyngodd deg awdurdod yr amser cyfartalog a gymerir i gyflenwi DFGs o gymharu a'r flwyddyn gynt, a chynyddodd yr amser hwnnw ar gyfartaledd mewn 12 o awdurdodau eraill Fodd bynnag, rhwng 2009-10 a 2016-17, mae cyfradd wella'r awdurdodau lleol sy'n perfformio orau wedi cyrraedd penllanw. Mae hyn yn awgrymu bod lefel optimwm o berfformiad y gall sefydliadau cyflenwi ei chyrraedd ac, o ganlyniad i hynny, nad oes rhyw lawer o bosibilrwydd o wella amseroldeb y tu hwnt i'r awdurdodau lleol sy'n perfformio orau - Dangosyn 13 ar y dudalen nesaf.

4.10 Yn adolygiad Llywodraeth Cymru o Addasiadau ar gyfer Byw'n Annibynnol[23] yn 2015, nodwyd nad yw dangosyddion perfformiad ond yn canolbwyntio ar fewnbwn, allbwn ac amseroldeb, ac nad ydynt yn trafod materion pwysig fel bodlonrwydd cwsmeriaid a'r budd i'r unigolyn anabl neu hŷn yn sgil yr addasiad. Mae nifer o awdurdodau lleol yn pryderu bod rhai sefydliadau cyflenwi yn manipiwleiddio'r modd y maent yn cofnodi data, ac nad ydynt felly'n adrodd ar eu perfformiad yn fanwl gywir.

4.11 Er enghraifft, ni chofnodir yr amser gwirioneddol a gymerir i gyflenwi DFGs o'r cyswllt cyntaf cychwynnol (y dyddiad 'dechrau') hyd at gwblhau'r addasiadau (y dyddiad 'diweddu' gwirioneddol), ac mae potensial i chwarae efo'r ffigurau, lle gall awdurdodau 'stopio'r cloc' ar wahanol adegau yn y gwahanol gamau er mwyn gwella perfformiad. Yn wir, dyma oedd casgliad Llywodraeth Cymru yn ei adolygiad yn 2015: ‘Nid yw'r modd y mae gwybodaeth am Ddangosyddion Perfformiad yn cael ei chasglu ar hyn o bryd yn gyson ar draws y 22 o awdurdodau lleol yng Nghymru, er gwaethaf canllawiau clir gan Lywodraeth Cymru. Awgrymodd rhai rhanddeiliaid fod rhai awdurdodau lleol yn anwybyddu'r canllawiau'n fwriadol er mwyn gwneud i'r amseroedd cyflenwi ymddangos yn well.' Mae Llywodraeth Cymru yn ymdrin â'r problemau'n gysylltiedig a diffinio a mesur perfformiad yn gyson drwy ei hadolygiad 'Hwyluso'.

23 Ymchwil Gymdeithasol Llywodraeth Cymru, **Adolygiad o Addasiadau ar gyfer Byw'n Annibynnol**, Ionawr 2015

Dangosyn 13: nifer cyfartalog y diwrnodiau calendr a gymerwyd i gyflenwi Grant Cyfleusterau i'r Anabl, fesul awdurdod lleol o 2009-10 hyd 2015-16




Ffynhonnell: NSIW0001: Casgliad data Dangosyddion Strategol Cenedlaethol (DSC), Llywodraeth Cymru.

## Drwy 'Hwyluso' mae Llywodraeth Cymru'n ymdrin â gwendidau wrth adrodd ar berfformiad, ond ceir bylchau yn y system newydd

4.12 Mae Llywodraeth Cymru, drwy ei hadolygiad 'Hwyluso' wedi ceisio ymdrin â rhai o'r gwendidau hyn drwy gyflwyno system newydd ar gyfer monitro ac adrodd ar berfformiad wrth gyflenwi addasiadau tai. Ar gyfer y system newydd, a gyflwynwyd yn gynnar ym mis Ionawr 2017, mae angen i awdurdodau lleol a chymdeithasau tai gofnodi'r un gyfres graidd o wybodaeth yn gysylltiedig â phob DFG a PAG a gyflenwir ganddynt. Yn Nangosyn 14 isod, gwelir yr wybodaeth newydd am berfformiad a sefydlwyd drwy'r adolygiad 'Hwyluso', y mae'n ofynnol i awdurdodau lleol a chymdeithasau tai ei chyflwyno i Lywodraeth Cymru.

Dangosyn 14: y safonau ar gyfer adrodd ar berfformiad a ddatblygwyd ar gyfer Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl a Grantiau Addasiadau Ffisegol o dan gynllun Hwyluso Llywodraeth Cymru

**y safonau ar gyfer adrodd ar berfformiad a ddatblygwyd ar gyfer Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl a Grantiau Addasiadau Ffisegol o dan gynllun Hwyluso Llywodraeth Cymru**

| | |
|---|---|
| Pob sefydliad | Oed yr ymgeisydd.<br>Daliadaeth tai.<br>Dyddiad y cyswllt cyntaf â'r sefydliad cyflenwi.<br>Ffynhonnell yr atgyfeiriad.<br>A oes angen Therapydd Galwedigaethol neu asesydd hyfforddedig.<br>Dyddiad pan nodwyd bod angen gwaith addasu (gan Therapydd Galwedigaethol neu asesydd hyfforddedig).<br>Categori'r gwaith addasu, (bach, canolig neu fawr).<br>Dyddiad cwblhau'r gwaith addasu.<br>A yw'r addasiad wedi'i gwneud hi'n bosibl i ryddhau claf o'r ysbyty.<br>Cyfanswm cost y gwaith (gan gynnwys TAW).<br>Ffynhonnell y cyllid.<br>Y canlyniad a ragwelir i'r unigolyn.<br>Bodlonrwydd cyffredinol y cwsmer. |
| Yn benodol i awdurdodau lleol sy'n cyflenwi DFG | A yw'n ofynnol i'r unigolyn wneud cyfraniad ariannol.<br>Os oes angen cyfraniad, beth yw'r swm hwnnw. |
| Yn benodol i gymdeithasau tai sy'n cyflenwi PAG | Dyddiad atgyfeirio'r Grant Addasiadau Ffisegol i'w gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru.<br>Y dyddiad pan gymeradwyodd Llywodraeth Cymru'r Grant Addasiadau Ffisegol. |

Ffynhonnell: Adolygiad Swyddfa Archwilio Cymru o wybodaeth gan Lywodraeth Cymru

4.13 Gwelsom rai gwendidau yn y fframwaith Hwyluso newydd. I ddechrau, er bod Hwyluso yn ceisio gwella'r oruchwyliaeth dros berfformiad a gwariant awdurdodau lleol a chymdeithasau tai, nid yw cwmpas yr oruchwyliaeth hon wedi cael ei ehangu i gynnwys buddsoddi mewn addasiadau i dai awdurdod lleol neu dai LSVT. Mae'r ymagwedd newydd felly'n hepgor tua 25% o'r holl fuddsoddiad, ac oddeutu 30% o'r bobl anabl a'r bobl hŷn sy'n derbyn addasiadau bob blwyddyn. Er bod y safonau perfformiad newydd a gyflwynwyd drwy Hwyluso yn gam ymlaen o ran galluogi sefydliadau cyflenwi i farnu ynghylch effeithiolrwydd eu systemau rheoli, nid yw rhai o'r prif achosion wrth wraidd oedi a nodwyd yn ein hadolygiad wedi'u cynnwys. Yn benodol, data yn gysylltiedig â chaniatâd cynllunio neu gymeradwyaeth gan gwmnïau cyfleustodau; oedi a achosir yn sgil dewisiadau neu benderfyniadau'r ymgeisydd/aelwyd; bod data cydraddoldeb yn cynnwys ethnigrwydd yr ymgeisydd; oedi a achosir oherwydd anhawster wrth ddewis contractwyr;  a'r amser a gymerir a chanlyniad yr asesiad o addasrwydd cartref i'w addasu. Bydd y bylchau hyn yn cyfyngu ar ddefnyddioldeb y data a gesglir ac ni fydd yn caniatáu i Lywodraeth Cymru a sefydliadau cyflenwi gynnal gwerthusiad llawn o bob agwedd ar y system addasu gymhleth.

## Wrth reoli perfformiad, canolbwyntir yn ormodol ar fewnbwn ac allbwn sefydliadau unigol yn hytrach na gwella'r canlyniadau a'r budd ataliol a ddaw yn sgil addasiadau


4.14 Yn y gorffennol, ystyriwyd mai cyrff tai a oedd yn gyfrifol am addasu adeiladau ac, i raddau llai, gwasanaethau cymdeithasol mewn awdurdodau. Yn gynyddol, cydnabyddir bod sefydliadau iechyd, cynllunio, pensaernïol, addysg a hamdden, ymhlith eraill, yn gyfrifol am addasiadau. Mae'n bwysig felly bod gwasanaeth addasu modern yn coleddu ac yn defnyddio sgiliau a phrofiad ystod eang o ddisgyblaethau wrth gyflawni gwaith, ond hefyd yn canolbwyntio ar ddeall y budd ehangach sy'n gysylltiedig â gwaith addasu, yn ogystal ag effeithlonrwydd systemau cyflenwi.

4.15 Yn ein hadolygiad, gwelsom fod sefydliadau cyflenwi, wrth reoli a gwerthuso perfformiad, yn canolbwyntio'n bennaf ar fewnbwn ac allbwn yn gysylltiedig â chyflenwi addasiadau. Yn Nangosyn 15 (ar y dudalen nesaf) ceir crynodeb o ymagweddau cyfredol awdurdodau lleol a chymdeithasau tai at fonitro a gwerthuso perfformiad. Ceir diffyg ffocws o hyd ar fudd ehangach addasiadau i bobl anabl a phobl hŷn, neu i wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol, oherwydd canolbwyntir yn ormodol ar ddarpariaeth ar y naill ben a'r llall a chost grantiau. Mae'r gwaith monitro cyfredol yn canolbwyntio'n ormodol ar fecanwaith cyflenwi addasiadau, heb ganolbwyntio digon ar effaith, llesiant a'r budd ehangach wrth fuddsoddi. Mae cyrff cyhoeddus yn ei chael hi'n anodd gwerthuso perfformiad oherwydd y gwendidau hyn.

4.16 Yn ôl Deddf Cydraddoldeb 2010 (Deddf 2010), y mae'n dyletswydd ar landlord neu reolwr eiddo i wneud addasiadau rhesymol, ac mae'n rhaid iddo wneud hynny os bydd rhywun anabl neu hŷn o dan anfantais oherwydd eu hanabledd.[24] Mae Deddf 2010 yn cydnabod bod addasiadau'n wasanaethau pwysig sy'n hyrwyddo cyfle cyfartal mewn modd cadarnhaol ac yn cefnogi llesiant pobl anabl a phobl hŷn. Mae llawer o awdurdodau lleol a chymdeithasau tai wedi gosod amcanion polisi i gynorthwyo pobl ag anableddau i fyw'n annibynnol. Er eu bod yn amlygu cydraddoldeb fel amcan polisi allweddol, gwelsom mai ychydig o sefydliadau cyflenwi sy'n casglu ac yn gwerthuso ystod ddigonol o ddata i ddangos a sicrhau mynediad teg at wasanaethau. Dim ond saith o'r 22 o awdurdodau lleol ac 11 o'r 33 o gymdeithasau tai a ymatebodd i'n harolwg a ddywedodd eu bod yn casglu gwybodaeth cydraddoldeb y rhai sy'n derbyn addasiadau tai. Mae hyn yn wendid mawr yn y trefniadau cyfredol.

24 Nid yw Deddf Cydraddoldeb 2010 yn ei gwneud yn ofynnol i landlord gyflawni newidiadau sy'n effeithio ar y strwythur neu a fyddai'n newid y cartref yn sylweddol ac yn barhaol - er enghraifft, diwygio'r cynllun mewnol trwy dynnu waliau neu ledu drysau. Ceir rhai pethau y mae'n rhaid iddynt eu gwneud, fodd bynnag, er mwyn addasu'r cartref i unigolyn anabl neu hŷn os yw gwneud hynny'n rhesymol.

Dangosyn 15: y data a gesglir gan awdurdodau lleol a chymdeithasau tai i fesur a gwerthuso eu perfformiad wrth gyflenwi addasiadau




Ffynhonnell: Arolwg Swyddfa Archwilio Cymru o awdurdodau lleol a chymdeithasau tai.

4.17 Yn rhan 3 o'r adroddiad hwn (Dangosyn 10 ar dudalen 59), nodwyd rhai o'r buddion a'r buddiolwyr yn sgil addasiadau. Ar gyfer teuluoedd unigol, roedd y rhain yn cynnwys urddas, annibyniaeth, iechyd (corfforol a meddyliol), lefelau uwch o gynhwysiant cymdeithasol a chyfleoedd gwell i bobl anabl a phobl hŷn gael addysg a chyflogaeth; llai o straen corfforol a meddyliol a mwy o ryddid a thawelwch meddwl i berthnasau sy'n gofalu. Mae cyrff iechyd hefyd yn tynnu sylw at y ffaith bod cyflenwi addasiadau'n cyfrannu at leihau oedi wrth ryddhau cleifion ac yn helpu i atal derbyniadau i'r ysbyty neu leoliadau gofal preswyl yn sgil llai o ddamweiniau neu godymau yn y cartref. Er bod llawer o awdurdodau lleol a chymdeithasau tai yn cydnabod pwysigrwydd addasiadau er mwyn galluog pobl anabl a phobl hŷn i fyw'n annibynnol, ac er mwyn atal y galw am wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol, ychydig o dystiolaeth a welsom fod sefydliadau cyflenwi yn cynnal gwerthusiad cadarn o'r buddion ehangach a thymor hwy hyn yn sgil addasu.

4.18 Bydd amrywiaeth o awdurdodau lleol, cymdeithasau tai ac asiantaethau Gofal a Thrwsio yn cynnal arolygon bodlonrwydd ar ôl cyflawni gwaith addasu gyda phobl anabl a phobl hŷn. Mae'r defnydd a wneir o adborth defnyddwyr gwasanaeth hefyd yn amrywio'n eang, ac fe welsom gyfleoedd i ddefnyddio'r adborth hwn i atgyfnerthu dealltwriaeth a gwella'r ddarpariaeth. Fel rheol, cynhelir arolygon yn syth ar ôl cwblhau'r gwaith adeiladu ffisegol, ac nid yw hynny'n rhoi cyfle i ystyried yn llawn pa fudd a geir yn ei sgil i bobl anabl a phobl hŷn. Gan amlaf, ni chaiff canlyniadau allweddol fel annibyniaeth, llesiant, gostyngiadau mewn damweiniau neu godymau eu casglu.

4.19 Er enghraifft, er bod bron yr holl sefydliadau cyflenwi yn defnyddio canfyddiadau arolygon er mwyn helpu i farnu ansawdd gwaith adeiladu a pherfformiad contractwyr, llai na hanner yr awdurdodau lleol a'r cymdeithasau tai sy'n defnyddio'r data i archwilio perfformiad drwy bwyllgorau craffu neu fyrddau llywodraethu, ac ychydig dros hanner ohonynt sy'n eu defnyddio i wella cydweithio. Mae tua hanner y cymdeithasau tai a'r awdurdodau lleol yn defnyddio adborth defnyddwyr gwasanaeth gynnal trafodaeth â Llywodraeth Cymru er mwyn canfod cyfleoedd i wella darpariaeth a pherfformiad. Yn olaf, nid yw chwe chymdeithas dai yn gwerthuso nac yn adrodd ar berfformiad o gwbl. Ar hyn o bryd, dengys ein dadansoddiad fod llawer o gyfyngiadau ar y gallu i ddefnyddio data i farnu ynghylch perfformiad a chefnogi penderfyniadau yn y dyfodol mewn perthynas ag addasiadau.

# Atodiadau



# Atodiad 1: Methodoleg Astudio

## Adolygu deunydd darllen

Rydym wedi adolygu amrywiaeth eang o ddogfennau a chyfryngau, gan gynnwys:

- dogfennau polisi a chanllaw Llywodraeth Cymru;
- cynlluniau a strategaethau awdurdodau lleol ar gyfer Adnewyddu Tai; a
- gwaith ymchwil a chanllawiau eraill perthnasol gan y Shelter Cymru, CLILC a chyrff ymchwil.

## Cyfweliadau Cenedlaethol

Cynhaliwyd cyfweliadau â chynrychiolydd o Goleg Brenhinol y Therapyddion Galwedigaethol, Tai Pawb, Iechyd Cyhoeddus Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, Llywodraeth Cymru a Tai Cymunedol Cymru.

## Dadansoddi data ac ystadegau

Rydym wedi casglu a dadansoddi amrywiaeth eang o ganlyniadau dangosyddion perfformiad a data cyllidebol sydd ar gael ar-lein yn y Swyddfa Ystadegau Gwladol ac yn StatsCymru.

Dadansoddwyd data gwariant yr holl awdurdodau lleol, cymdeithasau tai ac asiantaethau Gofal a Thrwsio yng Nghymru.

## Gwaith maes mewn awdurdodau lleol a chymdeithasau tai

Ymwelwyd â chwe awdurdod lleol a phedair cymdeithas dai yng Nghymru yn 2016-17. Mae'r awdurdodau lleol a ddewiswyd yn cynrychioli cymysgedd o awdurdodau dinesig, trefol a gwledig, ac awdurdodau yn y cymoedd, sydd ar wasgar ledled Cymru. Roedd y pedair cymdeithas dai a ddewiswyd yn cynnwys tair cymdeithas gymunedol draddodiadol, ac un gymdeithas dai LSVT. Dyma safleoedd y gwaith maes:

- Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili
- Cymdeithas Tai Cymunedol Caerdydd
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
- Cartrefi Melin
- Tai Gogledd Cymru
- Cyngor Dinas Casnewydd
- Cyngor Sir Penfro
- Cyngor Sir Powys
- Cymdeithas Dai'r Cymoedd i'r Arfordir

Yn ystod yr ymweliadau, buom yn cyfweld ag amrywiaeth o staff. Yn ogystal â hynny, buom yn adolygu dogfennau manwl ar gyfer Cyngor Sir Gwynedd, Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen a Chyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam.

## Arolygon a chasglu data

Cynhaliom amrywiaeth o arolygon ar-lein, a chasglu data, gan gynnwys y canlynol:

- Therapyddion Galwedigaethol sy'n gweithio gyda Choleg Brenhinol y Therapyddion Galwedigaethol, gan dderbyn 71 o ymatebion;
- 12 o sefydliadau'r GIG, cymysgedd o fyrddau iechyd a sampl o ysbytai, gan gynnwys holl ardaloedd Bwrdd Iechyd Cymru;
- pob un o'r 22 o awdurdodau lleol yn trafod cyflenwi addasiadau, gan gynnwys gwybodaeth benodol am yr 11 o awdurdodau sydd wedi cadw eu stoc tai cymdeithasol;
- y 33 o brif gymdeithasau tai yn trafod rheoli a chyflenwi addasiadau, gan gynnwys y 22 sy'n derbyn arian Grant Addasiadau Ffisegol, a'r 11 o gymdeithasau LSVT; a'r
- 13 o asiantaethau Gofal a Thrwsio ynghylch cyflenwi'r Rhaglen Addasiadau Brys a gwaith strategol i gyflenwi addasiadau.

Comisiynwyd arolwg dros y ffôn hefyd, lle cwblhawyd 521 o arolygon gyda phobl anabl a phobl hŷn a dderbyniodd Grant Cyfleusterau i'r Anabl (DFG) neu Grant Addasiadau Ffisegol (PAG) yn 2015-16. Roedd y sampl a ddefnyddiwyd ar gyfer yr arolwg yn cynnwys pob ardal yng Nghymru a chyllid DFGs yn ogystal â chyllid PAG.

# Atodiad 2: Diffiniad o gymdeithasau tai ac asiantaethau Gofal a Thrwsio

| Sefydliad | Cylch Gwaith | Cwmpas |
|---|---|---|
| Cymdeithasau Tai | I gael eu derbyn fel cymdeithas dai, mae'n rhaid i sefydliadau fodloni sawl amod, gan gynnwys bod unrhyw arian dros ben yn cael ei gadw gan y sefydliad i'w gymhwyso i ddibenion tai cymdeithasol. Dylai'r sefydliad weithredu rheolaeth o safon uchel ar dai, busnes a chyllid. Mae'n rhaid i aelodaeth o'r Bwrdd fod yn wirfoddol, ac ni cheir rhoi tâl i Gyfarwyddwyr anweithredol. Dylai hefyd fod yn annibynnol ar sefydliadau eraill, gan gynnwys uchafswm o 20% o berchnogaeth neu gynrychiolaeth awdurdod lleol ar Fyrddau Rheoli. | Mae dwy gymdeithas dai ar hugain yn cyflenwi Grantiau Addasiadau Ffisegol i'w cartrefi ac yn darparu tai ar rent ym mhob ardal awdurdod lleol yng Nghymru. |
| Trosglwyddo Gwirfoddol Graddfa Fawr (LSVT) | Caiff cymdeithasau tai LSVT eu creu yn sgil trosglwyddo perchnogaeth ar stoc awdurdod lleol ar ôl i'r mwyafrif o denantiaid gytuno i hynny drwy bleidlais. Prif nodweddion LSVT yw bod tenantiaid sy'n trosglwyddo yn cael cynnig buddion eraill fel gwarant rhent, rhaglenni buddsoddi stoc a hawliau fel 'tenantiaid sicr'. Mae'n rhaid i'r landlord newydd fod wedi'i gofrestru gyda Llywodraeth Cymru, gan gydymffurfio â'r gofynion ar gyfer cymdeithasau tai cymunedol neu draddodiadol. Ariennir y broses o drosglwyddo drwy gymysgedd o arian cyhoeddus a phreifat. | Un ar ddeg o gymdeithasau tai LSVT sy'n ymwneud â'r ardaloedd awdurdod lleol canlynol: Blaenau Gwent; Pen-y-bont ar Ogwr; Ceredigion; Conwy; Gwynedd; Merthyr Tudful; Sir Fynwy; Castell-nedd Port Talbot; Casnewydd; Rhondda Cynon Taf; a Thorfaen. |
| Gofal a Thrwsio | Corff elusennol cenedlaethol yw Gofal a Thrwsio Cymru. Mae'n ceisio sicrhau bod gan bobl hŷn gartrefi saff a diogel sydd yn cyd-fynd â'u hanghenion. Ers 2002-03, mae Llywodraeth Cymru wedi ariannu Gofal a Thrwsio i gyflenwi'r Rhaglen Addasiadau Brys genedlaethol. | Mae 13 o asiantaethau Gofal a Thrwsio yn trafod 22 o awdurdodau lleol yng Nghymru. |

Ffynhonnell: Dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru o grantiau a chyllid ar gyfer addasiadau

# Atodiad 3: Y pum llwybr ariannu cyhoeddus ar gyfer addasiadau yng Nghymru

| Y pum llwybr ariannu cyhoeddus ar gyfer addasiadau yng Nghymru |
|---|
| **Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl**<br>O dan Ddeddf Grantiau Tai, Adeiladu ac Adfywio 1996, bydd awdurdodau lleol yn darparu Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl (DFGs). Grantiau gorfodol yw'r rhain sydd ar gael i helpu pobl anabl a phobl hŷn i barhau i fyw'n annibynnol yn eu cartrefi eu hunain. Gall perchnogion preswyl, landlordiaid yn ogystal â thenantiaid awdurdod lleol, rhent preifat neu gymdeithas dai wneud cais am DFG.<br>Mae Deddf Grantiau Tai, Adeiladu ac Adfywio 1996 yn creu'r sail ar gyfer darparu DFGs. Mae Rheoliadau Grantiau Adnewyddu Tai 1996 (Cymru) yn gosod y meini prawf a ddefnyddir i brofi adnoddau ariannol ac uchafswm y grant y gall awdurdodau lleol ei dalu ar gyfer gwaith addasu, sef £36,000. Mae gan awdurdodau lleol bwerau dewisol i ddarparu cyllid ar gyfer addasiadau, gwaith trwsio a gwella o dan Orchymyn Diwygio Rheoleiddio (Cymorth Tai) (Cymru a Lloegr) 2002. Gall awdurdodau ddarparu cymorth o dan y Gorchymyn hwnnw ar ffurf grant, ond yr hyn a gynigir yn aml yw benthyciad. Mae gan Awdurdodau Lleol eu polisïau eu hunan ynghylch lefel a ffurf y cymorth dewisol a gynigir ganddynt, a'r amodau y mae'n rhaid i unigolyn eu bodloni er mwyn cymhwyso. Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ganllawiau atodol ar adnewyddu tai (NAfW 20/02) i gyd-fynd â'r Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio. Diweddarodd Llywodraeth Cymru y canllawiau hynny yn 2010.<br>Mae DFGs yn amodol ar brawf modd, ac mae cyfraniad ymgeiswyr at gost y gwaith yn dibynnu ar lefel eu hincwm, eu harbedion a'u treuliau yn ôl yr asesiad. Mae'n ddyletswydd ar awdurdodau lleol i gynnal yr asesiadau hynny. Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru'n eithrio teuluoedd â phlant neu bobl ifanc anabl dibynnol dan 19 rhag gorfod sefyll prawf modd. Cyn cyflwyno DFG, mae'n rhaid i awdurdod tai lleol ei fodloni ei hun bod y gwaith yn 'angenrheidiol a phriodol' er mwyn bodloni anghenion yr unigolyn anabl neu hŷn, a'u bod yn 'rhesymol ac yn ymarferol' yn dibynnu ar oedran a chyflwr yr eiddo. Wrth ddod i benderfyniad, mae angen i awdurdodau ystyried y canlynol yn gysylltiedig â'r DFG:<br>• a oes angen y DFG er mwyn gallu gweithredu cynllun gofal fydd yn galluogi preswylydd anabl neu hŷn i barhau i fyw mor annibynnol ag sy'n bosibl yn ei gartref ei hun; a<br>• bodloni, hyd y gellir, anghenion asesedig yr unigolyn anabl neu hŷn, gan ystyried ei anghenion meddygol a chorfforol. |
| **Grantiau Addasiadau Ffisegol**<br>Mae Llywodraeth Cymru'n darparu Grantiau Addasiadau Tai (PAGs) i gymdeithasau tai er mwyn addasu cartrefi i'w tenantiaid lle nodwyd bod angen cymorth.Ni chaiff tenantiaid cymdeithasau tai ymgeisio am y cyllid fel unigolyn. Swyddogion Llywodraeth Cymru sy'n cymeradwyo holl gyllid PAG. Ar hyn o bryd, mae 22 o'r prif gymdeithasau tai yn derbyn cyllid PAG. |

| Y pum llwybr ariannu cyhoeddus ar gyfer addasiadau yng Nghymru |
| --- |
| **Y Cyfrif Refeniw Tai yn ariannu addasiadau i dai awdurdod lleol**<br>Cyfrif wedi'i neilltuo yng Nghronfa Gyffredinol awdurdod lleol yw'r Cyfrif Refeniw Tai (CRT), sy'n golygu nad oes gan awdurdodau lleol ar y cyfan unrhyw ddisgresiwn i drosglwyddo symiau o arian i mewn iddo neu allan ohono. Mae'r eitemau sydd i'w credydu i'r CRT a'u debydu ohono wedi'u rhagnodi mewn statud. Mae'r rhain yn cynnwys gwariant ac incwm yn gysylltiedig ag eiddo sydd wedi'i restru yn adran 74 o Ddeddf Llywodraeth Leol a Thai 1989 ac Atodlen 4 o Ddeddf 1989 (fel y'i diwygiwyd) sy'n nodi'r eitemau debyd a chredyd sydd i'w cofnodi yn y CRT. Mae eitemau debyd a ganiateir yn cynnwys gwariant ar waith trwsio, cynnal a chadw a rheoli, gwariant cyfalaf a rhenti, ardrethi, trethi a chostau eraill. Mae cost addasu wedi'i chynnwys fel maes gweithgarwch y gellir buddsoddi ynddo. Er bod modd i denantiaid ymgeisio am gymorth ariannol i addasu eu cartrefi, fel arfer bydd y landlord awdurdod lleol yn darparu ac yn ariannu addasiadau yn ei stoc ei hun. |
| **Cymdeithasau tai Trosglwyddo Gwirfoddol Graddfa Fawr (LSVT)**<br>Nid yw PAGs ar gael i'r 11 o gymdeithasau tai a gafodd eu creu drwy drosglwyddo stoc tai o awdurdod lleol. Gall cymdeithasau tai LSVT naill ai wneud cais i awdurdodau lleol am DFG neu ddefnyddio eu cyllid eu hunain i addasu cartrefi. Ni chaiff tenantiaid cymdeithasau trosglwyddo stoc ymgeisio am gyllid fel unigolion ar gyfer gwaith addasu, Maent felly'n dibynnu ar eu landlord i gytuno i addasu eu cartref. Mae Llywodraeth Cymru'n ei gwneud hi'n ofynnol i gymdeithasau tai LSVT nodi'r buddsoddiad a ragwelir mewn addasiadau tai ar y ddogfen gynnig pan fydd tenantiaid yn pleidleisio a ydynt am gefnogi trosglwyddo stoc ai peidio. Os cefnogir trosglwyddo stoc, a bod y tenantiaid yn trosglwyddo o'r awdurdod lleol i landlord cymdeithas dai newydd, bydd yn rhaid ariannu cost addasiadau o gyllidebau cynnal a chadw'r gymdeithas trosglwyddo stoc yn hytrach na defnyddio PAGs ar gyfer hynny. Fodd bynnag, mae rhai sefydliadau bellach wedi canfod bod y buddsoddiad a ragwelwyd ganddynt yn annigonol er mwyn bodloni'r galw cynyddol ymhlith eu tenantiaid am addasiadau tai. Nid oes angen i gymdeithasau tai LSVT dderbyn cymeradwyaeth oddi wrth Lywodraeth Cymru, ac nid oes yn rhaid iddynt ychwaith gydymffurfio â meini prawf PAG Llywodraeth Cymru. |
| **Rhaglen Addasiadau Brys (RRAP)**<br>mae Llywodraeth Cymru wedi ariannu asiantaethau Gofal a Thrwsio i gyflawni'r Rhaglen Addasiadau Brys (RRAP) ers 2002-03. Mae'r rhaglen yn unigryw i Gymru. Mae'r RRAP yn galluogi asiantaethau Gofal a Thrwsio i gyflawni mân waith addasu fel canllawiau, er mwyn galluogi pobl i ddychwelyd yn ddiogel o'r ysbyty i'w cartrefi eu hunain, gan wella'r broses o ryddhau cleifion o'r ysbyty. Mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i'r addasiadau hyn gael eu cwblhau cyn pen 15 diwrnod gwaith; fodd bynnag, gellir cyflawni addasiadau ar frys mewn ymateb i argyfwng. Nid yw'r RRAP ond ar gael i berchnogion preswyl a thenantiaid rhent preifat. Mae Gofal a Thrwsio wedi ceisio ehangu'r cwmpas i gynnwys daliadaethau eraill, ond nid yw Llywodraeth Cymru wedi cymeradwyo'r estyniad hwn eto. |

Ffynhonnell: Dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru o grantiau a chyllid ar gyfer addasiadau.

# Atodiad 4: Cyfanswm y boblogaeth 65 oed a throsodd y rhagwelir na fyddant yn gallu ymdopi ag un dasg yn y cartref ar eu pen eu hunain

| Awdurdod Lleol | 2015 | 2020 | 2025 | 2030 | 2035 | newid % |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Blaenau Gwent | 5,232 | 5,632 | 6,162 | 6,760 | 7,390 | 29.20% |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 11,108 | 12,548 | 14,212 | 16,063 | 17,861 | 37.81% |
| Caerffili | 12,976 | 14,565 | 16,441 | 18,462 | 20,452 | 36.55% |
| Caerdydd | 20,619 | 22,551 | 25,365 | 28,933 | 32,677 | 36.90% |
| Sir Gaerfyrddin | 16,966 | 18,857 | 21,163 | 23,681 | 25,891 | 34.47% |
| Ceredigion | 7,006 | 7,780 | 8,666 | 9,516 | 10,181 | 31.19% |
| Conwy | 12,853 | 13,951 | 15,324 | 16,884 | 18,324 | 29.86% |
| Sir Ddinbych | 8,764 | 9,738 | 10,862 | 12,128 | 13,293 | 34.07% |
| Sir y Fflint | 12,134 | 13,912 | 15,820 | 17,880 | 19,796 | 38.70% |
| Gwynedd | 11,133 | 11,928 | 12,918 | 13,997 | 14,942 | 25.49% |
| Ynys Môn | 6,977 | 7,725 | 8,591 | 9,412 | 10,088 | 30.84% |
| Merthyr Tudful | 4,285 | 4,751 | 5,336 | 6,026 | 6,704 | 36.08% |
| Sir Fynwy | 8,778 | 10,033 | 11,370 | 12,909 | 14,300 | 38.62% |
| Castell-nedd Port Talbot | 11,332 | 12,321 | 13,658 | 15,182 | 16,532 | 31.45% |
| Casnewydd | 10,412 | 11,187 | 12,316 | 13,672 | 15,154 | 31.29% |
| Sir Benfro | 11,990 | 13,381 | 14,874 | 16,461 | 17,798 | 32.63% |
| Powys | 13,831 | 15,775 | 17,931 | 20,216 | 22,222 | 37.76% |
| Rhondda Cynon Taf | 17,468 | 19,131 | 21,163 | 23,388 | 25,537 | 31.60% |
| Abertawe | 19,132 | 20,851 | 22,954 | 25,240 | 27,388 | 30.14% |

| Awdurdod Lleol | 2015 | 2020 | 2025 | 2030 | 2035 | newid % |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Torfaen | 7,313 | 8,094 | 9,001 | 10,054 | 10,994 | 33.48% |
| Bro Morgannwg | 10,559 | 11,977 | 13,684 | 15,530 | 17,193 | 38.59% |
| Wrecsam | 10,317 | 11,734 | 13,351 | 15,124 | 16,862 | 38.82% |
| **Cymru** | **251,188** | **278,422** | **311,163** | **347,518** | **381,580** | **34.17%** |

Source: Welsh Government, Daffodil projections

# Atodiad 5: Amcanestyniad o'r boblogaeth 65 a throsodd â phroblemau symudedd

| Awdurdod Lleol | 2015 | 2020 | 2025 | 2030 | 2035 | newid % |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Blaenau Gwent | 2,325 | 2,510 | 2,759 | 3,078 | 3,400 | 46.24% |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 4,946 | 5,622 | 6,418 | 7,345 | 8,281 | 67.43% |
| Caerffili | 5,745 | 6,489 | 7,363 | 8,397 | 9,456 | 64.60% |
| Caerdydd | 9,374 | 10,283 | 11,533 | 13,188 | 15,076 | 60.83% |
| Sir Gaerfyrddin | 7,642 | 8,504 | 9,562 | 10,865 | 12,089 | 58.19% |
| Ceredigion | 3,152 | 3,515 | 3,936 | 4,402 | 4,806 | 52.47% |
| Conwy | 5,863 | 6,378 | 7,026 | 7,828 | 8,624 | 47.09% |
| Sir Ddinbych | 3,924 | 4,374 | 4,906 | 5,562 | 6,202 | 58.05% |
| Sir y Fflint | 5,395 | 6,227 | 7,153 | 8,221 | 9,291 | 72.22% |
| Gwynedd | 5,052 | 5,438 | 5,894 | 6,498 | 7,039 | 39.33% |
| Ynys Môn | 3,136 | 3,492 | 3,914 | 4,363 | 4,763 | 51.88% |
| Merthyr Tudful | 1,910 | 2,131 | 2,405 | 2,736 | 3,087 | 61.62% |
| Sir Fynwy | 3,959 | 4,545 | 5,179 | 5,972 | 6,743 | 70.32% |
| Castell-nedd Port Talbot | 5,095 | 5,531 | 6,143 | 6,905 | 7,647 | 50.09% |
| Casnewydd | 4,673 | 5,058 | 5,588 | 6,271 | 7,021 | 50.25% |
| Sir Benfro | 5,378 | 6,053 | 6,770 | 7,610 | 8,398 | 56.15% |
| Powys | 6,228 | 7,127 | 8,144 | 9,342 | 10,466 | 68.05% |
| Rhondda Cynon Taf | 7,803 | 8,591 | 9,534 | 10,692 | 11,875 | 52.19% |
| Abertawe | 8,607 | 9,445 | 10,427 | 11,617 | 12,821 | 48.96% |
| Torfaen | 3,286 | 3,653 | 4,076 | 4,615 | 5,131 | 56.15% |

| Awdurdod Lleol | 2015 | 2020 | 2025 | 2030 | 2035 | newid % |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Bro Morgannwg | 4,765 | 5,409 | 6,209 | 7,147 | 8,048 | 68.90% |
| Wrecsam | 4,626 | 5,272 | 6,024 | 6,942 | 7,871 | 70.15% |
| **Cymru** | **112,887** | **125,645** | **140,963** | **159,599** | **178,134** | **57.80%** |

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru, amcanestyniadau Daffodil

# Atodiad 6: Barn rheolwyr awdurdod lleol ynghylch effeithiolrwydd trefniadau partneriaeth rhwng eu hawdurdod lleol a sefydliadau eraill sy'n cyflenwi addasiadau tai

| Awdurdodau Lleol | Aelod o grŵp traws-sector | Cyfarfod rheolaidd | Cyswllt anffurfiol | Rhannu gwybodaeth | Staff wedi'u cydleoli | Adnoddau cyfun | Dim trefniadau partneriaeth |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Gofal a Thrwsio | 5 | 18 | 15 | 15 | 1 | 7 | 1 |
| Cymdeithasau Tai ac/neu Gymdeithasau LSVT sydd yn rheoli tai yn eich ardal | 5 | 6 | 13 | 8 | 2 | 1 | 4 |
| Cymdeithasau Tai ac/neu Gymdeithasau LSVT nad ydynt yn rheoli tai yn eich ardal | 0 | 0 | 3 | 2 | 0 | 0 | 18 |
| Awdurdodau lleol | 10 | 14 | 9 | 11 | 1 | 0 | 5 |
| Sefydliadau eraill yn y trydydd sector | 1 | 2 | 7 | 4 | 0 | 0 | 12 |
| Defnyddwyr addasiadau tai | 0 | 2 | 14 | 8 | 0 | 0 | 5 |
| Eich Bwrdd Iechyd Lleol - heblaw'r Gwasanaethau Therapi Galwedigaethol | 1 | 4 | 6 | 5 | 0 | 3 | 12 |
| Eich Bwrdd Iechyd Lleol - drwy'r Gwasanaethau Therapi Galwedigaethol | 5 | 8 | 11 | 10 | 7 | 7 | 3 |

Ffynhonnell: Arolwg Swyddfa Archwilio Cymru o reolwyr tai awdurdod lleol. Cawsom ymatebion gan bob un o'r 22 o awdurdodau lleol. Gallai ymatebwyr yr arolwg ddewis mwy nag un ymateb, felly gall y rhesi greu cyfansymiau o fwy na 22. Y golofn olaf goch yw'r niferoedd gwirioneddol.

# Atodiad 7: Barn rheolwyr cymdeithasau tai ynghylch effeithiolrwydd trefniadau partneriaeth rhwng eu cymdeithas dai a sefydliadau eraill sy'n cyflenwi addasiadau tai

| Awdurdodau Lleol | Aelod o grŵp traws-sector | Cyfarfod rheolaidd | Cyswllt anffurfiol | Rhannu gwybodaeth | Staff wedi'u cydleoli | Adnoddau cyfun | Dim trefniadau partneriaeth |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Gofal a Thrwsio | 3 | 6 | 17 | 9 | 0 | 0 | 7 |
| Cymdeithasau Tai ac/neu Gymdeithasau LSVT sydd yn rheoli tai yn eich ardal | 7 | 12 | 20 | 19 | 1 | 2 | 1 |
| Cymdeithasau Tai ac/neu Gymdeithasau LSVT nad ydynt yn rheoli tai yn eich ardal | 0 | 0 | 9 | 4 | 0 | 0 | 12 |
| Awdurdodau lleol | 1 | 1 | 8 | 3 | 0 | 0 | 8 |
| Sefydliadau eraill yn y trydydd sector | 2 | 4 | 10 | 12 | 0 | 0 | 10 |
| Defnyddwyr addasiadau tai | 3 | 4 | 9 | 7 | 0 | 2 | 12 |
| Eich Bwrdd Iechyd Lleol - heblaw'r Gwasanaethau Therapi Galwedigaethol | 0 | 0 | 6 | 2 | 0 | 0 | 14 |
| Eich Bwrdd Iechyd Lleol - drwy'r Gwasanaethau Therapi Galwedigaethol | 3 | 6 | 17 | 9 | 0 | 0 | 7 |

Ffynhonnell: Arolwg Swyddfa Archwilio Cymru o gymdeithasau tai. Cawsom ymatebion gan bob un o'r 33 o gymdeithasau tai sy'n cyflawni gwaith addasu Gallai ymatebwyr yr arolwg ddewis mwy nag un ymateb, felly gall y cyfansymiau fod yn uwch na 33. Y golofn olaf goch yw'r niferoedd gwirioneddol.

# Atodiad 8: Barn rheolwyr Gofal a Thrwsio ynghylch effeithiolrwydd trefniadau partneriaeth rhwng eu sefydliad hwy a sefydliadau eraill sy'n cyflenwi addasiadau tai

| **Awdurdodau Lleol** | **Aelod o grŵp traws-sector** | **Cyfarfod rheolaidd** | **Cyswllt anffurfiol** | **Rhannu gwybodaeth** | **Staff wedi'u cydleoli** | **Adnoddau cyfun** | **Dim trefniadau partneriaeth** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Gofal a Thrwsio | 5 | 11 | 5 | 10 | 3 | 2 | 0 |
| Cymdeithasau Tai ac/neu Gymdeithasau LSVT sydd yn rheoli tai yn eich ardal | 1 | 3 | 8 | 6 | 0 | 0 | 1 |
| Cymdeithasau Tai ac/neu Gymdeithasau LSVT nad ydynt yn rheoli tai yn eich ardal | 4 | 3 | 5 | 4 | 0 | 0 | 3 |
| Awdurdodau lleol | 0 | 1 | 4 | 2 | 0 | 0 | 5 |
| Sefydliadau eraill yn y trydydd sector | 4 | 7 | 4 | 5 | 0 | 0 | 2 |
| Defnyddwyr addasiadau tai | 1 | 3 | 7 | 6 | 0 | 0 | 0 |
| Eich Bwrdd Iechyd Lleol - heblaw'r Gwasanaethau Therapi Galwedigaethol | 2 | 8 | 8 | 7 | 3 | 0 | 0 |
| Eich Bwrdd Iechyd Lleol - drwy'r Gwasanaethau Therapi Galwedigaethol | 5 | 11 | 5 | 10 | 3 | 2 | 0 |

Ffynhonnell: Arolwg Swyddfa Archwilio Cymru o reolwyr Gofal a Thrwsio. Cawsom ymatebion gan bob un o'r 13 o asiantaethau Gofal a Thrwsio. Gallai ymatebwyr yr arolwg ddewis mwy nag un ateb, felly gall y rhesi greu cyfanswm o fwy nag 13. Y golofn olaf goch yw'r niferoedd gwirioneddol.

Wales Audit Office

24 Cathedral Road

Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500

Fax: 029 2032 0600

Textphone: 029 2032 0660

We welcome telephone calls in Welsh and English.

E-mail: info@audit.wales

Website: www.audit.wales

Swyddfa Archwilio Cymru

24 Heol y Gadeirlan

Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn Testun: 029 2032 0660

Rydym yn croesawu galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.

E-bost: post@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru